Senedd Cymru

# Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026

## Memorandwm Esboniadol

Ebrill 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Mark Isherwood AS ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

### Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 14 Gorffennaf 2025, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Mark Isherwood AS**

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil / y Ddeddf

# Cynnwys

**Rhan 1: Memorandwm Esboniadol ....... 1**

**1. Cyflwyniad ....... 1**

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ....... 3**

**3. Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael ....... 4**

**4. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham ....... 48**

**5. Gweithdrefnau cwyno ar gyfer Arwyddwyr IAP ....... 58**

**6. Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus ....... 64**

**7. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ....... 76**

**Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol ....... 79**

**8. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ....... 81**

**9. Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau â pholisïau IAP Llywodraeth Cymru ....... 86**

**10. Opsiwn 2: cyflwyno Bil ....... 90**

**11. Asesiadau Effaith Penodol ....... 104**

**12. Nodiadau Esboniadol ....... 121**

**13. Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog ....... 127**

# Rhan 1: Memorandwm Esboniadol

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 24 Ebrill 2024, llwyddodd Mark Isherwood AS yn y balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd ar gyfer yr hawl i gael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod.

**2.** Ar 19 Mehefin 2024, cynhaliwyd dadl 'caniatâd i gyflwyno', a chytunodd y Senedd y câi Mark Isherwood gyflwyno Bil o fewn 13 mis i ddyddiad y ddadl i roi effaith i'r cynnig a ddetholwyd yn y balot cynharach.

**3.** Y cynnig oedd creu Bil i osod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain ("IAP") a llunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r ddyletswydd hon, a chyflwyno adroddiad ar eu cynnydd. Cynigiwyd hefyd y byddai'r Bil yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu hwyluso'r defnydd o IAP, a chyflwyno adroddiad ar eu cynnydd. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi sut y gall cyrff cyhoeddus rhestredig hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

**4.** Bydd y Bil yn sylfaen i sicrhau bod gwasanaethau gwell, a chanlyniadau gwell, ar gael i'r gymuned Fyddar. Bydd cynyddu darpariaeth IAP yn gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg, yn gwella canlyniadau cyflogaeth i arwyddwyr IAP ac yn eu galluogi i fyw mewn cymdeithas lle mae eu hiaith a'u diwylliant yn cael eu cydnabod a'u hybu.

## Y termau a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol hwn

**5.** Mae 'Byddar' gyda phriflythyren fel arfer yn cyfeirio at bobl sy'n uniaethu fel pobl sy'n ddiwylliannol Fyddar, ac sydd yn ddiwylliannol Fyddar, ac a all fod yn arwyddwyr Iaith Arwyddion; ac mae 'byddar' gyda llythyren fach yn cyfeirio at bobl fyddar sydd ag amhariadau ar y clyw. Yn y Memorandwm Esboniadol hwn, rydym yn defnyddio'r termau Byddar, byddar, a thrwm eu clyw.

**6.** Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi galw am ddefnyddio'r term 'arwyddwyr IAP' yn hytrach na 'defnyddwyr IAP'. Cafodd y defnydd arfaethedig hwn o derminoleg ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Bil. Roedd ychydig dros hanner yn cytuno y dylid defnyddio'r term 'arwyddwyr IAP' yn hytrach na 'defnyddwyr IAP' ac y dylid defnyddio'r term 'arwyddwyr IAP Byddar' wrth

gyfeirio at ddefnyddwyr/arwyddwyr IAP sy'n fyddar yn feddygol neu'n awdiolegol.[1] Felly, rydym yn defnyddio'r term 'arwyddwyr IAP Byddar' i gyfeirio at bobl sy'n fyddar yn feddygol neu'n awdiolegol.

[1] Mark Isherwood AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig (Mawrth 2025)

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

**7.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu ar gyfer cyflwyno Biliau gan Aelodau unigol o'r Senedd, yn ogystal â chan Lywodraeth Cymru, pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd, mewn meysydd lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol.

**8.** Mae adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn caniatáu i'r Senedd wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru a elwir yn Ddeddfau Senedd Cymru. Mae adran 108A yn darparu nad yw Deddf gan y Senedd yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**9.** Mae darpariaethau Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Roedd darpariaethau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ("y Bil"), fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

# 3. Diben y Ddeddf a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o amcanion polisi'r Ddeddf, yn nodi pam y mae angen y Ddeddf ac yn gosod y Ddeddf yng nghyd-destun deddfwriaeth a datblygiadau perthnasol eraill mewn rhannau eraill o'r DU.

## Yr amcanion polisi arfaethedig

**10.** Mae IAP yn chwarae rhan hanfodol er mwyn galluogi cyfathrebu a hybu cynwysoldeb wrth i bobl ryngweithio o ddydd i ddydd. Mae IAP yn aml yn iaith gyntaf ac yn brif gyfrwng cyfathrebu i unigolion sy'n Fyddar. Mae'n eu galluogi i fynegi eu hunain, ymwneud ag eraill a chael gwybodaeth a gwasanaethau i'w cefnogi.

**11.** Mae IAP hefyd yn ddolen gyswllt rhwng unigolion Byddar ac unigolion sy'n clywed, gan hwyluso cyfathrebu a chwalu rhwystrau. Mae ymgorffori IAP mewn bywyd beunyddiol yn hybu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad diwylliannol, gan gyfoethogi cysylltiadau rhyngbersonol a hybu empathi a dealltwriaeth ar draws cymunedau amrywiol.

**12.** Mae'r Ddeddf hon yn symbol arwyddocaol, ac mae'n anfon neges bwysig at arwyddwyr IAP Byddar fod eu hiaith yn cael ei gwerthfawrogi a'u hawliau i fynediad ieithyddol yn cael eu cydnabod.

## Pam y mae angen y Ddeddf a'r manteision cysylltiedig

**13.** Mae angen y Ddeddf am dri phrif reswm:

- Mae seneddau eraill yn y DU wedi creu cynseiliau ar gyfer gosod dyletswyddau ar y llywodraeth a chyrff rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd y Ddeddf yn sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.[2] Heb

[2] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Bil Iaith Arwyddion (a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2025 ac y mae'r Cynulliad wrthi'n ei ystyried ar hyn o bryd)

y Ddeddf hon, bydd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau statudol llawer gwannach, gan roi arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill yn y DU.

- Er mwyn cydnabod anghenion ieithyddol cymuned IAP a'i hunaniaeth a’i threftadaeth ddiwylliannol. Er bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod unigolion rhag gwahaniaethu, bydd y Ddeddf hon yn sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o IAP fel iaith yn ei rhinwedd ei hun.

- Ar hyn o bryd, mae arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, bydd y Ddeddf yn sicrhau bod llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**14.** Roedd y gwaith ymgynghori ar y cynigion a oedd yn sail i’r Ddeddf yn dangos bod cefnogaeth gref iddynt a chytundeb bod angen deddfwriaeth. Trafodir hyn ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

**15.** Mae'r gwaith ymchwil y cyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol hwn a'r cyfraniadau gan bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad i gyd yn cydnabod y rhan bwysig y mae IAP yn ei chwarae ym mywydau pobl Fyddar. Ac eto, yn rhy aml, nid yw pobl Fyddar yn gallu cael gwasanaethau cyhoeddus hanfodol am nad ydynt yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf, sef IAP. Yn ogystal â golygu na allant arfer eu hawliau, mae hefyd yn golygu eu bod o dan anfantais aruthrol, boed hynny yn y ffordd y maent yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu o ran eu cyrhaeddiad addysgol, eu cyfleoedd cyflogaeth neu eu gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- Dychmygwch eich bod yn mynd i’r adran damweiniau ac achosion brys ac yn methu â chyfathrebu â'ch meddyg.

- Dychmygwch eich bod yn mynd i'r gwaith ac yn methu â chyfathrebu â'ch cyflogwr.

- Dychmygwch fod rhywun yn gofyn i chi wneud cais am swydd mewn iaith nad ydych yn ei deall.

- Dychmygwch eich bod yn mynd i'r ysgol ac yn methu â chyfathrebu â disgyblion eraill.
- Dychmygwch eich bod mewn cartref gofal ac yn methu â chyfathrebu â'ch gofalwyr.
- Dychmygwch eich bod yn teimlo eich bod wedi eich dadrymuso i'r fath raddau.

**16.** Bydd y Ddeddf yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy gyflwyno gofyniad cyfreithiol penodol i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru, a fydd yn sicrhau mwy o degwch i arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru.


**17.** Mae'r adrannau a ganlyn yn esbonio'n fanylach:

- beth yw cefndir Iaith Arwyddion Prydain (paragraffau 18 i 35);
- y broblem o ran y sefyllfa bresennol (paragraffau 36 i 105);
- sut y mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â pholisïau presennol ac yn eu cefnogi (paragraffau 106 i 137);
- yr hyn sy'n digwydd yng ngweddill y DU (paragraffau 138 i 155).

## Cefndir Iaith Arwyddion Prydain

**18.** Mae ieithoedd arwyddion yn ieithoedd llawn sydd â'u cymunedau, eu hanes a'u diwylliannau eu hunain. Maent yn iaith weledol sy'n cyfleu ystyr drwy ddefnyddio siapiau llaw, mynegiant wyneb, ystumiau ac iaith y corff.

Ffigur 1: Gwyddor Sillafu â Bysedd Iaith Arwyddion Prydain (IAP)




*Ffynhonnell: Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain*

**19.** Mae tua 300 o ieithoedd arwyddion yn y byd, sy'n amrywio o wlad i wlad. Yn union fel ieithoedd llafar, nid yw iaith arwyddion yn rhyngwladol. Mae ieithoedd arwyddion wedi eu datblygu dros flynyddoedd gan y bobl sy'n eu defnyddio. Nid ydynt yn deillio o iaith lafar gwlad, felly gall hyd yn oed gwledydd lle mae'r un iaith yn cael ei siarad fod ag ieithoedd arwyddion cwbl ar wahân. Er enghraifft, yn y DU, Iwerddon ac UDA, Saesneg yw'r brif iaith lafar, ond mae gan bob un ei hiaith arwyddion unigryw ei hun. Mae casgliad o arwyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol – Arwyddion Rhyngwladol – a ddefnyddir weithiau yn ystod cyfarfodydd rhyngwladol pobl Fyddar.

**20.** Yn ogystal, yn debyg i ieithoedd naturiol sydd wedi datblygu dros amser, gall iaith arwyddion fod â thafodieithoedd rhanbarthol, sy'n mabwysiadu amrywiadau i ddefnydd a dealltwriaeth pobl o arwyddion. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod pedair tafodiaith ranbarthol, felly efallai y bydd person Byddar o’r de yn defnyddio rhai arwyddion sy’n wahanol i’r rhai a ddefnyddir gan rywun o’r gogledd, ac efallai y bydd amrywiadau hefyd yn y dwyrain a’r gorllewin.[3]

## Cydnabod IAP fel iaith

**21.** Mae iaith arwyddion yn iaith yn ei rhinwedd ei hun. Nid yw ei geirfa na'i chystrawen yn efelychu ieithoedd llafar. Pan fo unigolion wedi bod yn Fyddar o'u genedigaeth neu o’u plentyndod cynnar, nid yw isdeitlau neu ieithoedd

[3] Dr Rob Wilks (Uwch-ddarlithydd yn y Gyfraith), Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

ysgrifenedig yn ddewis amgen digonol gan nad yw iaith arwyddion yn fersiwn wedi'i harwyddo o iaith ysgrifenedig neu lafar.

**22.** Mae gwaith ymchwil gan ieithyddion fel Sutton-Spence a Woll[4] yn nodi bod gan iaith arwyddion strwythurau ar gyfer trefn geiriau, cytundeb berfol a nodweddion nad ydynt yn defnyddio'r dwylo (h.y. mynegiant wyneb) y tu hwnt i gyfathrebu syml yn seiliedig ar ystumiau. O'r safbwynt hwnnw, mae anghenion unigolion Byddar yn wahanol i anghenion unigolion sy'n drwm eu clyw neu sydd ag amhariad lleferydd gan mai 'anghenion ieithyddol' sydd ganddynt yn hytrach nag 'anghenion cyfathrebu'.

**23.** Gall cydnabod iaith yn y gyfraith helpu i annog ei defnydd, ei threftadaeth a'i phwysigrwydd diwylliannol. Er enghraifft, rhoddodd Deddf yr Aeleg (yr Alban) 2005[5] fwy o amddiffyniad ac amlygrwydd i'r Aeleg, gan weithio tuag at sicrhau ei statws fel iaith swyddogol yn yr Alban a sefydlu corff (Bòrd na Gàidhlig)[6]) i hybu defnydd a dealltwriaeth o'r Aeleg. Mae Senedd yr Alban wrthi'n ystyried Bil Ieithoedd yr Alban,[7] sy'n rhoi statws swyddogol i'r Aeleg a'r Sgoteg yn yr Alban ac yn gwneud newidiadau i'r cymorth ar gyfer yr Aeleg a'r Sgoteg.

**24.** Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[8] y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Moderneiddiodd y Mesur y fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg, y mae hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn brif nod iddi. Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

**25.** Cydnabuwyd IAP fel iaith yn ei rhinwedd ei hun mewn datganiad Gweinidogol ysgrifenedig i Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2003 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar y pryd, Andrew Smith AS.[9] Cydnabu Llywodraeth Cymru IAP yn ffurfiol ym mis Ionawr 2004.

[4] Sutton-Spence, R a Woll, B (1999) The linguistics of British Sign Language
[5] Deddf yr Aeleg (yr Alban) 2005
[6] Bòrd na Gàidhlig
[7] Bil Ieithoedd yr Alban
[8] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
[9] Datganiadau Gweinidogol Ysgrifenedig Hansard Tŷ'r Cyffredin ar gyfer 18 Mawrth 2003 (rhan 2) (Saesneg yn unig)

**26.** Cydnabu Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015[10] IAP fel iaith frodorol a ddefnyddir gan bobl Fyddar, yn hytrach nag fel amhariad y mae angen cymorth cyfathrebu ar ei gyfer.

**27.** Ar sail pryder nad oedd cydnabyddiaeth i IAP yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl Fyddar yn eu hwynebu, mae ymgyrchwyr, gan gynnwys Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, wedi dadlau ers tro y dylai'r DU gydnabod IAP yn swyddogol yn y gyfraith.[11] Nid oes 'iaith gyfreithiol' swyddogol yn y DU, ond yn 2022 pasiodd Senedd y DU Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain 2022,[12] sy'n cydnabod IAP fel un o ieithoedd Cymru, Lloegr a'r Alban.

**28.** Mae'r llysoedd yng Nghymru a Lloegr hefyd wedi cydnabod bod IAP yn iaith yn ei rhinwedd ei hun:

- Yn 2013 yn Finnigan,[13] dywedodd y Llys Apêl: "BSL is a language in its own right which is regularly used by a significant number of people. It is a visual-gestural language with its own vocabulary, grammar and syntax."
- Yn 2021 yn Rowley,[14] dywedodd yr Uchel Lys: "BSL is a language in its own right, with all the essential features of a human language. It is separate from English and is not a signed equivalent of English. It has its own complex grammatical structure and rules; its own phonology, morphology and syntax. It is a complex visual spatial language, involving a combination of hand shapes, facial expressions, lip patterns and body language. This was explained in the evidence of Dr Kate Rowley and Amanda Casson Webb. It has been recognised by the Court of Appeal: Finnigan. It was recognised by a 2003 written Ministerial Statement emanating from the Department of Work and Pensions."

## Faint o arwyddwyr IAP sydd?

**29.** Yn aml, ni chedwir cofnod o arwyddwyr IAP Byddar, na gwybodaeth amdanynt. Mae hyn yn golygu nad oes consensws ynghylch cyfanswm nifer yr arwyddwyr IAP Byddar yn y DU ac mae wedi arwain at amrywiadau mawr yn yr

[10] Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015
[11] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Legal Status for BSL and ISL (2014)
[12] Senedd y DU, Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[13] Bryan Finnigan yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Northumbria [2013] EWCA Civ 1191 (Saesneg yn unig)
[14] (R) Rowley yn erbyn Gweinidog Swyddfa'r Cabinet [2021] EWHC 2108 (Gweinyddol) (Saesneg yn unig)

amcangyfrifon sydd ar gael. Mae'r diffyg data hwn yn ei gwneud yn anodd cynllunio cymorth priodol a darpariaeth gwasanaethau.

**30.** Mae Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr yn nodi bod 22,000 (0.04%) o breswylwyr arferol 3 oed a throsodd yn defnyddio IAP fel eu prif iaith yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn dros 6,000 yn fwy nag yn 2011 (15,000, 0.03%). Yng Nghymru, IAP yw iaith dros 900 o bobl (0.03%). Mae'r ganran hon ychydig yn is nag yn Lloegr, lle mae ychydig dros 21,000 o bobl (0.04%) yn defnyddio IAP fel eu prif iaith.[15]

**31.** Yn ôl Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain,[16] IAP yw dewis iaith dros 87,000 o bobl Fyddar yn y DU y gall Saesneg fod yn ail neu'n drydydd iaith iddynt. Yn ogystal, maent yn dweud bod 151,000 o unigolion yn y DU sy'n gallu defnyddio IAP (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys defnyddwyr IAP proffesiynol, Dehonglwyr a Chyfieithwyr oni bai eu bod hefyd yn defnyddio IAP gartref). Yng Nghymru, mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn amcangyfrif bod 7,200 o unigolion yn defnyddio IAP (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys defnyddwyr IAP proffesiynol, Dehonglwyr a Chyfieithwyr oni bai eu bod hefyd yn defnyddio IAP gartref). O'r rhain, amcangyfrifir bod 4,000 yn Fyddar.

**32.** Tynnodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020 sylw at yr anghysondeb o ran data ac amcangyfrifodd fod poblogaeth IAP Cymru rhwng 5,600 a 7,300.[17]

## Pa mor gyffredin yw IAP yn y gymuned Fyddar

**33.** Ni fydd pob person Byddar yn arwyddwyr IAP. Bydd pobl Fyddar yn defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu. Yn ôl Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, bydd dewis unigolyn yn seiliedig ar lawer o ffactorau sy’n ymwneud â’i brofiad a natur a graddfa ei fyddardod.[18] Yn ogystal ag iaith arwyddion, efallai y bydd pobl Fyddar hefyd yn darllen gwefusau ac yn defnyddio sillafu â bysedd a sillafu â bysedd Dall Fyddar.

**34.** Efallai y byddant hefyd yn defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu, gan gynnwys:

[15] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Iaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (Tachwedd 2022)
[16] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, BSL Statistics (fel ar 30 Ebrill 2025)
[17] Bowen, R. a Holtom, D. (2020). Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i Oedolion yng Nghymru
[18] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Communicating with Deaf people (fel ar 30 Ebrill 2025)

- Mae **rhaglen gyfathrebu Makaton**, a ddatblygwyd dros 50 mlynedd yn ôl, yn cyfuno lleferydd, arwyddo a symbolau, i gynorthwyo'n benodol unigolion sydd ag anawsterau dysgu neu gyfathrebu. Nid yw'n iaith gyflawn, naturiol fel IAP ond yn hytrach mae'n system gyfathrebu atodol. Mae Makaton wedi addasu nifer o arwyddion IAP ond mae'n eu defnyddio ochr yn ochr â Saesneg llafar a symbolau yn nhrefn geiriau'r Saesneg, sy'n ei wneud yn ddull cyfathrebu allweddol i dros 100,000 o bobl yn y DU.[19]

- Mae **Saesneg â Chymorth Arwyddion** yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio arwyddo a siarad Saesneg ar yr un pryd. Yn aml, mae Saesneg â Chymorth Arwyddion yn benthyg arwyddion IAP ac yn eu defnyddio yn y drefn y cânt eu defnyddio mewn Saesneg llafar. Mae IAP yn iaith unigryw, ond mae Saesneg â Chymorth Arwyddion ar y cyfan yn dilyn yr un rheolau gramadegol â'r Saesneg.[20]

**35.** Mae 'IAP cyffyrddol' yn ddull o gyfathrebu drwy gyffwrdd a ddefnyddir gan rai pobl sy'n ddall ac yn fyddar. Mae'r person Dall Fyddar yn rhoi ei ddwylo dros ddwylo'r arwyddwr i ddilyn yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu drwy gyffwrdd a symud. Mae'r arwyddion yn seiliedig ar IAP ac mae'n cynnwys yr wyddor dwylo Dall Fyddar, sy'n seiliedig ar wyddor sillafu â bysedd IAP.[21]

## Y broblem o ran y sefyllfa bresennol

### Nid yw'r fframwaith deddfwriaethol yn gweithio

**36.** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010[22] yn gwarchod pobl rhag cael eu trin yn annheg. Mae dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau i bobl anabl. Mae'r ddyletswydd hon yn rhagddyfalus[23] ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus[24] fynd ati'n rhagweithiol i wneud

[19] Elusen Makaton, Makaton and British Sign Language (fel ar 29 Ebrill 2025)
[20] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, The difference between BSL & SSE (fel ar 30 Ebrill 2025)
[21] I gael rhagor o wybodaeth, gweler Deafblind UK
[22] Deddf Cydraddoldeb 2010.
[23] Golyga hyn fod rhaid iddynt ragddyfalu pa addasiadau y gallai fod eu hangen ar bobl â gwahanol fathau o anableddau a gofynion o ran cymorth a mynediad, a meddwl am yr addasiadau hynny a cheisio eu rhagweld. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth feddwl am bob cwsmer anabl posibl ac nid dim ond y rhai y mae'n gwybod amdanynt.
[24] Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn gymwys ledled Prydain Fawr i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 19 (fel y'i diwygiwyd), ac i unrhyw sefydliad arall pan fo'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.

addasiadau i sicrhau bod yr holl anghenion o ran mynediad a chyfathrebu yn cael eu diwallu.

**37.** Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio person anabl fel rhywun sydd ag anabledd, neu sydd wedi bod ag anabledd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol (negyddol) sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Er bod llawer o bobl Fyddar nad ydynt yn uniaethu fel pobl anabl, bydd gan y rhai sy'n Fyddar neu sydd ag amhariadau ar y clyw neu dinitws sy'n dod o dan y diffiniad hwn hawliau o dan y Ddeddf.

**38.** Mae'r Ddeddf yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau y gall pobl anabl gael mynediad at eu gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys darparu dehonglwyr IAP, sy'n cael eu hystyried yn addasiad rhesymol i hwyluso cyfathrebu.

**39.** Fel y nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Diben dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus[25] yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn ystyried sut y gallant wella'r gymdeithas a hybu cydraddoldeb ym mhob agwedd ar eu busnes o ddydd i ddydd. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried, a pharhau i adolygu, sut y maent yn hybu cydraddoldeb o ran:

- gwneud penderfyniadau;
- polisïau mewnol ac allanol;
- caffael nwyddau a gwasanaethau;
- y gwasanaethau y maent yn eu darparu; a
- recriwtio, dyrchafu a rheoli perfformiad cyflogeion.

**40.** Mae adran 153 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010

[25] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (fel ar 30 Ebrill 2025)

(Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.[26] Daeth y dyletswyddau hyn i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn gymwys i gyrff rhestredig yng Nghymru.

**41.** Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Bil[27] o'r farn nad yw'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu cynnal. Maent yn dadlau bod arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu gwahaniaethu, ac nad oes fawr o gyfle iddynt geisio cael iawn pan na chynhelir eu hawliau. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)[28] yn dadlau, er bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnig rhai mesurau gwarchod, y gall yr hyn sy'n cyfrif fel 'addasiad rhesymol' fod yn amwys, gan olygu nad oes cysondeb o ran y ffordd y caiff yr addasiadau hynny eu rhoi ar waith.

**42.** Er y bydd rhai yn cytuno bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnig dull o herio a mynd i'r afael â rhwystrau cyfathrebu, mae llawer o arwyddwyr IAP Byddar yn gweld IAP fel iaith leiafrifol yn hytrach nag amhariad y mae angen cymorth cyfathrebu ar ei gyfer. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hyn, gan ddweud bod y Bil yn mynd y tu hwnt i'r Ddeddf Cydraddoldeb, drwy warchod, hybu a hwyluso IAP fel iaith. Dywedodd Tirweddau Cymru Landscapes Wales (TCLW)[29] fod IAP yn fwy nag addasiad rhesymol fel iaith, a bod iddi werth i ddefnyddwyr o ran diwylliant, cymuned a hunaniaeth. Roedd Dr Kate Attfield am weld y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael ei diwygio i gydnabod pobl Fyddar fel nodwedd warchodedig, fel grŵp diwylliannol ac ieithyddol o bobl.[30]

## Sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â seneddau'r DU a'r Alban

**43.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod IAP yn ffurfiol ym mis Ionawr 2004, nid yw wedi cyflwyno deddfwriaeth yn yr un modd â Senedd y DU a Senedd yr Alban neu ddeddfwriaeth arfaethedig Cynulliad Gogledd Iwerddon.[31] Oherwydd bod diffyg deddfwriaeth benodol, mae bwlch amlwg yn hyn o beth yng Nghymru.

[26] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
[27] Mark Isherwood AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig (Mawrth 2025)
[28] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[29] Tirweddau Cymru Landscapes Wales, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[30] Dr Kate Attfield, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[31] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Bil Iaith Arwyddion (a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2025 ac y mae'r Cynulliad wrthi'n ei ystyried ar hyn o bryd)

**44.** Ym mis Hydref 2018, galwyd am ddeddfwriaeth IAP i Gymru, yn debyg i Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015, yng nghynhadledd 'Clust i Wrando 2018' gogledd Cymru.[32]

**45.** Roedd nifer o sefydliadau, gan gynnwys yr RNID, Anabledd Cymru, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Gofal a Thrwsio Cymru a nifer o unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn teimlo'n gryf fod angen Bil er mwyn sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth Senedd y DU a Senedd yr Alban. Byddai hyn yn sicrhau nad yw arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'r rhai yn Lloegr a'r Alban.

**46.** Dywedodd Anabledd Cymru[33] fod y bwlch deddfwriaethol yn gadael arwyddwyr yng Nghymru heb yr un mesurau i'w gwarchod. Dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru[34] y byddai'r Bil yn gosod dyletswyddau penodol cyfatebol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Cododd yr RNID[35] bwynt tebyg, gan ddweud ei fod am weld Llywodraeth Cymru yn 'dal i fyny' â deddfwriaeth a ddeddfwyd yn San Steffan a'r Alban sy'n cynnig mesurau pellach i warchod arwyddwyr IAP Byddar. Dywedodd:

> […] *BSL users in Wales are at risk; their government has significantly weaker or minimal statutory responsibilities to the deaf community compared to other UK nations.*

## Diffyg dealltwriaeth ynghylch Iaith Arwyddion Prydain

**47.** Fel y nodwyd eisoes, mae IAP yn iaith yn ei rhinwedd ei hun. Mae'n bwysig deall mai iaith, yn hytrach na chyfrwng cyfathrebu, yw IAP. Gall hynny wneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion arwyddwyr IAP Byddar, gan gynnwys a fyddent yn ystyried eu hanghenion yn yr un modd ag y byddent ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

**48.** Siaradodd cyfranogwyr yn y digwyddiadau ymgysylltu[36] gyda balchder am eu hiaith "brydferth", sy'n cynnig mwy na dim ond y gallu i gyfathrebu ond hefyd

---

[32] Mark Isherwood AS, Call for British sign language legislation in Wales (Hydref 2018) (Saesneg yn unig)
[33] Anabledd Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[34] Gofal a Thrwsio Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[35] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[36] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)

ymdeimlad o gysylltiad, cymuned a hunandderbyn. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> *Mae BSL yn fwy na dim ond iaith; dyma yw ein hunaniaeth. Dyna sut rydyn ni'n cysylltu, ac mae angen parchu hynny.*

**49.** Pwysleisiodd sawl un a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod angen gwneud mwy i sicrhau bod IAP yn cael ei chydnabod fel iaith, gyda sawl un yn gwrthwynebu cynnwys darpariaethau yn y Ddeddf ar gyfer dulliau eraill o gyfathrebu (h.y. Makaton neu Saesneg â Chymorth Arwyddion). Roedd rhai yn teimlo'n gryf y dylai'r Ddeddf efelychu deddfwriaeth yn y DU a'r Alban a chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar anghenion ieithyddol y gymuned Fyddar, gan ailddatgan ei ddiben, sef hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

**50.** Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru hybu a hwyluso'r defnydd o IAP a bod rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig gynllunio sut y byddant yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o IAP, gan sicrhau gwell dealltwriaeth o IAP, ei threftadaeth a'i phwysigrwydd diwylliannol.

## Nid oes digon o arwyddwyr IAP yn gallu cael dehonglwyr a chyfathrebu yn IAP

**51.** Mae'r gymuned Fyddar yn dibynnu'n helaeth ar ddehonglwyr IAP cymwysedig a deunyddiau wedi'u cyfieithu i gael gwasanaethau hanfodol fel gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'n bwysig bod pobl sy'n gweithio fel dehonglwyr wedi'u hyfforddi'n dda, eu bod wedi cymhwyso a'u bod wedi'u cofrestru, a bod ganddynt lefel uchel o sgiliau IAP.

**52.** Mae'r Cofrestrau Cenedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dall Fyddar (NRCPD)[37] yn rheoleiddio proffesiwn dehonglwyr IAP yn y categorïau a ganlyn:

- Dehonglydd Iaith Arwyddion Cofrestredig (RSLI) - angen dangos eu bod yn gwybod am ddehongli ac ymddygiad proffesiynol, fel y diffinnir hynny yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.[38] Bydd angen iddynt hefyd ennill cymwysterau mewn dehongli ac IAP sydd wedi'u cymeradwyo gan NRCPD.[39]

[37] NRCPD
[38] NRCPD, Code of Conduct
[39] NRCPD, Approved Courses

- Dehonglydd Iaith Arwyddion dan Hyfforddiant (TSLI)[40] - rhaid iddynt fod yn dilyn cynllun datblygu cymeradwy neu gwrs hyfforddiant dehongli cymeradwy sy'n arwain at statws Cofrestredig. Bydd angen iddynt gael eu goruchwylio neu eu mentora gan Ddehonglydd Iaith Arwyddion Cofrestredig, a bodloni safonau eraill, sydd ar gael ar wefan NRCPD.

**53.** Pan fydd dehonglwyr IAP wedi'u cofrestru gydag NRCPD, mae hyn yn sicrhau: eu bod wedi'u hyfforddi a'u bod wedi cymhwyso'n briodol; bod ganddynt wiriad DBS Manwl; eu bod wedi'u hyswirio, eu bod yn ddarostyngedig i weithdrefn gwyno annibynnol ac yn gweithio'n unol â chod ymddygiad proffesiynol.

**54.** Mae'r data diweddaraf sydd ar gael[41] yn dangos bod 54 o Ddehonglwyr Iaith Arwyddion cofrestredig yng Nghymru. Yn seiliedig ar amcangyfrif Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain fod 4,000 o arwyddwyr IAP Byddar, byddai hyn yn golygu mai dim ond un dehonglydd sydd fesul 74 arwyddwr IAP Byddar. Gan fod tua 1,500 o ddehonglwyr iaith arwyddion cofrestredig yn y DU, mae'r RNID[42] yn amcangyfrifir bod 60 Arwyddwr IAP Byddar ar gyfer pob dehonglydd.

**55.** Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi ceisio mynd i'r afael â phrinder Dehonglwyr IAP. Yn 2004, adolygodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cabinet wasanaethau dehongli IAP yng Nghymru. Argymhellodd y Grŵp[43] y dylai Llywodraeth y Cynulliad ar y pryd gymryd camau i gynyddu nifer y dehonglwyr IAP sydd ar gael yng Nghymru, o 12 i 64. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos, er bod y niferoedd wedi cynyddu, nad ydynt eto wedi cyrraedd y targed hwn.

**56.** Canfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023 fod y galw am ddehongli IAP yn gyson yn fwy na'r cyflenwad a'i fod yn arwain at amseroedd aros annerbyniol ar gyfer dehonglwyr IAP. Canfu'r gwaith ymchwil hefyd achosion lle mae rhai dehonglwyr yn gyndyn o weithio ar gyfweliadau'r heddlu gan nad ydynt yn gyfforddus â lefel y craffu sydd ynghlwm wrth hynny a'r

---

[40] Efallai y bydd eu sgiliau a'u profiad yn gyfyngedig. Mae'r Cofrestrau Cenedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dall Fyddar yn nodi na ddylid defnyddio dehonglwyr iaith arwyddion dan hyfforddiant mewn sefyllfaoedd penodol, fel pan fo gan rywun broblem iechyd meddwl a bod angen dehonglydd arno.
[41] NRCPD, Registration figures (fel ar 15 Mai 2025)
[42] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Facts and statements on inclusion (fel ar 30 Ebrill 2025)
[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion (13 Mehefin 2006)

posibilrwydd y bydd gofyn iddynt fynd i'r llys. Nid oes fawr o ddealltwriaeth ychwaith am anghenion y gymuned Fyddar a phwysigrwydd darpariaeth IAP:[44]

> *Mae dehonglwyr BSL yn cael eu harchebu 6 wythnos o flaen llaw o leiaf. Mae'n un o'n hieithoedd mwyaf heriol. Rwy'n credu bod pobl wir yn anwybodus ynghylch anghenion y gymuned fyddar. Mae'r rhan fwyaf, os nad bron pob un ohonynt, yn credu y bydd defnyddwyr yr iaith yn gallu darllen y wybodaeth yn Saesneg, ond nid yw hynny'n wir. Eu hiaith yw Iaith Arwyddo Prydain, nid Saesneg, ac nid oes ffurf ysgrifenedig ar yr iaith. Rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi tybio hynny hefyd cyn cymryd y swydd hon.*

**57.** Tynnodd yr ymchwil sylw hefyd at bryderon ynghylch gwasanaethau dehongli ar gyfer mudwyr dan orfod. Dywedodd gweithiwr elusennol na allai ddod o hyd i unrhyw gymorth i ffoadur yr oedd angen cymorth arno, a hynny ar ôl cysylltu â phum asiantaeth wahanol.

**58.** Roedd yr anawsterau o ran cael dehonglwyr IAP yn thema gyffredin drwy gydol y gwaith ymgysylltu ar y Bil[45] a'r ymgynghoriad ysgrifenedig, gyda 86% yn dweud y dylid blaenoriaethu'r mater hwn. Roedd y rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymgysylltu ar y Bil yn cytuno bod mynd i'r afael â'r prinder dehonglwyr IAP cymwysedig yn flaenoriaeth, a'i bod yn hollbwysig sicrhau bod modd i bobl ddilyn rhaglenni hyfforddi er mwyn datblygu gweithlu cynaliadwy.

**59.** Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig, nododd Dehonglydd IAP[46] hefyd yr effaith y mae'r prinder yn ei chael ar y proffesiwn yn fwy cyffredinol, ac roedd o'r farn y byddai Deddf IAP i Gymru yn mynd i'r afael â'r prinder:

> *Interpreters have many roles within the Deaf community and I share the daily frustration and barriers the deaf community have. Interpreters are on the brink of burn out so by having a BSL Act we can continue doing what we do best without having to navigate and fight for someone's basic human right.*

[44] Llywodraeth Cymru, Integreiddio mudwyr: ymchwil i wasanaethau cyfieithu ieithoedd tramor (2023)
[45] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)
[46] Dehonglydd IAP/Saesneg, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

## Hygyrchedd dehonglwyr IAP

**60.** Tynnodd Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru[47] sylw at y prinder dehonglwyr IAP sydd ar gael i roi cymorth ar fyr rybudd ac yn ystod digwyddiadau gofal brys. Cyfeiriodd hefyd at gostau cynyddol gwasanaethau dehongli, a all fod yn anodd eu rhagweld yn aml, gan ddweud nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau dehongli a chymorth ieithyddol, a bod y costau'n disgyn ar ysgwyddau sefydliadau unigol. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[48] sylw at arfer gorau o ran darparu IAP[49] a dywedodd, pan fo cyngor neu bartneriaid eraill yn comisiynu IAP, fod angen dau ddehonglydd er mwyn iddynt allu cyfnewid pob 20-30 munud. Dywedodd y gall hynny gynyddu'r costau yn sylweddol.

**61.** Tynnodd Sefydliad Neumark[50] sylw at yr effaith ar arwyddwyr IAP nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth dehongli IAP, a dywedodd eu bod yn aml yn dibynnu ar aelodau o'r teulu i gyfathrebu â gwasanaethau iechyd ac y gall hynny effeithio ar breifatrwydd a chywirdeb gwybodaeth feddygol.

**62.** Wrth ddarparu gwasanaeth dehongli IAP, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio dehonglwyr a chyfieithwyr proffesiynol drwy Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS).[51] Lansiwyd y gwasanaeth yn 2009 (gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru) fel 'siop un stop' i wella mynediad at wasanaethau cyhoeddus i bobl agored i niwed nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a'r rhai a allai fod o dan anfantais oherwydd anabledd. Heddlu Gwent oedd yn cynnal y gwasanaeth, ond trosglwyddwyd y cyfrifoldebau am ei gynnal i Gyngor Caerdydd ym mis Ionawr 2017. Mae WITS yn ei ariannu ei hun ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymwneud ymhellach yn uniongyrchol ag ariannu na rheoli'r gwasanaeth. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, o'r 36,638 o geisiadau am wasanaeth dehongli, roedd 3,151 ar gyfer IAP.

**63.** Mae Aelodau o'r Senedd wedi cyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig sy'n ymwneud â pherfformiad WITS i Lywodraeth Cymru. Yn 2019, pan ofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygiad o WITS ar gyfer pobl Fyddar sy'n

---

[47] Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[48] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[49] Clarion UK, The Legal Best Practice Guide: How many interpreters do I need?
[50] Sefydliad Neumark, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[51] Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)

defnyddio'r GIG, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd:[52]

> *It is for the NHS and other public sector organisations to consider the requirements of their populations when commissioning these services.*

**64.** Ym mis Mai 2024, dywedodd Mark Isherwood AS wrth y Senedd fod rheolwr WITS wedi tynnu sylw'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Byddar (y mae'r Aelod yn gadeirydd arno) at brinder dehonglwyr, yn enwedig ar gyfer gofal brys a gofal heb ei gynllunio, gyda'r rhan fwyaf o geisiadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw, a'r heriau o ran dod o hyd i ddehonglwyr medrus ar fyr rybudd.[53] Cododd yr Aelod y pryderon a ganlyn hefyd:

- nad yw staff yn y gwasanaeth iechyd yn gwybod sut i archebu dehonglwyr;
- bod diffyg cyswllt rhwng staff yn y gwasanaeth iechyd a WITS yn creu ansicrwydd ynghylch argaeledd dehonglwyr;
- bod unigolion byddar yn cael llythyrau apwyntiad heb wybodaeth glir ynghylch a oes dehonglydd wedi'i drefnu, sy'n creu dryswch ac ansicrwydd; a'r
- diffyg ymwybyddiaeth yn y proffesiwn meddygol am anghenion unigolion dall fyddar.

**65.** Roedd y broses o archebu dehonglwyr yn peri dryswch a rhwystredigaeth i gyfranogwyr a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgysylltu.[54] Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod WITS yn ychwanegu cymhlethdod diangen, yn effeithio'n andwyol ar ansawdd gwasanaethau dehongli ac wedi tarfu ar berthnasoedd sefydledig ac wedi cyflwyno heriau biwrocrataidd.

**66.** Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn sôn am ddiffyg dealltwriaeth yn y sector cyhoeddus ynghylch sut i archebu dehonglwyr. Dywedodd Prifysgol Abertawe:[55]

---

[52] Senedd Cymru, Cwestiwn Ysgrifenedig (1 Mai 2019)
[53] Cofnod y Trafodion, paragraffau 151 a 152 (22 Mai 2024)
[54] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)
[55] Prifysgol Abertawe, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)


> *We have much evidence of the many occasions when statutory services simply do not know or have efficient systems to actually book BSL interpreters. So when Deaf people do want to take part and have a voice, they are continually discriminated against and this opportunity is denied to them.*

**67.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig gynllunio sut y byddant yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o IAP. Gallai hyn fod drwy fynd i'r afael â'r prinder dehonglwyr IAP yn gyffredinol, ond gallai hefyd gynnwys sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch pam y mae mor bwysig darparu IAP a sut i gael gwasanaeth dehongli a chyfieithu IAP.

## Mae arwyddwyr IAP yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus

**68.** Fel y dangosir yn y ffigur isod, un mater allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd y rhwystrau sy'n wynebu arwyddwyr IAP Byddar wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth ac yn y gweithle. Roedd y rhwystrau mwyaf i’w gweld ym meysydd iechyd ac addysg.

Ffigur 2: Rhwystrau sy'n wynebu pobl Fyddar




## Mae arwyddwyr IAP yn wynebu rhwystrau wrth gael addysg

**69.** Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall plant sydd â mynediad annigonol at unrhyw fath o iaith brofi amddifadedd iaith. Mae gan hyn ganlyniadau gydol oes difrifol o ran datblygiad ieithyddol, emosiynol a gwybyddol plant Byddar, yn ogystal â'u llesiant. Nodwyd bod addysg yn rhwystr allweddol y mae pobl Fyddar yn ei wynebu, yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn y digwyddiadau ymgysylltu.

**70.** Yn 2024, roedd 2,227 o blant Byddar yng Nghymru. Mae hyn 33 (1%) yn llai na'r 2,260 a gofnodwyd yn 2023.[56] Mae tystiolaeth yn dangos bod gan blant Byddar y potensial i gyflawni ar yr un lefel â'u cyfoedion sy'n clywed os cânt y cymorth cywir i ddilyn y cwricwlwm.[57] Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad addysgol dysgwyr Byddar yn is yn gyffredinol o gymharu â phlant sy'n clywed. Yn 2019, roedd dysgwyr Byddar 10.7% yn llai tebygol o ennill graddau A*-C yn y pynciau craidd (Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) gyda'i gilydd, o gymharu â'u cyfoedion sy'n clywed. At hynny, tua 7% yw'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant Byddar a'u cyfoedion sy'n clywed yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae ystadegau hefyd yn

[56] Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar, Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2023/24 (2024)
[57] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Overcoming barriers: Our strategy for 2017–2022 (2017)

dangos bod 73% o blant B/byddar yn cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen o gymharu â 92% o blant sy'n clywed.[58]

**71.** Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Asesiad Tystiolaeth Cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc ag amhariad ar y clyw.[59] Canfu'r adroddiad y dylai ymyriadau ddechrau'n gynnar er mwyn bod yn effeithiol, yn enwedig o ran datblygiad iaith. Ar hyn o bryd, nid oes rhaglen genedlaethol o ddarpariaeth IAP yn ystod y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant Byddar yn y DU.[60]

**72.** Un thema gref yn ystod y gwaith ymgysylltu[61] oedd yr angen i blant Byddar ddod i gysylltiad ag iaith yn gynnar. Gall oedi o ran caffael iaith olygu bod plant o dan anfantais erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, lle mae gan gyfoedion sy'n clywed yn aml iaith gyntaf ddatblygedig neu hyd yn oed fwy nag un iaith. Er y gall dod i gysylltiad ag IAP yn gynnar helpu i atal amddifadedd iaith, yn rhy aml o lawer nid yw hynny ar gael i blant Byddar yn eu blynyddoedd cynnar.

**73.** Mae llawer o blant Byddar yn cael eu geni i rieni sy'n clywed, ond pwysleisiodd cyfranogwyr yn y digwyddiadau ymgysylltu fod diffyg cymorth strwythuredig i helpu teuluoedd i ddysgu, ac roedd rhai yn cael eu hannog i beidio â defnyddio IAP oherwydd camsyniadau y bydd arwyddo yn arafu datblygiad iaith lafar.

**74.** Canfu adolygiad o addysg IAP i oedolion yn 2020[62] fod y ddarpariaeth yn dameidiog ledled Cymru, a bod argaeledd cyllid a thiwtoriaid sydd â chymwysterau priodol yn dylanwadu'n fwy arni na'r galw. Mae hyn yn cynyddu'r risg na fydd rhieni, gofalwyr neu oedolion sy'n dymuno dysgu IAP i gyfathrebu â phlentyn neu bartner Byddar yn gallu dod o hyd i gwrs am ddim a/neu gwrs ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt.

**75.** Ar hyn o bryd, nid oes ysgol ar gyfer disgyblion Byddar yng Nghymru ac mae plant Byddar yn cael eu haddysg gan mwyaf mewn ysgolion prif ffrwd. Yn

---

[58] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, note on Welsh Government figures on educational attainment data in 2019 (Cymru) (Awst 2019)
[59] Terlektsi, E; Wootten, A; Douglas, G; Ellis, L; Hewett, R; Hodges, L; McLinden, M; Ware, J; Williams, L, (2019). Asesiad Tystiolaeth Cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw
[60] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Position Statement on the Language Acquisition of Deaf Children (2024)
[61] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)
[62] Bowen, R., Holtom, D. (2020) Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i Oedolion yng Nghymru.

2024, nododd y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (Arolwg CRIDE)[63] 19 o ddarpariaethau adnoddau (pob ysgol sydd â darpariaeth, sylfaen neu uned adnoddau, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol). Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, fod un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer pob 117 plentyn Byddar. Yn eu plith mae:

- 9 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran cynradd.
- 10 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran uwchradd.

**76.** Mae hyn yn llai nag yn 2019, pan nododd CRIDE 24 o ddarpariaethau adnoddau.

**77.** Yn ystod sesiynau ymgysylltu'r ymgynghoriad, roedd cyfranogwyr yn teimlo'n gryf fod y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i blant Byddar mewn ysgolion prif ffrwd yn aml yn annigonol. Gan gyfeirio at y diffyg ysgolion Byddar arbenigol yng Nghymru, dywedodd Anabledd Cymru[64] a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr[65] nad oes cymorth arbenigol ar gael i blant Byddar mewn ysgolion prif ffrwd yn aml.

### Y gweithlu addysg

**78.** Yn 2024, roedd o leiaf 64.8 o swyddi Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl), ac o'r rhain roedd 2 CALl (3%) yn wag. Mae Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar cwbl gymwysedig yn dal 97% o'r swyddi hyn.[66]

**79.** Mewn ymateb i ddeiseb i wella mynediad at addysg a gwasanaethau yn IAP, yn 2018[67] cefnogodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd y syniad o gyflwyno cymhwyster IAP safonol gofynnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu sy'n cefnogi plant a phobl ifanc Byddar. Wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu ond dywedodd nad yw'r safonau drafft "yn cynnwys cymwysterau

---

[63] Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar, Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2023/24 (2024)
[64] Anabledd Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[65] Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[66] Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar, Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2023/24 (2024)
[67] Deiseb Senedd Cymru, Gwella mynediad at addysg a gwasanaethau mewn Iaith Arwyddion Prydain (2018)

penodol fel iaith Arwyddion Prydain, gan y byddai gwneud hynny yn anymarferol ac, o bosibl, yn annheg".[68]

**80.** Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad[69] ar blant anabl a mynediad at ofal plant. Clywodd y Pwyllgor fod gostyngiad wedi bod mewn unedau cymorth arbenigol ac yn nifer yr Athrawon Plant Byddar. Clywodd bryderon hefyd ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol gan fod disgwyl i draean yr Athrawon Plant Byddar presennol ymddeol yn y 10 mlynedd nesaf.

**81.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni clir ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar (ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg) er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn pan fydd ei angen arnynt. Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor, gan ddweud bod "awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio eu gweithlu er mwyn sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael".[70] Tynnodd sylw at gyllid ychwanegol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu drwy gydol 2018-21 ar gyfer cymorth hyfforddi i athrawon plant ag amhariad ar y synhwyrau fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Anghenion Ychwanegol.[71]

**82.** Tynnodd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at bryderon am y gweithlu addysg presennol a niferoedd annigonol o Athrawon Plant Byddar. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, tynnodd NASUWT Cymru (yr undeb athrawon)[72] sylw at ganfyddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad oes gan lawer o Athrawon Plant Byddar gymhwyster IAP penodol a bod cynorthwywyr addysgu yn cymryd eu lle dros amser. Wrth gyflawni ei dyletswyddau fel y'u nodir yn y Bil, dywedodd y bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod athrawon sydd wedi'u hyfforddi yn IAP – yn Gymraeg ac yn Saesneg – ar gael ym mhob rhan o'r wlad. Fel y dywedodd Cyngor Ceredigion,[73] gall hefyd fod yn arbennig o heriol cael staff cymorth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

---

[68] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Wella Mynediad at Addysg a Gwasanaethau mewn Iaith Arwyddion Prydain (Tachwedd 2018)
[69] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? (2024)
[70] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? (Medi 2024)
[71] Llywodraeth Cymru, Y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (Hydref 2020)
[72] NASUWT Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[73] Cyngor Sir Ceredigion, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

**83.** Disgrifiodd un unigolyn y rhwystrau a wynebwyd gan ei phlentyn o ran cael dehonglydd yn yr ysgol yng Nghymru, a chymharodd hyn â'r ffaith ei bod wedi cael mwy o gymorth yn Lloegr, lle'r oedd wedi dechrau llwyddo'n academaidd.

**84.** Wrth sôn am yr effaith y gallai Deddf IAP ei chael ar fynediad at addysg yng Nghymru, dywedodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain:[74]

> *Deaf people are able to achieve wonderful things, it is the lack of access to education and opportunities that holds them back. We need a BSL Bill to ensure that access to language is provided for Deaf children from birth, right through schooling, and will enable them to go on to have successful careers.*

### Cyflwyno TGAU IAP yng Nghymru?

**85.** Mae ymgyrchwyr wedi bod yn galw am gymhwyster TGAU IAP ers dros ddegawd. Y gobaith yw y bydd cymhwyster IAP yn helpu i chwalu'r rhwystrau o ran cyfathrebu rhwng pobl fyddar a phobl sy'n clywed ac addysgu mwy o bobl am y gymuned fyddar a'i diwylliant, gan greu cymdeithas fwy hygyrch.[75]

**86.** Roedd Cymwysterau Cymru (y corff annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau yng Nghymru) wedi bwriadu cyflwyno TGAU IAP. Ond ym mis Hydref 2024, cyhoeddwyd eu bod wedi atal y gwaith o ddatblygu TGAU IAP.[76] Gwnaethant ddweud y bydd unedau IAP ar gael yn y cymhwyster Sgiliau Bywyd newydd[77], ac, yn dibynnu ar lwyddiant cyflwyno'r unedau IAP yn y cymhwyster Sgiliau Bywyd a faint o bobl fydd yn manteisio arnynt, y byddant yn ystyried a ddylid ehangu'r cynnig Cymwysterau Cenedlaethol ymhellach dros amser i gynnwys TGAU IAP sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer Cymru.

**87.** Mae Cymwysterau Cymru wedi dweud eu bod am i gymhwyster TGAU fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, ond eu bod o'r farn mai'r ffordd orau o wneud hynny ar hyn o bryd yw caniatáu i'r cymhwyster TGAU sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr gael ei gyflwyno yng Nghymru.

**88.** Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a'r corff dyfarnu Signature, sef y prif gorff dyfarnu ar gyfer cymwysterau iaith a

[74] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[75] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, GCSE in BSL (fel ar 16 Mehefin 2025)
[76] Cymwysterau Cymru, Diweddariad Iaith Arwyddion Prydain (Hydref 2024)
[77] Cymwysterau Cymru, Cymwysterau Cenedlaethol: Cyfres Sgiliau (fel ar 16 Mehefin 2025)

chyfathrebu byddar yn y DU, y bydd ei gymwysterau IAP presennol yn dal i fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.

**89.** Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal â Signature ynghylch:

- ei rôl fel darparwr Arholiadau IAP;
- yr awydd am IAP mewn ysgolion;
- ei waith i ddatblygu gwersi IAP ar-lein am ddim ar gyfer ysgolion cynradd;
- mabwysiadu cymhwyster TGAU IAP Lloegr yn ysgolion Cymru, ond heb amrywiadau ar gyfer Cymru; ac
- ei waith i edrych ar sut y gall defnyddwyr IAP Byddar ennill cymwysterau i addysgu'r TGAU IAP.

**90.** Wrth ymateb i'r penderfyniad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru fod rhanddeiliaid wedi nodi heriau nad aethpwyd i'r afael a hwy eto. Yn eu plith mae diffyg geiriadur IAP ar-lein swyddogol yng Nghymru, a phryder nad oes digon o athrawon i gyflwyno'r cymhwyster TGAU yn llwyddiannus.[78] Disgrifiodd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru y penderfyniad fel un dinistriol, ac mae o'r farn bod y penderfyniad yn gam yn ôl o ran cydraddoldeb a chynhwysiant, ac i gymuned IAP Cymru.[79]

**91.** Tynnodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ysgrifenedig a'r rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymgysylltu sylw at benderfyniad Cymwysterau Cymru i beidio â bwrw ymlaen â chymhwyster TGAU IAP, gan fynegi rhwystredigaeth nad oes gan Gymru gymhwyster TGAU IAP, tra bo Lloegr yn bwrw ymlaen â'i chymhwyster hithau. Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru ei siom â'r penderfyniad, a dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i fynegi pryder ac i ofyn am ragor o wybodaeth am y penderfyniad. Dywedodd fod eu hymatebion wedi rhoi sicrwydd iddi mai cyfyngedig fyddai effaith y penderfyniad ar ddysgwyr Byddar, ond y bydd yn parhau i roi pwysau yn hyn o beth.[80]

[78] Llywodraeth Cymru, Llythyr at Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru a Llofnod ar BSL TGAU (Rhagfyr 2024)
[79] Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru, Llythyr at Weinidogion (Saesneg yn unig)
[80] Comisiynydd Plant Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

**92.** Yn Lloegr, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i gyflwyno cymhwyster TGAU IAP. Bydd y cymhwyster TGAU IAP yn dysgu myfyrwyr i gyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio IAP ac yn rhoi dealltwriaeth o hanes IAP yn y DU. Y nod oedd cymeradwyo meysydd llafur byrddau arholi o fis Medi 2025,[81] ond ym mis Ebrill 2025, lansiodd Ofqual (y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol ar gyfer Lloegr) ail ymgynghoriad[82] ar y rheolau ar gyfer y cymhwyster TGAU IAP newydd, sy'n golygu y bydd y dyddiad cyflwyno wedi'i ohirio. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn amcangyfrif y bydd hi'n ddwy flynedd cyn i'r targed hwn gael ei gyrraedd.[83]

## Mae arwyddwyr IAP yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd

**93.** Mae diffyg systemau cyfathrebu ac opsiynau archebu effeithiol a gwasanaethau dehongli anghyson yn golygu bod pobl Fyddar yn aml yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Gall canlyniadau hynny fod yn ddinistriol i bobl Fyddar a gall arwain at y canlynol:[84]

- Camddiagnosis neu ddiffygion o ran diagnosis a thriniaeth.
- Mwy o risg o ddiffygion o ran diagnosis a thriniaeth o glefydau cronig, sy'n tueddu i arwain at iechyd gwaeth a chanlyniadau iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol.
- Bod ddwywaith yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael.

**94.** Yn 2019, comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymchwil[85] i archwilio ymddygiadau iechyd a rhwystrau a brofir gan bobl Fyddar yng Nghymru. Dywedodd yr adroddiad fod mynediad at wasanaethau iechyd yn broblem fawr a bod pobl Fyddar yn aml yn osgoi cysylltiad â gwasanaethau iechyd oherwydd profiadau gwael yn y gorffennol.

**95.** Mewn ymchwil a gynhaliwyd yn 2024, dywedodd pobl Fyddar fod diffyg hyfforddiant ar ymwybyddiaeth Byddardod i weithwyr iechyd proffesiynol ac nad ydynt yn gwybod sut i gyfathrebu'n effeithiol â phobl fyddar a phobl sy'n drwm eu clyw. Daeth yr ymchwil hefyd i'r casgliad bod angen rhagor o ymchwil i ymwybyddiaeth o Fyddardod ac adnoddau hyfforddi ar gyfer gweithwyr iechyd

[81] Llywodraeth y DU, GCSE British Sign Language (BSL) (Rhagfyr 2023)
[82] Llywodraeth y DU, Rules for GCSE qualifications in British Sign Language (Ebrill 2025)
[83] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, At long last, the BSL GCSE moves closer (Ebrill 2025)
[84] Prifysgol Bangor Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd ar gyfer y Gymuned Fyddar (Awst 2024)
[85] Prifysgol Bangor, Iechyd a Llesiant ar gyfer Cymunedau Byddar yng Nghymru: Cwmpasu ar gyfer Arolwg Cymru Gyfan (2019)

proffesiynol i sicrhau bod profiadau gofal iechyd yn fwy cadarnhaol i bobl fyddar.[86]

**96.** Cymru yw'r unig wlad yn y DU heb wasanaeth iechyd meddwl arbenigol i bobl Fyddar. Canfu adroddiad yn 2021[87] fod pobl Fyddar yn brwydro’n gyson i gael gwasanaethau iechyd meddwl, ac mai cyfyngedig yw’r ddarpariaeth i bobl Fyddar yng Nghymru. Dywedodd fod y rhan fwyaf o gleifion Byddar y mae angen gofal i gleifion mewnol arnynt yn cael eu cyfeirio i Loegr, yn bell iawn oddi wrth eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol, ac ar gost ariannol sylweddol i'r gwasanaeth iechyd. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion[88] ei fod o’r farn bod hyn yn arbennig o annerbyniol o ystyried bod pobl fyddar ddwywaith yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

**97.** Cyfeiriodd nifer o’r ymatebion i'r ymgynghoriad at y rhwystrau y mae arwyddwyr IAP Byddar yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg gwybodaeth ar fformat IAP, diffyg dehonglwyr sydd ar gael i drefnu apwyntiadau, sy’n golygu bod aelodau o’r teulu neu ffrindiau yn gorfod cyfleu gwybodaeth feddygol sensitif a chymhleth, diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am anghenion y gymuned Fyddar a diffyg hyfforddiant. Dywedodd un unigolyn[89] ei fod wedi cael llawdriniaeth fawr yn yr ysbyty ac nad oedd wedi deall dim drwy gydol y broses.

**98.** Cynigiodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain[90] y senario canlynol sy'n wynebu llawer o arwyddwyr IAP Byddar:

> *Deaf people may need an urgent appointment, where no interpreter is available, or arriving at A&E in lots of pain, and they don't know how to use the video relay service technology. Wrong information may be given or how to take medication may be misunderstood. This barrier means that Deaf people suffer as a result. Later diagnoses, mis diagnoses, which in some cases means they are then life limiting. Hearing people*

[86] Terry, J, Meara, R ac England, R. (2024) They still phone even though they know I'm deaf”: exploring experiences of deaf people in health services in Wales, UK
[87] Terry, J., Redfern, P., Bond, J., Fowler-Powe, M., Booth, C, (2021) Pobl Fyddar Cymru: Anghydraddoldeb Cudd y. Grŵp Iechyd Meddwl a Llesiant Byddar Cymru
[88] Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Ymateb i’r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[89] Jonny Cotsen, Ymateb i’r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[90] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Ymateb i’r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

*are able to access so much information about how to look after themselves, and information on health conditions via NHS website etc. As a Deaf BSL user, there is such a lack of accessible information. I was recently asked about information on acid reflux in BSL, of which there is nothing available.*

**99.** Tynnodd sawl ymatebydd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd sylw hefyd at y rhwystrau y mae arwyddwyr IAP Byddar yn eu hwynebu. Roedd Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru,[91] Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[92] ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[93] yn cytuno bod hygyrchedd darpariaeth IAP yn broblem. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod gallu cyfathrebu'n effeithiol yn null cyfathrebu pobl yn hanfodol bwysig ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel unigolyn bob amser, ond nad yw pob gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu darparu ar gyfer defnyddwyr IAP, gan fod yr hyfforddiant ar gyfer hyn yn ddrud iawn ac yn gyfyngedig.

### Safonau GIG Cymru ar gyfer cyfathrebu'n hygyrch a gwybodaeth hygyrch

**100.** Yn 2012, sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor i archwilio'r rhwystrau cyfathrebu a brofir gan bobl â cholled synhwyraidd mewn gofal iechyd. Arweiniodd ei argymhellion at gyhoeddi Safonau GIG Cymru ar gyfer cyfathrebu'n hygyrch a gwybodaeth hygyrch ym mis Tachwedd 2013.[94]

**101.** Mae'r safonau yn nodi'r hyn y dylai pobl â cholled synhwyraidd ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r safonau'n gymwys i oedolion, pobl ifanc a phlant ac maent yn cwmpasu cyfathrebu, y gweithlu a hyfforddiant, safonau gofal iechyd a chwynion. O dan y safonau, mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru lunio cynllun gweithredu sy'n cael ei arwain gan uwch swyddog dynodedig ac sy'n nodi'n glir yr amserlenni a'r camau gweithredu sydd i'w cyflawni. Caiff y safonau eu monitro drwy Fframwaith Cyflawni GIG Cymru. Fodd bynnag, nid oes grym cyfreithiol i'r safonau hyn, sy'n cyfyngu eu cwmpas.

---

[91] Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[92] Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[93] Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[94] GIG Cymru, Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy (Gorffennaf 2013)

**102.** Wrth sôn am y safonau hyn, dadleuodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor[95] eu bod yn canolbwyntio ar gyfathrebu yn hytrach nag ar anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP. Maent yn dweud:

> *The language used in the above standards is also in stark contrast with the Welsh Language Standards (Welsh Government, 2018) and the Scottish Government's BSL National Plan (Scottish Government, 2017), which frame Welsh and BSL, respectively, in terms of patients' "language choice" or "preferred language" rather than in terms of a communication need. The Welsh Government (2012) further state that many people "can only communicate and participate in their care as equal partners effectively through the medium of Welsh" (p. 6) and that health care through the medium of Welsh should be "a core component of care, not an optional extra" (p. 6). No mention of similar rights for BSL-users is made in the Standards for People with Sensory Loss (NHS Wales, 2013).*

**103.** Ar sail ei ymchwil yn 2017, daeth Action on Hearing Loss[96] i'r casgliad bod ffordd bell i fynd cyn i gleifion weld hygyrchedd yn gwella fel yr addawyd iddynt. Yn 2018, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol[97] y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid addasu'r safonau i gwmpasu gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**104.** Roedd nifer o unigolion a sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn bod safonau 2013 yn cael eu gweithredu'n wael, a mynegwyd rhwystredigaeth o ran hynny. Dywedodd yr RNID mai cyfyngedig yw effaith y canllawiau ar bobl sydd â cholled synhwyraidd a defnyddwyr IAP yng Nghymru. Dywedodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain:[98]

> *NHS Healthcare has been subject to Accessible Standards since 2013 but still many Deaf people are attending Doctors, Dentists and Hospitals with no information and communication in BSL. Those standards are being refreshed*

[95] Foltz, A a Shank, C. Deaf Sign-Language Using Patients' Experiences in Health Emergencies in Wales: Perspectives for Improving Interactions (2020)
[96] Action on Hearing Loss, On the record. Good Practice (2017)
[97] Archwilio Cymru, Siaradwch Fy Iaith. Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus (2018)
[98] Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

*but there is little confidence that the situation will improve in the way that is needed.*

**105.** Yn 2023, adolygodd Llywodraeth Cymru effeithiolrwydd y safonau a gwnaeth ragor o waith er mwyn deall y rhwystrau y mae pobl yn dal i'w hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth i Bobl â Cholled Synhwyraidd bellach wedi'u hadnewyddu a'u hehangu a'r enw yw Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru Gyfan. Cafodd y rhain eu hailgyhoeddi ar 22 Medi 2025.[99]

## Sut y mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â pholisïau presennol ac yn eu cefnogi

**106.** Mae'r adran hon yn egluro sut y mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â'r dirwedd ar hyn o bryd o ran deddfwriaeth a pholisi a sut y bydd yn helpu i wella mynediad at ddarpariaeth IAP.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**107.** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[100] yn rhoi fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwella llesiant plant ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymdrin ag ystod eang o feysydd, ac ymhlith ei nodau mae:

- rhoi'r un hawl i ofalwyr i gael asesiad a chymorth â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt;
- gwella asesiadau a chanolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r person;
- rhoi meini prawf cymhwystra cenedlaethol newydd ar waith ar gyfer mynediad at wasanaethau statudol;
- cryfhau trefniadau diogelu i blant ac oedolion; a
- darparu mynediad gwell at wasanaethau eirioli i helpu i roi llais i unigolion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**108.** Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, tynnodd sawl sefydliad ac unigolyn sylw at ddiffyg mynediad at IAP i'r arwyddwyr hynny sy'n defnyddio gwasanaethau gofal

[99] Llywodraeth Cymru, Safonau cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch mewn gofal iechyd (Ebrill 2026)
[100] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

cymdeithasol. Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru[101], er bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn aml yn barod i archebu dehonglwyr IAP, nad yw eu gwybodaeth ynghylch ymgysylltu ag arwyddwyr IAP Byddar a deall eu gwahaniaethau diwylliannol yn gyson ledled Cymru. Er mwyn helpu i greu mwy o gysondeb, roedd Gofal a Thrwsio Cymru[102] o blaid cael gweithiwr cymdeithasol byddar pwrpasol ym mhob awdurdod lleol. Cyfeiriodd un unigolyn[103] at straeon ynghylch arwyddwyr IAP Byddar mewn cartrefi gofal lle nad oes neb arall yn Fyddar a lle na all yr un o'r preswylwyr na'r staff ddefnyddio IAP, gan nodi pa mor ynysig y byddai hyn.

**109.** Er na fydd y Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar ddarparwyr gofal cymdeithasol i ddarparu IAP, bydd amcanion y Ddeddf yn cyd-fynd â'r Ddeddf, a gyda'i gilydd byddant yn helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus rhestredig, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn nodi'r hyn y byddant yn ei wneud i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**110.** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[104] yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i feddwl mewn ffordd fwy cynaliadwy a hirdymor.

**111.** Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y saith nod llesiant a ganlyn[105] wrth wneud penderfyniadau:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;

[101] Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[102] Gofal a Thrwsio Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[103] Unigolyn, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[104] Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[105] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**112.** Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar lawer o gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i ystyried effaith eu polisïau ar genedlaethau'r dyfodol a sicrhau bod y pethau y maen nhw'n eu gwneud yn awr yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant dinasyddion Cymru yn y dyfodol. Fel y dywedodd Llywodraeth Cymru:[106]

> *Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu gadael ar ôl wrth gyflawni nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ar draws holl nodau llesiant Cymru, mae profiad pobl fyddar yn dangos y gellir gwneud mwy, fel y gallant gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, gwneud y mwyaf o'u llesiant corfforol a meddyliol, gan gydnabod y diwylliant byddar unigryw, a'u bod yn cyflawni eu potensial.*

**113.** Wrth ystyried y fframwaith trawsnewidiol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion amlweddog y gymuned Fyddar yng Nghymru, dywed Dr Rob Wilks,[107] academydd cyfreithiol Byddar sy'n arbenigo mewn cyfraith cydraddoldeb, cydnabod iaith arwyddion ac addysg fyddar ddwyieithog, mai dim ond drwy ddull cynhwysfawr a chynhwysol sy'n mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu ag unigolion Byddar a'u cynrychiolwyr wrth lunio a gweithredu polisïau y gellir gwireddu gwir botensial y Ddeddf. Dywed Dr Wilks ynghylch cyflwyno Deddf IAP: "This would institutionalise the promotion and facilitation of BSL, ensuring it is integral to public services and communications, thereby strengthening the seven well-being goals as they pertain to the Welsh deaf community."

**114.** Mae'r Ddeddf IAP yn gyson â saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y maent yn ymwneud ag anghenion hirdymor arwyddwyr IAP Byddar o bob oedran.

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**115.** Nid yw byddardod yn anhawster dysgu ond gall olygu bod gan blant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn bennaf oherwydd ei fod yn anabledd a all eu hatal neu eu rhwystro rhag cael mynediad at addysg neu hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol i eraill, ac felly efallai y bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arnynt.[108] Ond, mae plant Byddar dan anfantais oherwydd

---

[106] Cofnod y Trafodion, paragraff 223 (19 Mehefin 2024)
[107] Wilks, R (2024) Unseen and unheard: how the Future Generations Act is not addressing the needs of the Welsh deaf community
[108] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, adran 2

yr anghydraddoldeb sy'n parhau o ran deilliannau. O ran cael mynediad at addysg, o dan ddarpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, dylid rhoi Cynllun Datblygu Unigol statudol i bob dysgwr ag ADY, yn nodi ei anghenion a'r ymyriadau sydd eu hangen arno. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn 2021,[109] sy'n nodi sut y dylai ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, a sut y mae rhaid iddynt wneud hynny.

**116.** Mae Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar wedi nodi bod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol[110] (ADY) yn dweud bod plant a phobl ifanc Byddar, ynghyd â'r rhai sy'n ddall neu sydd ag amhariad ar eu golwg, yn fwy tebygol o fod ag ADY oherwydd bod yr amhariad yn debygol o'u hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddi a'i bod yn debygol y bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.[111] Felly, mae'r Gymdeithas wedi cynnig y dylai bron pob plentyn Byddar fod yn gymwys fel mater o drefn i gael Cynllun Datblygu Unigol. Fodd bynnag, mae'n nodi mai dim ond chwarter teuluoedd plant Byddar a ddywedodd yn ei harolwg o aelodau a gynhaliwyd yn 2022 fod gan eu plentyn Gynllun Datblygu Unigol, a bod gweithwyr proffesiynol wedi sôn am ddryswch parhaus o ran cymhwystra. Mae pryderon y Gymdeithas ynghylch i ba raddau y mae disgyblion Byddar yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel disgyblion sydd â ADY, ac yn cael Cynllun Datblygu Unigol, hefyd wedi'u cofnodi mewn tystiolaeth a gyflwynwyd ganddi yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar weithredu'r system ADY.[112]

**117.** Mae nifer y plant y nodwyd ac y cydnabyddir yn ffurfiol fod ganddynt ADY wedi gostwng 44% ers dechrau cyflwyno'r system ADY newydd,[113] fel yr amlygwyd yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Gorffennaf 2024.[114] Mae'r duedd gyffredinol hon hefyd i'w gweld yn y newid yn nifer y disgyblion ar y gofrestr ADY sydd ag amhariad ar y clyw. Mae nifer y disgyblion y mae amhariad ar y clyw yn un neu ragor o'u hanghenion sydd wedi arwain at nodi bod ganddynt ADY wedi gostwng o 2,655 yn 2020/21 i 1,415 yn 2023/24 – gostyngiad o 47%.[115]

[109] Llywodraeth Cymru, Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (2021)
[110] Llywodraeth Cymru, Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (2021)
[111] Ceir diffiniad o ADY yn adran 2 o Ddeddf 2018 a pharagraffau 2.5 i 2.15 o'r Cod ADY
[112] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg (Saesneg yn unig)
[113] Ymchwil y Senedd, Gweithredu diwygiadau addysg: Pigion (Hydref 2024)
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg (Mai 2022)
[115] StatsCymru, Adroddiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl math o angen a math o ddarpariaeth (fel ar 2 Gorffennaf)

## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**118.** Sefydlwyd y Cwricwlwm i Gymru newydd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021,[116] ac mae'n disodli'r cwricwlwm cenedlaethol a oedd wedi bod ar waith ers diwedd y 1980au. Cafodd ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 ac i flynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023. Mae'n cael ei estyn ar draws grwpiau blwyddyn hŷn mewn ysgolion uwchradd flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd nes iddo gyrraedd blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

**119.** Mae Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnydd ac asesu ar gyfer plant rhwng 3 ac 16 oed. Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru newydd yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**120.** Rhaid i benaethiaid sicrhau bod eu cwricwlwm wedi'i gynllunio i ddysgu ac addysgu pob dysgwr cofrestredig a rhaid iddo (ymhlith pethau eraill):

- alluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
- bod yn addas i ddysgwyr o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol;
- bod yn eang ac yn gytbwys; a
- gwneud darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu pob un o'r Meysydd, gan gynnwys yr elfennau mandadol. Nid yw cwricwlwm ond yn gwneud hyn os yw'n ymgorffori’r holl ddatganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig.

**121.** Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU i gynnwys IAP ochr yn ochr â’r Saesneg ac ieithoedd eraill yn y cwricwlwm ac mae'n rhan swyddogol o'r Cwricwlwm yng Nghymru. Yn ogystal â darpariaeth ar gyfer arwyddwyr IAP Byddar, gall fod yn

[116] Llywodraeth Cymru (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru

rhan o gwricwlwm yr ysgol ar gyfer pob plentyn, fel Ffrangeg neu Almaeneg. Mae IAP wedi'i integreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n cael ei haddysgu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae hyn yn caniatáu i ddysgwyr Byddar a thrwm eu clyw ddatblygu IAP fel iaith gyntaf neu ail iaith, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sy'n clywed ddysgu IAP fel trydedd iaith neu iaith ddilynol.

**122.** Datblygwyd canllawiau IAP y Cwricwlwm i Gymru gydag ymarferwyr ac arbenigwyr eraill ar IAP, gan gynnwys aelodau o'r gymuned Fyddar. Mae'n cynnwys canllawiau ar gefnogi cynnydd yn IAP ar gyfer arwyddwyr IAP Byddar, ac yn rhoi cyfle i ysgolion gyflwyno IAP i ddysgwyr eraill.[117]

**123.** Drwy'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf IAP, rhagwelir y bydd hyn yn cyd-fynd â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru newydd drwy bwysleisio'r angen i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

## Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol

**124.** O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol bob pedair blynedd (o 1 Ebrill 2012). Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru saith Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol.[118] Mae'r adran a ganlyn yn amlinellu sut y mae'r Ddeddf yn cyd-fynd â chyflawni 6 o'r 7 amcan:[119]

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1: Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi. Ar hyn o bryd, mae pobl Fyddar yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd cyflogaeth i bobl Fyddar a'r rhai sydd ag amhariadau ar y clyw a bod incwm y cartref yn is nag i bobl â chlyw arferol. Mae hefyd yn golygu eu bod wedi'u gorgynrychioli mewn galwedigaethau statws is, sydd â chyflog is. Yn y DU, dim ond 37% o'r rhai sy'n dweud mai IAP yw eu prif iaith sy'n gweithio, o gymharu â 77% o bobl nad ydynt yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.[120] Drwy hybu a hwyluso IAP, bydd llai o

[117] Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru: Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb (Mawrth 2022)
[118] Llywodraeth Cymru, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-28 (Mawrth 2024)
[119] Mae Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7 yn ymwneud â newid hinsawdd ac nid ystyrir ei fod mor berthnasol i'r Bil IAP â'r 6 amcan cyntaf.
[120] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Facts and statements on employment (Rhagfyr 2024)

arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at addysg, a fydd yn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac yn arwain at lai o dlodi.

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus. Mae nod y Ddeddf, sef hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, yn cyd-fynd â'r amcan hwn. Bydd darpariaethau yn y Ddeddf, gan gynnwys datblygu cynlluniau IAP, yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Bydd penodi cynghorydd IAP a phanel cynghori IAP yn eiriol dros newid diwylliannol, ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol, a bydd hynny'n creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio IAP.

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt. Mae diffyg IAP yn creu rhwystrau i arwyddwyr IAP Byddar pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau. Drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig, bydd y Ddeddf yn sicrhau eu bod yn ystyried sut i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd cynyddu'r defnydd o IAP yn arwain at well ymwybyddiaeth a mynediad at wasanaethau i arwyddwyr IAP Byddar.

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4: Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb. Ar hyn o bryd, mae diffyg mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf – IAP – i arwyddwyr IAP Byddar. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig yn mynd i'r afael â'r diffyg mynediad hwn fel bod llai o arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu gwahaniaethu wrth ddefnyddio gwasanaethau a chymorth. Bydd y cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo IAP mewn sefyllfa i eiriol dros arwyddwyr IAP Byddar, gan amlygu'r gwahaniaethu y mae arwyddwyr IAP Byddar yn ei wynebu pan nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau oherwydd absenoldeb neu ddiffyg cymorth ieithyddol.

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain. Bydd penodi cynghorydd IAP a

phanel cynghori IAP, fel y nodir yn y Ddeddf, yn creu mwy o gyfleoedd i arwyddwyr IAP gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau IAP a dwyn Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig i gyfrif os nad ydynt yn gweithredu eu cynlluniau.

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6: Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus rhestredig yn ystyried sut i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd hyn yn cynnwys cyflogi arwyddwyr IAP yn ogystal â darpariaeth gwasanaethau.

## Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru

### Y Model Cymdeithasol o Anabledd

**125.** Yn hanesyddol, mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau wedi ystyried pobl anabl yng ngoleuni model meddygol, sy’n barnu mai amhariad rhywun yw’r hyn sy’n ei wneud yn anabl. Y nod yw ‘trwsio’ person anabl fel ei fod yn ffitio’n well mewn cymdeithas, yn hytrach nag addasu’r gymdeithas i ddarparu ar gyfer pobl ag amhariadau. Cafodd y model cymdeithasol o anabledd[121] ei ddatblygu gan y mudiad hawliau anabledd ac mae'n nodi gwahaniaeth pwysig rhwng ‘amhariad’ ac ‘anabledd’.

**126.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wreiddio’r model cymdeithasol o anabledd[122] a dileu'r rhwystrau sy’n cyfyngu ar annibyniaeth pobl anabl.

**127.** Mae defnyddio dull sy’n seiliedig ar fodel cymdeithasol yn golygu edrych ar y rhwystrau ar draws cymdeithas. Gall y rhwystrau hyn gynnwys rhwystrau ffisegol a sefydliadol ac agweddau negyddol sy’n gweithredu fel rhwystr i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynnwys a’u bod yn gallu cymryd rhan yn eu bywydau pob dydd a thrwy gydol eu bywydau.

[121] Anabledd Cymru, Y Model Cymdeithasol o Anabledd (fel ar 2 Mehefin 2025)
[122] Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn addo ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, “Rydyn ni wedi ymrwymo i wreiddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd a gwared yr holl rwystrau i annibyniaeth pobl anabl” (Rhagfyr 2022)

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl

**128.** Daeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl[123] i rym yn 2008 a chafodd ei gymeradwyo gan y DU yn 2009. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn ailddatgan y dylai pobl anabl allu mwynhau eu hawliau dynol ar sail gyfartal â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'n cydnabod bod pobl anabl, yn ymarferol, yn parhau i wynebu rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyflogaeth ac ati, ac yn nodi'r mesurau y disgwylir i lywodraethau eu cymryd i gael gwared ar y rhwystrau hyn ac yn sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu parchu. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn cwmpasu hawliau mewn meysydd fel iechyd, addysg, cyflogaeth, mynediad at gyfiawnder, diogelwch personol, byw'n annibynnol a mynediad at wybodaeth.

**129.** Mae darpariaethau'r Ddeddf yn adlewyrchu'r rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, yn enwedig mewn perthynas ag Erthygl 21 (cydnabod a hybu'r defnydd o iaith arwyddion) ac Erthygl 30 (cydnabod hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol pobl Fyddar).

**130.** Yn ei Rhaglen Lywodraethu[124] yn 2021, nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio sut i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni Erthyglau 21 a 30.

## Y Cynllun Hawliau Pobl Anabl

**131.** Yn 2020, yn sgil pryderon am effaith y pandemig ar bobl anabl, sefydlodd Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru ymchwiliad. Cafodd ei adroddiad, Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021.[125] Mae argymhellion yr

---

[123] Y Cenhedloedd Unedig, Convention on the Rights of Persons with Disabilities. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y confensiwn fel y 'Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl' neu UNCRDP yn hytrach na 'Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau', sef ei enw mewn gwirionedd. Mae hyn yn adlewyrchu ei hymrwymiad i'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ystyried mai rhwystrau yn y gymdeithas sy'n gyfrifol am anabledd, nid amhariad neu gyflwr iechyd yr unigolyn. Mae'n canolbwyntio ar gael gwared ar y rhwystrau hyn i sicrhau y gall pobl gymryd rhan lawn yn y gymdeithas. Felly rydym yn cyfeirio at y Confensiwn fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

[124] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu (Rhagfyr 2021)

[125] Llywodraeth Cymru, Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 (Gorffennaf 2021)

ymchwiliad yn eang, ac yn cynnwys galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei hymrwymiad i'r Model Cymdeithasol o Anabledd, yr angen i bobl anabl gael mwy o ran wrth wneud penderfyniadau, ac ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng Nghyfraith Cymru.

**132.** Sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Hawliau Pobl Anabl[126] i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad ac i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer Cynllun Gweithredu ar Hawliau Pobl Anabl newydd.

**133.** Gwahoddwyd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain i gynnal archwiliad o ddarpariaeth IAP gan Lywodraeth Cymru yn erbyn fformat y Siarter IAP.[127] Mae gan y Siarter bum addewid:

- Ymgynghori'n ffurfiol ac yn anffurfiol â'r gymuned Fyddar leol yn rheolaidd.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau i bobl Fyddar.
- Cefnogi plant a theuluoedd Byddar.
- Sicrhau bod staff sy'n gweithio gyda phobl Fyddar yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Hybu dysgu ac addysgu Iaith Arwyddion Prydain o ansawdd uchel.

**134.** Cyhoeddwyd adroddiad Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn 2022[128] ac mae'n argymell y canlynol:

- Deddf IAP yng Nghymru sy'n rhoi dinasyddiaeth lawn i gymunedau iaith arwyddion a phobl Fyddar mewn cyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol;
- Ailstrwythuro addysg Byddar gyda chynllun IAP cenedlaethol;
- Sicrhau y gall pobl sy'n clywed a theuluoedd plant Byddar ddysgu IAP;
- Rhoi dehongli Saesneg/IAP ar sail statudol;
- Sefydlu gweithgor IAP;

[126] Llywodraeth Cymru, Tasglu Hawliau Pobl Anabl (Ionawr 2023)
[127] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Charter for British Sign Language (2017)
[128] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Audit of the Welsh Government (2022)

- Casglu ystadegau sy’n ymwneud â sefyllfa gymdeithasol-economaidd defnyddwyr IAP;
- Creu grŵp Facebook i gasglu tystiolaeth gan y gymuned Fyddar.

**135.** Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, yn enwedig ei Weithgor Mynediad at Wasanaethau, yn ystyried y canfyddiadau.[129]

**136.** Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Hawliau Pobl Anabl drafft.[130] Mae’r cynllun yn cydnabod yr heriau sy’n wynebu arwyddwyr IAP ac yn nodi ymrwymiad i “hybu defnyddio’r iaith yng Nghymru, a gwybodaeth am yr iaith ac arbenigedd ynddi”. Mae’r cynllun yn ategu pwrpas y Ddeddf sef hybu a hwyluso’r defnydd o IAP. Mae’n nodi:

> *Ein bwriad yw dylunio a datblygu polisïau sy’n sicrhau’r effaith gadarnhaol fwyaf i gymuned arwyddion Iaith Arwyddion Prydain Cymru, gan wneud darpariaethau i hybu a hwyluso defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a’i ffurfiau cyffyrddol a chael gwared â’r rhwystrau iaith presennol.*

### Grŵp Rhanddeiliaid IAP

**137.** Yn dilyn y ddadl yn y Senedd ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig, ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP[131] i lywio’r gwaith o ddatblygu ‘map llwybrau’ polisi Iaith Arwyddion Prydain. Bydd hyn yn nodi’r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau mynediad a chanlyniadau cyfartal, cydnabyddiaeth a hybu IAP, hawliau iaith cyfartal, a grymuso arweinyddiaeth pobl Fyddar yng Nghymru. Bydd y grŵp yn cynghori ar flaenoriaethau IAP ar draws ystod o bolisïau trawslywodraethol, gan gynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus, a bydd yn ystyried ble mae rhwystrau iaith, a’r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth a gwasanaethau i arwyddwyr IAP Byddar.

[129] Llywodraeth Cymru, Archwiliad Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (Chwefror 2023)
[130] Llywodraeth Cymru, Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft: 2025 i 2035 (Mai 2025)
[131] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Iaith Arwyddion Prydain – Diweddariad Polisi (Tachwedd 2024)

## Beth sy’n digwydd mewn mannau eraill yn y DU?

**138.** Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer IAP yng Nghymru yn dilyn datblygiadau mewn mannau eraill yn y DU ac yn sicrhau cydraddoldeb i arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru. Wrth ddatblygu’r Ddeddf hon, ystyriwyd y datblygiadau polisi diweddar a ganlyn mewn mannau eraill.

**139.** Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â hybu a defnyddio IAP wedi'i gweithredu yn Senedd yr Alban a Senedd y DU. Ar adeg ysgrifennu’r Memorandwm hwn, mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ystyried Bil Iaith Arwyddion.[132]

**140.** Pe na bai’r Ddeddf wedi’i phasio, Cymru fyddai’r unig ran o’r DU lle na fyddai gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd, addysg a gwasanaethau awdurdodau lleol yn dod o dan ddeddfwriaeth IAP benodol.

### Deddfwriaeth Senedd yr Alban

**141.** Nod Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015[133] yw hybu’r defnydd a’r ddealltwriaeth o IAP yn bennaf drwy lunio ac adolygu cynlluniau IAP gan Weinidogion yr Alban ac awdurdodau rhestredig.

**142.** Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban lunio a chyflwyno ‘Cynlluniau Cenedlaethol’ gerbron Senedd yr Alban, bob chwe blynedd. Roedd y Cynllun Cenedlaethol cyntaf ar gyfer 2017-2023[134] yn cynnwys 70 o gamau gweithredu, yn amrywio ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, addysg, gwaith a nawdd cymdeithasol, iechyd, trafnidiaeth, diwylliant a'r celfyddydau, a chyfranogiad democrataidd. Roedd yr ail Gynllun Cenedlaethol[135] ar gyfer cyfnod 2023 i 2029 yn cynnwys 45 o gamau gweithredu, wedi'u llywio gan ddefnyddwyr IAP, ar draws deg maes blaenoriaeth, gyda phwyslais ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, iechyd a lles, dathlu diwylliant Byddar a mynd i'r afael â hygyrchedd i arwyddwyr IAP mewn meysydd fel trafnidiaeth, cyfranogiad democrataidd a mynediad at gyfiawnder.

**143.** Mae’r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban lunio a chyhoeddi adolygiad perfformiad. Roedd yr adolygiad perfformiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2021,[136] yn nodi, er bod nifer o'r camau gweithredu wedi'u

[132] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Bil Iaith Arwyddion
[133] Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015
[134] Llywodraeth yr Alban, Scottish Government British Sign Language (BSL) National Plan 2017-2023
[135] Llywodraeth yr Alban, British Sign Language (BSL): national plan 2023 to 2029
[136] Llywodraeth yr Alban, British Sign Language - national plan: progress report (Hydref 2021)

cwblhau, roedd llawer ohonynt yn gwbl neu'n rhannol anghyflawn, yn rhannol oherwydd pandemig Covid-19. Mae disgwyl i'r adroddiad cynnydd nesaf gael ei gyhoeddi yn 2026.

**144.** Ar adeg ysgrifennu'r Memorandwm hwn, mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Sifil Senedd yr Alban wrthi'n ystyried effaith y Ddeddf ddeng mlynedd ers cael ei chyflwyno.[137]

## Deddfwriaeth Senedd y DU

**145.** Dechreuodd Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022[138] fel Bil Aelod Preifat[139] a chafodd ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin gan Rosie Cooper AS. Cafodd y Bil Iaith Arwyddion Prydain ei gefnogi gan Lywodraeth y DU, gan ennill cefnogaeth drawsbleidiol.

**146.** Amcanion polisi datganedig y Ddeddf yw hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain. Ei nod yw gwella hygyrchedd, cydraddoldeb a chynrychiolaeth i ddefnyddwyr IAP Byddar ledled y DU, gan helpu i chwalu rhwystrau mewn gwasanaethau cyhoeddus a bywyd pob dydd.

**147.** Mae adran 1 yn darparu bod Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei chydnabod yn un o ieithoedd Cymru, Lloegr a'r Alban.

**148.** Roedd adran 2 o'r Ddeddf yn creu dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i lunio a chyhoeddi adroddiad Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer pob cyfnod adrodd. Er bod Deddf IAP yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad gael ei gyhoeddi bob tair blynedd, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol y DU i gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn am y pum mlynedd gyntaf.

**149.** Roedd yr adroddiad IAP cyntaf[140] (Gorffennaf 2023) yn nodi bod angen gwaith pellach i sicrhau bod adrannau a sefydliadau'r llywodraeth yn gwella profiad pobl Fyddar pan fyddant yn rhyngweithio â'r llywodraeth. Roedd yr ail adroddiad IAP[141] (Rhagfyr 2024)[142] yn dangos cynnydd sylweddol yn y defnydd o IAP gan adrannau'r llywodraeth, gan ddyblu o 76 i 176, gyda 6 adran arall yn adrodd am weithgarwch IAP.

---

[137] Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Sifil Senedd yr Alban, British Sign Language (Scotland) Act 2015 Inquiry (fel ar 22 Mai 2025)
[138] Senedd y DU, Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[139] Bil Aelod Preifat (Bil Balot) Senedd y DU, Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[140] Llywodraeth y DU, The British Sign Language (BSL) report 2022 (2023)
[141] Llywodraeth y DU, The British Sign Language (BSL) report, 2023 to 2024 (Rhagfyr 2024)
[142] Roedd oedi o ran cyhoeddi'r adroddiad oherwydd yr etholiad cyffredinol.

**150.** Mae adran 3 o'r Ddeddf (nad yw wedi dod i rym ar adeg ysgrifennu'r Memorandwm hwn) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau, neu drefnu i ganllawiau gael eu dyroddi, ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain.

**151.** Er bod y Ddeddf yn cael ei chroesawu, mynegodd rhai ymgyrchwyr dros y Byddar bryderon nad oedd yn mynd yn ddigon pell gan gwestiynu'r gwahaniaeth y byddai'n ei wneud o ystyried diffyg unrhyw hawliau newydd i Bobl Fyddar.[143]

## Effaith Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 ar Gymru

**152.** Mae Deddf y DU yn eithrio'n benodol adrodd ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru (a'r Alban). Felly, dim ond adrannau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am faterion a gedwir yn ôl y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, ac adrannau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am faterion yn Lloegr yn unig. Fel y nodir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru:[144]

> *Bydd y darpariaethau yn y Bil o fudd i bobl Cymru drwy hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain gan adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n arfer eu swyddogaethau a gadwyd yn ôl yng Nghymru. Mae'r Bil yn rhoi effaith gyfreithiol i Iaith Arwyddion Prydain fel iaith yng Nghymru drwy osod dyletswyddau a rhwymedigaethau ar awdurdodau a gadwyd yn ôl ac ni fyddai dim i atal y Senedd rhag deddfu mewn ffordd debyg i osod dyletswyddau a rhwymedigaethau tebyg ar Awdurdodau datganoledig Cymru.*

**153.** Ar hyn o bryd, gallai arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru ddod i gysylltiad ag adrannau Llywodraeth y DU sydd â dyletswyddau o dan Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain ac adrannau Llywodraeth Cymru nad oes ganddynt ddyletswyddau. Dywed y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Fyddar:[145]

> *Currently, BSL users in Wales are at risk; their government has significantly weaker or minimal statutory responsibilities to the*

---

[143] Disability News Service, "Fresh concerns over BSL bill despite huge London rally" (2022)
[144] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Mawrth 2022)
[145] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Fyddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

*deaf community compared to other UK nations. Further protections exist through the British Sign Language (Scotland) Act 2015, the Westminster British Sign Language Act 2022 and a Sign Language Bill is currently being put forward in the Northen Ireland Assembly with Government support.*

## Gogledd Iwerddon

**154.** Yn unigryw o fewn y DU, mae gan Ogledd Iwerddon ddwy iaith arwyddion – Iaith Arwyddion Prydain (IAP) ac Iaith Arwyddion Iwerddon. Mae Iaith Arwyddion Iwerddon yn perthyn yn agosach i Iaith Arwyddion Ffrainc nag Iaith Arwyddion Prydain, er bod dylanwad y ddwy iaith arni. Nid oedd Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 yn cynnwys Gogledd Iwerddon gan nad oedd Iaith Arwyddion Iwerddon o fewn cwmpas deddfwriaeth Prydain Fawr.

**155.** Cyflwynwyd Bil Iaith Arwyddion[146] i'r Cynulliad ar 10 Chwefror 2025. Ar adeg ysgrifennu'r Memorandwm hwn, roedd y Cyfnod Pwyllgor wedi dechrau ac wedi'i estyn[147] hyd at fis Chwefror 2026 i ganiatáu amser ar gyfer dehongli Iaith Arwyddion a chyfieithu'r trafodion.

[146] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Bil Iaith Arwyddion (Chwefror 2025)
[147] Cynulliad Gogledd Iwerddon, Committee for Communities - Primary Legislation (fel ar 22 Mai 2025)

Tabl 1: Cymharu Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) â Deddfau IAP y DU

| Darpariaethau Allweddol | Cymru | Lloegr | Yr Alban |
|---|---|---|---|
| Strategaeth IAP Genedlaethol - wedi'i pharatoi gan y llywodraeth | Oes | Nac oes | Oes |
| Canllawiau IAP – gweinidogion y llywodraeth i ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus rhestredig | Oes | Oes - ond ddim mewn grym hyd yn hyn. | Nac oes – ond rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion yr Alban. |
| Cynlluniau IAP – rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig lunio cynllun ar sut y mae'n bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. | Oes | Na | Oes |
| Adroddiad cynnydd/adolygiad perfformiad – dyletswydd ar y Llywodraeth | Oes | Oes | Oes |
| Adroddiad cynnydd/adolygiad perfformiad – dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig | Oes | Nac oes | Nac oes – ond bydd y llywodraeth yn ystyried cynlluniau'r cyrff rhestredig wrth gyhoeddi ei hadroddiad. |
| Penodi cynghorydd IAP | Oes | Nac oes | Nac oes |
| Penodi panel cynorthwyo | Oes | Oes – ond nid gofyniad statudol. | Oes – ond nid gofyniad statudol. |

## Crynodeb o’r bennod

**156.** Mae’r bennod hon wedi rhoi trosolwg o amcanion polisi’r Ddeddf, wedi nodi pam mae angen y Ddeddf ac wedi gosod y Bil yng nghyd-destun deddfwriaeth a datblygiadau perthnasol eraill mewn mannau eraill yn y DU.

**157.** IAP yw iaith gyntaf llawer o bobl Fyddar. Fel unrhyw iaith arall, mae IAP yn caniatáu i bobl Fyddar fynegi eu hunain, ymgysylltu ag eraill a chael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau sy’n eu cefnogi. Mae IAP yn gweithredu fel cysylltydd rhwng unigolion Byddar a’r rhai sy'n clywed, gan hwyluso cyfathrebu a chwalu rhwystrau. Mae ymgorffori IAP yn ein bywyd beunyddiol yn hybu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad diwylliannol, gan gyfoethogi cysylltiadau rhyngbersonol a hybu empathi a dealltwriaeth ar draws cymunedau amrywiol.

**158.** Fodd bynnag, ni ellir gwarantu mynediad at IAP ar hyn o bryd. Mae diffyg gwasanaethau dehongli IAP yn golygu bod pobl Fyddar yn aml yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith gyntaf. Gall hyn gael effaith sylweddol ar bob agwedd ar eu bywydau, ar eu hiechyd, eu haddysg a'u canlyniadau cyflogaeth.

**159.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod IAP fel iaith dros 20 mlynedd yn ôl ac ers hynny mae wedi parhau i wneud ymrwymiadau i sicrhau bod y gymuned Fyddar wedi'i chynnwys a'i grymuso'n llawn ym mhob agwedd ar gymdeithas Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn adeiladu ar yr ymrwymiadau hynny, drwy sicrhau bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff cyhoeddus rhestredig sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf, yn ystyried yn weithredol anghenion arwyddwyr IAP Byddar wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

**160.** Bydd y Ddeddf yn sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â Senedd y DU a Senedd yr Alban. Mae seneddau eraill y DU wedi gosod cynseiliau ar gyfer gosod dyletswyddau ar y llywodraeth a chyrff rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Heb y Ddeddf hon, bydd gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau statudol llawer gwannach, gan roi arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu ag arwyddwyr IAP Byddar mewn gwledydd eraill y DU.

# 4. Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei wneud a pham

**161.** Roedd Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu pam y mae angen y Ddeddf a manteision y Bil hwnnw. Mae'r bennod hon o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio darpariaethau'r Ddeddf a'r hyn y maent yn ei wneud yn ymarferol.

**162.** Iaith Arwyddion Prydain (IAP) yw iaith gyntaf neu ddewis iaith y gymuned arwyddo IAP fyddar yn y DU. Yn debyg i'r Gymraeg a'r Saesneg, mae gan IAP ei gramadeg, ei geirfa a'i strwythur ieithyddol ei hun. Mae'n cynnwys ffurf weledol ar IAP a ffurf gyffyrddol a ddefnyddir gan rai pobl ddallfyddar. Prif nod y Ddeddf yw hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud hynny drwy osod dyletswyddau amrywiol newydd ar Weinidogion Cymru ac ar gyrff cyhoeddus penodol.

**163.** Mae darpariaethau allweddol y Ddeddf yn cynnwys gofynion ar gyfer:

- Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio'r ffordd y maent hwy eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a'r ffordd y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud hynny;
- Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- y cyrff cyhoeddus penodol rhestredig yn y Ddeddf i lunio cynlluniau IAP sy'n disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o dan ddarpariaethau'r Ddeddf;
- Gweinidogion Cymru i benodi rhywun yn gynghorydd IAP iddynt, ynghyd â phanel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd IAP.

### Cyflwyniad i'r Ddeddf

**164.** Mae adran 1 o'r Ddeddf yn darparu diffiniad o ystyr y cyfeiriadau at IAP at ddibenion darpariaethau'r Ddeddf. Mae'r diffiniad hwnnw yn nodi bod cyfeiriadau at "IAP" yn gyfeiriadau at:

a. ffurf weledol Iaith Arwyddion Prydain, a

b. ffurf gyffyrddol Iaith Arwyddion Prydain a ddefnyddir ac a ddeellir gan rai pobl ddallfyddar.

**165.** Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y cyfeiriadau yn gyfeiriadau at ffurf weledol IAP yn unig mewn perthynas ag adrannau penodol y Ddeddf (adrannau 3(4)(b), 4(3)(b), 5(8), 7(2) ac 8(3)(c), a pharagraff 1 o'r Atodlen).

**166.** Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi allbynnau penodol a sicrhau eu bod ar gaeldrwy ffurf weledol IAP a gellir gwneud hyn drwy gyhoeddi'r fersiwn IAP weledol ochr yn ochr â'r fersiwn ysgrifenedig. Ni ellir cyhoeddi unrhyw ffurf gyffyrddol IAP ar yr allbynnau hynny, ac ni ellir sicrhau eu bod ar gael yn yr un modd chwaith, a dim ond ar sail untro y gellir eu darparu i unigolyn o ystyried natur IAP gyffyrddol. Mae'r diffiniad yn adran 1 wedi'i eirio yn unol â hynny.

### Gosod Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i Hybu a Hwyluso'r defnydd o IAP

**167.** Mae adran 2 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Dyma'r adran fwyaf cyffredinol o'r Ddeddf, ac yn ei ffurf symlaf, mae'n gosod gofyniad cyfreithiol newydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod IAP yn cael ei hybu, a bod ei defnydd yn cael ei hwyluso, yng Nghymru.

**168.** Mae'r Ddeddf yn gwneud hynny drwy osod dyletswyddau amrywiol newydd ar Weinidogion Cymru (a hefyd ar gyrff cyhoeddus penodol). Mae manylion penodol y dyletswyddau newydd hynny wedi'u nodi yn adrannau dilynol y Ddeddf ac fe'u hesbonnir yn y paragraffau sy'n dilyn.

### Cyhoeddi Strategaeth IAP Genedlaethol

**169.** Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 2, mae adran 3 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol. Mae'r strategaeth honno'n gwneud pedwar prif beth:

- Yn gyntaf, rhaid i'r strategaeth IAP ddisgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau.
- Yn ail, rhaid i'r strategaeth IAP ddisgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau. Mae adran 9 o'r Ddeddf

yn rhestru'r cyrff cyhoeddus hynny (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "cyrff cyhoeddus rhestredig").

- Yn drydydd, rhaid i'r strategaeth IAP gynnwys targedau i gynyddu neu gynnal:
  - nifer y cyfieithwyr a'r dehonglwyr IAP sydd ar gael at ddiben arfer y swyddogaethau a nodir yn y strategaeth; a
  - nifer y personau sydd ar gael at ddiben addysgu ac asesu'r cyfieithwyr a'r dehonglwyr IAP hynny.
- Yn olaf, rhaid i'r strategaeth IAP nodi pa wybodaeth am y defnydd o IAP yng Nghymru sydd wedi dod i law ac wedi'i hystyried at ddiben llunio'r strategaeth.

**170.** Fel y nodir yn y Bennod flaenorol o'r Memorandwm Esboniadol hwn, mae anawsterau sylweddol i bobl Fyddar o ran cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Mae ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau cyhoeddus pwysig hyn, a mwy, yn gam pwysig i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn hygyrch i'r gymuned Fyddar.

**171.** Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth IAP genedlaethol gyntaf o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y mae'r Ddeddf yn dod i rym. Rhaid adolygu'r strategaeth IAP hefyd o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o chwe blynedd o'r dyddiad y cafodd ei chyhoeddi gyntaf, er y gellir ei hadolygu ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod hwnnw. Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn unrhyw adolygiad, yn dymuno diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt hefyd gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ohoni.

**172.** Rhaid cyflwyno'r strategaeth (gan gynnwys unrhyw fersiynau diwygiedig ohoni) gerbron Senedd Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd, a'i chynnwys yn nogfennau ffurfiol y Senedd. Gall Gweinidogion Cymru, wrth gwrs, gyhoeddi'r strategaeth mewn unrhyw le arall y maent yn teimlo sy'n briodol. Bydd hefyd yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru sicrhau bod y strategaeth IAP, ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohoni, ar gael yn IAP.

**173.** Nid yw manylion y strategaeth wedi'u nodi ar wyneb y Ddeddf, yn hytrach Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar gynnwys y strategaeth honno. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol gwneud hyn drwy ymgysylltu â'r gymuned

Fyddar wrth lunio'r strategaeth, ac yn ystod y broses. Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaeth yn ystyrlon ac yn addas at y diben.

**174.** Mesur diogelwch pwysig arall sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf yw, cyn cyhoeddi'r strategaeth IAP ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohoni, fod rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgysylltu â'r cynghorydd IAP. Bydd y cynghorydd IAP hwnnw'n cael ei sefydlu o dan ddarpariaethau'r Ddeddf – mae rhagor o fanylion am y cynghorydd wedi'u cynnwys isod.

### Canllawiau IAP Gweinidogion Cymru

**175.** Ochr yn ochr â'r strategaeth IAP a lunnir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, mae adran 4 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus rhestredig ar sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau. Fel yn achos y strategaeth IAP, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar fanylion y canllawiau.

**176.** Rhaid cyhoeddi'r canllawiau IAP heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth IAP. Fel sy'n wir am y strategaeth IAP, cyn dyroddi'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r cynghorydd IAP, unrhyw gynrychiolwyr arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**177.** Mae'r Ddeddf unwaith eto yn ei gwneud yn ofyniad statudol i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau IAP ar gael yn IAP.

### Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig

**178.** Yn dilyn y strategaeth IAP genedlaethol, mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun IAP. Rhaid i'r cynlluniau IAP hynny:

a. disgrifio sut y mae'r corff yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau;

b. disgrifio sut y mae'r corff hwnnw'n bwriadu dilyn y canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 o'r Ddeddf; ac

c. cynnwys unrhyw wybodaeth arall y caiff Gweinidogion Cymru ei nodi mewn rheoliadau.

**179.** Fel yn achos y strategaeth IAP genedlaethol, nid yw manylion yr hyn a ddylai fod yn y cynlluniau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Ddeddf. Mater i bob

un o’r cyrff cyhoeddus rhestredig fydd penderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun, a'r unig ofyniad yw bod rhaid iddo gynnwys y manylion a nodir uchod. Y cyrff cyhoeddus rhestredig eu hunain fydd â’r ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion, boed hynny o fewn ardal ddiffiniedig eu hawdurdod lleol neu eu bwrdd iechyd, neu’n fwy cenedlaethol ar gyfer y cyrff cyhoeddus rhestredig hynny sydd â rôl genedlaethol.

**180.** Er bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun IAP, nid yw'r Ddeddf yn atal cyrff cyhoeddus rhag cydweithio i lunio eu cynlluniau. Mae yna lawer o feysydd lle gwyddom fod cyrff cyhoeddus yn cydweithio’n agos i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. Pe bai’n cael ei ystyried yn briodol, gellid mabwysiadu’r dull hwnnw wrth baratoi’r cynlluniau IAP.

**181.** Rhaid cyhoeddi’r cynlluniau IAP a lunnir gan y cyrff cyhoeddus rhestredig o fewn 12 mis i'r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth IAP genedlaethol. Rhaid i’r cyrff cyhoeddus rhestredig hefyd adolygu eu cynllun os cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru neu os bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio’r strategaeth IAP genedlaethol (fel yr eglurwyd uchod yn y wybodaeth ar adran 3 o’r Ddeddf). Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo corff cyhoeddus rhestredig i ddiwygio ei gynllun, rhaid nodi’r rhesymau dros roi’r cyfarwyddyd hwnnw. Os bydd y corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu diwygio ei gynllun yn dilyn adolygiad, rhaid iddo gyhoeddi’r fersiwn ddiwygiedig o’r cynllun cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.

**182.** Wrth lunio ei gynllun neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohono, rhaid i'r corff cyhoeddus rhestredig ymgysylltu ag unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae’n ystyried eu bod yn briodol, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Rhaid ymgysylltu â’r cynrychiolwyr a’r personau hynny hefyd yn ystod y broses o ddatblygu’r cynlluniau. Rhaid i'r corff cyhoeddus rhestredig hefyd anfon unrhyw gynllun IAP y mae wedi’i lunio a’i gyhoeddi at Weinidogion Cymru. Fel yn achos y strategaeth a’r canllawiau IAP, rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig hefyd sicrhau bod eu cynlluniau IAP ar gael yn IAP.

### Cynghorydd IAP i Weinidogion Cymru

**183.** Elfen allweddol arall o’r Ddeddf yw’r gofyniad i Weinidogion Cymru benodi person i fod yn gynghorydd IAP iddynt, a hefyd i benodi personau i fod yn aelodau o banel i gynorthwyo’r cynghorydd IAP. Mae’r darpariaethau hyn wedi’u nodi yn adran 6 o’r Ddeddf, a hefyd yn yr Atodlen i’r Ddeddf.

**184.** Wrth benodi'r cynghorydd IAP, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y person a benodir i'r rôl honno yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP, a bod ganddo ddealltwriaeth bersonol briodol o'r profiad o IAP. Mae'n gwbl hanfodol, er mwyn gallu ymgymryd â rôl fel cynghorydd IAP, fod rhaid i'r person hwnnw allu cyfathrebu'n effeithiol â'r gymuned Fyddar.

**185.** Cyn penodi person yn aelod o'r panel, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP yn gyntaf. Mae hon yn ddarpariaeth bwysig yn y Ddeddf sy'n sicrhau y dylai bod gan y cynghorydd, sydd fel defnyddiwr IAP, ddealltwriaeth glir o anghenion y gymuned Fyddar a bydd ganddo rôl ddiffiniedig i'w chwarae yn y broses o benodi aelodau'r panel.

**186.** Mae'r Ddeddf yn nodi y caiff y cynghorydd IAP ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf. Gall y cynghorydd ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor hwn o'i wirfodd ei hun neu mewn ymateb i gais a wneir gan Weinidogion Cymru. Felly nid yw hyn yn atal y cynghorydd rhag cynghori Gweinidogion Cymru ar eu swyddogaethau o dan y Ddeddf ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorydd ddarparu gwybodaeth na chyngor i Weinidogion Cymru yn fwy cyffredinol am IAP.

**187.** Gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, gall y cynghorydd IAP hefyd ddarparu gwybodaeth neu gyngor i unrhyw berson mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru. Mae hon yn ddarpariaeth ehangach nad yw'n gyfyngedig i ddarparu cyngor ar swyddogaethau o dan y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf chwaith yn cyfyngu ar y 'personau' y gall y cynghorydd roi'r cyngor hwn iddynt – heblaw am ei gwneud yn ofynnol i gael cytundeb Gweinidogion Cymru yn gyntaf. Nid yw'r broses ar gyfer sut y gall y cynghorydd dderbyn neu ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru neu unrhyw bersonau eraill wedi'i nodi yn y Ddeddf, gan y byddai hyn yn rhywbeth y byddai'n fwy priodol i'r cynghorydd a Gweinidogion Cymru ei datblygu.

**188.** Caiff y cynghorydd IAP hefyd ofyn i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth iddo at ddiben arfer unrhyw un o swyddogaethau'r cynghorydd. Os bydd corff cyhoeddus rhestredig yn derbyn cais o'r fath, rhaid iddo gydymffurfio â'r cais hwnnw oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau. Mae hyn yn rhoi mecanwaith clir i'r cynghorydd ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a gofyn am wybodaeth i'w cynorthwyo yn eu rôl.

**189.** Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP ynghylch y darpariaethau penodol a ganlyn yn y Ddeddf:

- y strategaeth IAP genedlaethol (gweler adran 3);
- adroddiadau cynnydd Gweinidogion Cymru (gweler adran 8);
- gwneud rheoliadau sy'n newid pa gyrff sy'n "gyrff cyhoeddus rhestredig" (gweler adran 9).

**190.** Mae darpariaethau pellach ynghylch y cynghorydd IAP a'r panel wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i'r Ddeddf. Bydd y cynghorydd ac aelodau'r panel yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru (a fyddai'n cael ei wneud drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol). Mae'r Atodlen yn ei gwneud yn glir y byddant wedyn yn dal y swydd yn unol â'r telerau a bennir gan y Gweinidogion drwy'r broses benodi honno.

**191.** Mae'r Atodlen hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y gall Gweinidogion Cymru dalu'r cynghorydd ac aelodau'r panel ac yn rhoi'r disgresiwn iddynt ddarparu cyfleusterau i'r cynghorydd os ac i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

**Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig**

**192.** Er mwyn gallu asesu a yw cyrff cyhoeddus rhestredig wedi gweithredu cynlluniau IAP a chraffu ar y gwaith hwnnw, mae adran 7 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi adroddiad sy'n (a) disgrifio'r hyn y mae wedi ei wneud i weithredu'r fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun IAP, a (b) os nad yw wedi gweithredu rhywbeth, esbonio pam nad yw wedi gwneud hynny.

**193.** Rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi'r adroddiadau 'gweithredu' o fewn 12 mis i'r diwrnod y maent yn cyhoeddi eu cynlluniau IAP o dan adran 5, neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'u cynlluniau IAP.

**194.** Rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig hefyd, ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i asesu'r cynnydd y mae pob corff cyhoeddus rhestredig wedi'i wneud wrth weithredu cynlluniau IAP, a bydd yn helpu i lywio gwaith Gweinidogion Cymru wrth iddynt ddod i unrhyw benderfyniad o dan adran 5 eu bod yn dymuno cyfarwyddo corff cyhoeddus rhestredig i adolygu ei gynllun. Mae hefyd yn hanfodol bod Gweinidogion Cymru yn gallu asesu'r

cynnydd a wnaed wrth weithredu cynlluniau IAP gan yr holl gyrff cyhoeddus rhestredig er mwyn llywio eu hadroddiad cynnydd eu hunain sy'n ofynnol gan adran 8 o'r Ddeddf.

**195.** Yn unol â gofynion eraill yn y Ddeddf, rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig sicrhau bod yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 7 o'r Ddeddf ar gael yn IAP.

**Adroddiadau gan Weinidogion Cymru**

**196.** Yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yn unol â'r Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r hyn y mae Gweinidogion Cymru wedi'i wneud yn unol â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf, a hefyd y cynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

**197.** Rhaid i adroddiad a gyhoeddir o dan adran 8 gynnwys esboniad o'r ystyriaeth a roddwyd gan Weinidogion Cymru o ran a ddylid diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus y cyfeirir atynt yn adran 9(1) yn unol ag adran 9(2).

**198.** At ddiben paratoi'r adroddiad, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig roi gwybodaeth benodol iddynt ac os felly, rhaid iddynt nodi'r cais hwnnw yn ysgrifenedig. Gall y wybodaeth hon fod yn ychwanegol at y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad 'gweithredu' a gyhoeddwyd gan gorff cyhoeddus rhestredig yn unol ag adran 7.

**199.** Wrth lunio'r adroddiad o dan adran 8, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) y cynghorydd IAP, (b) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl cyhoeddi'r strategaeth IAP.

**200.** Rhaid gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru. Fel gyda'r strategaeth IAP genedlaethol, mae hyn yn golygu y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd, a'i gynnwys yn nogfennau ffurfiol y Senedd. Gall Gweinidogion Cymru, wrth gwrs, gyhoeddi'r adroddiad mewn unrhyw le arall y maent yn teimlo sy'n briodol. Bydd hefyd yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru sicrhau bod yr adroddiad ar gael yn IAP.

## Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig"

**201.** Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o ddyletswyddau sy'n cael eu gosod ar "gyrff cyhoeddus rhestredig". Mae adran 9 o'r Ddeddf yn nodi enwau'r cyrff cyhoeddus rhestredig y mae'r dyletswyddau hynny'n gymwys iddynt.

**202.** Dros amser, efallai y bydd yn briodol gwneud newidiadau i'r rhestr o gyrff cyhoeddus rhestredig sydd wedi'i chynnwys yn yr adran hon. Felly, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau[148] sy'n newid pa gyrff sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr honno drwy:

a. ychwanegu awdurdod Cymreig datganoledig[149] i'r rhestr;

b. dileu corff cyhoeddus rhestredig o'r rhestr; neu

c. diwygio'r disgrifiad o gorff cyhoeddus rhestredig ar y rhestr.

## Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf

**203.** Mae'r Ddeddf yn cynnwys dau bŵer penodol i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud pethau penodol. Mae adran 10 o'r Ddeddf yn egluro sut y dylid arfer pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf, ac yn nodi gweithdrefn gymwys Senedd Cymru i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

**204.** Ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 5(1)(c), dyma fydd gweithdrefn ddirymu'r Senedd (sy'n golygu bod yr offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau yn dod yn gyfraith pan gaiff ei wneud ond y gall y Senedd ei ddirymu). Ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 9(2), dyma fydd gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd (sy'n golygu mai dim ond os caiff ei gymeradwyo drwy bleidlais yn y Senedd y daw'r offeryn sy'n eu cynnwys yn gyfraith).

**205.** Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau i wneud rheoliadau, gan gynnwys esboniad ynghylch eu priodoldeb, wedi'i chynnwys ym Mhennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## Pryd bydd y Ddeddf yn dod i rym

**206.** Yn unol ag arfer, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth benodol sy'n nodi pryd y daw ei ddarpariaethau i rym mewn gwirionedd (h.y. pryd y maent yn dod

[148] Math o is-ddeddfwriaeth y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yw rheoliadau. Mae'n gyffredin bod pwerau i wneud rheoliadau wedi'u cynnwys mewn Biliau a Deddfau.
[149] Yn gyffredinol, awdurdod Cymreig datganoledig yw corff cyhoeddus Cymreig sy'n arfer swyddogaethau mewn meysydd datganoledig.

yn weithredol). Mae adran 11 yn darparu bod y Ddeddf gyfan wedi dod i rym drannoeth y diwrnod y cafodd y Cydsyniad Brenhinol.[150]

## Enw'r Ddeddf

**207.** Mae pob Bil Senedd yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi beth fydd enw'r Ddeddf ar ôl iddi gael ei phasio gan y Senedd a chael y Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 12 o'r Ddeddf yn nodi y cyfeirir at y Ddeddf hon fel Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026 neu British Sign Language (Wales) Act 2026.

[150] Cydsyniad Brenhinol yw cytundeb y Brenin i wneud y Bil yn Ddeddf. Mae adran 115 o Ddeddf 2006 yn nodi bod rhaid i Fil, ar ôl i'r Senedd ei basio, gael ei gyflwyno gan y Llywydd er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol.

# 5. Gweithdrefnau cwyno ar gyfer Arwyddwyr IAP

**208.** Mae'r bennod hon wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol i ddarparu eglurder ar yr opsiynau sydd ar gael i achwynwyr sydd angen cymorth mewn achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau.

**209.** Fel yr amlinellir ym Mhennod 6, roedd y cynnig cychwynnol ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Comisiynydd IAP, y cynigiwyd y byddai'n sefydlu system ar gyfer ymchwilio i gwynion. Cafodd y cynigion hyn eu gwrthod yn y pen draw o blaid Cynghorydd a phanel cynghori. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer proses gwyno 'annibynnol'.

**210.** Yn ystod ei waith craffu Cyfnod 1, clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol dystiolaeth ar hyn, ac roedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn yn ei adroddiad Cyfnod 1, a gafodd ei dderbyn, ac sydd wedi arwain at gynnwys y bennod hon:

> *Argymhelliad 9: Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil egluro'r opsiynau sydd ar gael i achwynwyr sydd angen cymorth mewn achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu gan y Senedd) ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol a allai helpu yn hynny o beth.*

## Gwneud cwyn

**211.** Pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau neu pan fo pobl yn anfodlon ar y gwasanaeth y maent wedi'i gael, rhaid i bobl sy'n dymuno codi cwyn gysylltu â darparwr y gwasanaeth cyhoeddus yn gyntaf. Nodir y broses ar gyfer byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Lleol isod.

### Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG

**212.** Ar 14 Hydref 2025, cymeradwyodd y Senedd reoliadau newydd i ddiwygio'r broses o ymdrin â chwynion ac ymchwilio i ddigwyddiadau. Mae'r system newydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2026, yn rhoi dull dau gam newydd, 'Gwrando

ar Bobl'[151], yn lle'r system 'Gweithio i Wella'[152]. Mae'r cam cyntaf yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu cynnar er mwyn datrys pryderon o fewn cyfnod o 10 niwrnod gwaith. Pan na fo'n bosibl datrys pryderon ar y cam hwn, mae'r broses yn darparu ar gyfer ail gam, a all gynnwys ymchwilio manylach ac ystyried gwneud iawn, gan gynnwys atebolrwydd pan fo'n berthnasol.

**213.** Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru[153], mae'r gwelliannau allweddol yn cynnwys:

- cynnig gorfodol o drafodaethau gwrando lle bydd cyrff y GIG yn ystyried profiad yr unigolion sy'n codi pryderon
- cyfathrebu clir a thosturiol trwy gydol y broses, gan esbonio terminoleg gyfreithiol neu feddygol gymhleth yn briodol
- cynnig eiriolaeth a chymorth cyfreithiol yn rhagweithiol i achwynwyr
- cynyddu'r trothwy iawndal i £50,000
- gwiriadau gorfodol i sicrhau bod pryderon wedi'u datrys o fewn cyfnod amser penodol

**214.** Mae 'Gwrando ar Bobl' yn gymwys i bob un o gyrff GIG Cymru (gan gynnwys byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG Cymru, ac awdurdodau iechyd arbennig), a darparwyr annibynnol yng Nghymru sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG[154]. Fel y nodir yn y Canllawiau, "gellir codi pryderon, cwynion, neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r sefydliad yn cyflawni ei ddyletswyddau", a hynny "mewn amrywiaeth o ffyrdd i unrhyw aelod o staff a gyflogir gan y sefydliad i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, naill ai ar lafar dros y ffôn neu wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig (drwy lythyr, ar ffurflen bryder neu'n electronig)".

**215.** Mae'r Canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyfrifol gyhoeddi'n glir un pwynt cyswllt ar gyfer pryderon a chwynion. Mae gan bob Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd ei dîm neu ei thîm pryderon ei hun.[155] Nodir

[151] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025
[152] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011
[153] Llywodraeth Cymru, Cyhoeddi dyddiad i gadarnhau gwelliannau i system gwynion GIG Cymru (Hydref 2025)
[154] Llywodraeth Cymru, Gwrando ar Bobl: Proses cwynion, digwyddiadau ac iawn GIG Cymru – canllawiau pobl (fel ar 9 Ebrill 2026)
[155] GIG Cymru, Cysylltu â Ni

hefyd y dylai unrhyw aelod o staff y daw rhywun ato allu esbonio sut i godi pryder neu gŵyn.

**216.** Fel arall, gall y rheini sy'n dymuno codi pryder neu gŵyn gysylltu â'r canlynol:

- Llais, y corff annibynnol i ddinasyddion[156] (i gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraffau 231-233)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)[157]
- Eu Haelod lleol o'r Senedd[158]

## Awdurdodau lleol (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol)

**217.** Yn unol ag adran 36 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019,[159] mae'n ofynnol i awdurdod lleol feddu ar Weithdrefn Ymdrin â Chwynion, sy'n cydymffurfio â Datganiad yr Ombwdsmon o Egwyddorion a'r Weithdrefn Enghreifftiol ar gyfer Ymdrin â Chwynion.[160] Mae'r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion yn cynnwys proses dau gam:

- Cam 1: Datrysiad Rheng Flaen: Y nod yw datrys problemau syml yn gyflym, fel arfer o fewn 10 niwrnod gwaith, drwy ymddiheuriad neu gam gweithredu.
- Cam 2: Ymchwiliad: Ar gyfer cwynion cam 1 mwy cymhleth, difrifol neu heb eu datrys, gan gynnwys ymchwiliad manwl ac ymateb o fewn 20 niwrnod gwaith.

**218.** Dylai unrhyw un sy'n dymuno cwyno ddilyn gweithdrefn gwyno'r cyngor unigol yn gyntaf. Dylid cyfeirio cwyn swyddogol drwy weithdrefn gwyno'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf.[161]

**219.** Mae Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014[162] a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014[163] yn nodi y fframwaith ar gyfer sut y dylai awdurdodau lleol ymdrin â chwynion ynghylch y

---

[156] Llais, Codi pryder am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
[157] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Darparu adborth am wasanaeth gofal iechyd
[158] www.senedd.cymru
[159] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
[160] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gweithdrefn Enghreifftiol ar gyfer Ymdrin â Chwynion
[161] Llywodraeth Cymru, Dod o hyd i'ch awdurdod lleol
[162] Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2014
[163] Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014

gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r canllawiau ynghylch cwynion[164] yn nodi y caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys plentyn, sydd wedi cael, neu a oedd â hawlogaeth i gael, gwasanaeth oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol wneud cwyn.

**220.** Gellir gwneud cwyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i'r achwynydd gofnodi'r gŵyn a rhoi gwybod i Swyddog Cwynion yr awdurdod lleol.

**221.** Dau gam sydd i'r weithdrefn gwyno: mae Cam 1 yn cynnwys ceisio datrys y broblem gyda'r gwasanaeth lleol. Os yw'r gŵyn yn rhy ddifrifol i ymdrin â hi ar y cam datrys lleol, neu os yw'r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cam un, bydd ymchwiliad ffurfiol o dan gam 2 yn dechrau, gydag ymchwilydd annibynnol, unwaith bod yr awdurdod wedi ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr achwynydd.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**222.** Os na fydd person yn fodlon ar ymateb y bwrdd iechyd, yr ymddiriedolaeth GIG neu'r awdurdod lleol, gall gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[165] Mae gan yr Ombwdsmon bwerau cyfreithiol i ymchwilio i bryderon a chwynion ynghylch gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn annibynnol ar bob corff llywodraeth, a'u rôl yw darparu gwasanaeth diduedd sy'n rhad ac am ddim.

**223.** Fel arfer, mae'r Ombwdsmon yn disgwyl bod rhywun wedi tynnu sylw'r gwasanaeth iechyd neu'r gwasanaeth cymdeithasol perthnasol at ei bryder yn y lle cyntaf. Maent hefyd yn disgwyl bod y pryder wedi'i godi lai na blwyddyn yn ôl, er bod ganddynt ddisgresiwn os oes rheswm da pam na wnaed y gŵyn yn gynt. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi taflenni ffeithiau sy'n darparu rhagor o fanylion ynghylch sut i wneud cwyn.[166] Mae hefyd yn darparu cyfleuster i chwilio am gyrff cynghori ac eirioli ledled Cymru.[167]

[164] Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (2014)
[165] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Sut i gwyno
[166] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Taflenni Ffeithiau
[167] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cyrff Cynghori ac Eirioli

**224.** Mae'r Ombwdsmon hefyd yn darparu gwasanaeth dehongli SignVideo am ddim sydd ar gael o 10am tan 12:30pm ac 1:30pm tan 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener).[168]

## Gwneud cwyn a mynediad at IAP

**225.** Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol[169], esboniodd yr Ombwdsmon fod darparwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru "eisoes o dan ddyletswyddau i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch a'u bod yn ystyried ceisiadau am addasiadau rhesymol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau anabl". Esboniwyd eu bod wedi dyroddi Polisi a Chanllawiau Cwynion Enghreifftiol statudol[170] i bob cyngor lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru sy'n pennu bod rhaid i brosesau cwynion fod yn hygyrch.

**226.** Ychwanegodd yr Ombwdsmon y gall pobl gwyno iddynt os nad yw'r gwasanaethau neu'r prosesau cwynion mor hygyrch ag y dylent fod.

**227.** Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn ei ymateb na all ond ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag anghyfiawnder neu galedi personol. Felly, ni allai ymchwilio i gwynion nad oedd Llywodraeth Cymru neu'r cyrff rhestredig yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cynllunio neu adrodd o dan y Ddeddf.

## Eiriolaeth a chymorth i wneud cwyn

**228.** Mae nifer o sefydliadau sy'n darparu cyngor a chymorth i'r rhai sy'n dymuno codi mater ynghylch corff cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn darparu cyfleuster i chwilio am gyngor a chyrff eirioli ledled Cymru.[171]

### Llais

**229.** Mae Llais yn gorff annibynnol statudol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023 i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth i'w gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael eu cynllunio a'u darparu. Sefydlwyd Llais o dan Ddeddf Iechyd a Gofal

[168] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Sut y gallwn ni eich helpu chi i ddefnyddio ein gwasanaeth
[169] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Ymateb i ymgynghoriad: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Tachwedd 2025)
[170] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Polisi Pryderon a Chwynion ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (cyrchwyd 2 Chwefror 2026)
[171] Llywodraeth Cymru, Cyrff Cynghori ac Eirioli

Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[172] i gymryd lle cynghorau iechyd cymuned.

**230.** Mae Llais yn darparu gwasanaeth eirioli annibynnol a chyfrinachol yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n codi cwyn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.[173] Maent yn cefnogi pobl sy'n gwneud cwyn ac yn helpu i esbonio'r broses a'r opsiynau sydd ar gael.

**231.** Mae Datganiad Hygyrchedd Llais yn esbonio y bydd yn "gofyn i unrhyw un sydd eisiau cymorth i godi pryder am eu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol sut y bydden nhw'n hoffi i ni eu cefnogi".[174] Mewn gohebiaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd[175], cadarnhaodd Llais y byddant yn gweithio gydag arwyddwyr IAP i ddeall a darparu gwasanaethau gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu a ffefrir ganddynt, gan gynnwys trefnu dehonglwyr IAP cymwysedig neu ddefnyddio gwasanaethau cyfnewid fideo.

[172] Llywodraeth Cymru, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb (2023)
[173] Llais, Codi pryder am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
[174] Llais, Datganiad Hygyrchedd
[175] Llais, Gohebiaeth at y Cadeirydd oddi wrth Llais ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Hydref 2025) (Saesneg yn unig)

# 6. Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025 ar ran Mark Isherwood AS i gefnogi'r Bil.

Dalier sylw: Mae rhannau eraill o'r Memorandwm Esboniadol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r Bil sydd bellach yn Ddeddf. Mae'r adran hon drwyddi draw yn cyfeirio at Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel 'y Bil'. Y rheswm dros hyn yw bod manylion yr ymgynghoriad, a'r ymatebion y cyfeiriwyd atynt, yn ymwneud â chynnwys y Bil fel y'i cyflwynwyd.

## Ymgynghoriad anffurfiol cyntaf

**232.** Mae gwaith ymgynghori â Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi bod yn mynd rhagddo ers 2021. Mae cefnogaeth gref ac eang i'r cynigion y tu ôl i'r Bil hwn. Yn dilyn canlyniad y balot cychwynnol yn ystod gwanwyn 2024, a gychwynnodd y broses o geisio cydsyniad y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil, gofynnwyd am gefnogaeth gan y sefydliadau Pobl Fyddar blaenllaw ledled Cymru, a chafwyd cefnogaeth gan y canlynol:

- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yng Nghymru
- Sense
- Deaf Film Club
- Centre of Sign-Sight-Sound
- Deaf Gathering
- Our Visual World
- Llanelli Deaf Club
- Sawl Unigolyn Byddar
- Sawl Dehonglwr Iaith Arwyddion Cofrestredig

## Ymgynghoriad ar amcanion polisi'r Bil

**233.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyffredinol ar y cynigion ar gyfer y Bil rhwng 8 Tachwedd 2024 a 31 Ionawr 2025. Roedd y ddogfennaeth ymgynghori ar gael yn IAP a rhoddwyd cyfle i ymateb yn IAP hefyd. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hyn.[176]

**234.** Roedd yn dangos lefel sylweddol iawn o gefnogaeth i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynigion:

- Cytunodd pawb ond dau â'r angen am y Bil (cytunodd 97% y dylai'r Bil gynnwys cynigion i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP a'i ffurfiau cyffyrddol).
- Dywedodd sawl sefydliad gan gynnwys yr RNID,[177] Anabledd Cymru, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain[178] Gofal a Thrwsio Cymru[179] a nifer o unigolion fod angen y Bil er mwyn sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth yn Lloegr a'r Alban.
- Mae cefnogaeth sylweddol i nodau'r Bil gyda llawer o unigolion, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn dweud y byddai'n chwalu rhwystrau y mae bobl Fyddar yn eu hwynebu.
- Roedd cefnogaeth sylweddol ar gyfer y cynnig i osod dyletswydd adrodd ar Lywodraeth Cymru. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd er mwyn monitro ac ysgogi gwelliannau, cofnodi cynnydd a nodi arfer da' a chynyddu 'atebolrwydd a thryloywder a chaniatáu gwaith craffu.
- Roedd cefnogaeth sylweddol i'r syniad y dylai pobl Fyddar gael llais ffurfiol yn y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a chytundeb nad yw'r Gymuned Fyddar ar hyn o bryd yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

[176] Mark Isherwood AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig (Mawrth 2025)
[177] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[178] Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[179] Gofal a Thrwsio Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

**235.** Roedd dau ymatebydd yn anghytuno bod angen y Bil hwn. Dywedodd un unigolyn[180] nad oedd honiadau ynghylch diffyg cefnogaeth neu fynediad wedi'u dilysu ac am y rheswm hwnnw nad oes angen y Bil. Wrth fyfyrio ar brofiadau ei bartner sy'n Fyddar, dywedodd ei fod bob amser wedi gallu cael mynediad at gymorth IAP yn y GIG. Fodd bynnag, nododd faterion ynghylch defnyddio dehonglwyr IAP.

**236.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)[181] o'r farn bod amcanion y ddeddfwriaeth hon eisoes wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd y byddai'n fwy priodol canolbwyntio ar fonitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau presennol yn well.

**237.** Mae adran 5 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r hyn a wnaed i weithredu'r cynllun ac, os nad yw'r cynllun wedi'i weithredu, rhaid iddynt esbonio pam. Rhaid i'r cynllun a'r adroddiad fod ar gael yn IAP.

**238.** Un pryder allweddol i rai o'r cyrff cyhoeddus rhestredig oedd eu gallu i gyflawni'r dyletswyddau fel y'u nodir yn y Bil. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[182] a Chyngor Abertawe[183] sylw at yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen ar awdurdodau lleol i weithredu'r newidiadau, gan nodi y byddai hyn yn digwydd yn erbyn cefndir o bwysau ariannol presennol. Amcangyfrifodd CLlLC[184] y byddai paratoi cynlluniau IAP a chynnal adolygiadau perfformiad yn costio tua £790,000 y flwyddyn dros y 5 mlynedd cyntaf, er y byddai costau'n lleihau yn y blynyddoedd dilynol. Archwilir y gost amcangyfrifedig hon ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**239.** Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[185] na fyddai'n gallu bodloni'r darpariaethau hyn yn llawn eto a dywedodd bod angen eu cymhwyso gyda chymesuredd ac y dylid eu cynyddu dros amser yn unol â gallu'r Ymddiriedolaeth. Dywedodd hefyd y dylid cydnabod bod llawer o

---

[180] Mervyn James, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[181] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[182] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[183] Cyngor Abertawe, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[184] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[185] Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

ddarpariaethau'r Bil (fel cynyddu'r gweithlu IAP) allan o reolaeth yr Ymddiriedolaeth.

**240.** Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru[186] y byddai recriwtio a chadw unigolion â'r sgiliau addas i gefnogi'r darpariaethau a nodir yn y Bil yn heriol. Nododd Iechyd a Gofal Digidol Cymru[187] yr effaith ar y capasiti a'r adnoddau presennol a dywedodd y gallai fod angen ystyried darpariaethau ychwanegol wrth ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau digidol.

**241.** Thema gyffredin ar draws ymatebion i'r ymgynghoriad oedd pryder ynghylch y diffyg argaeledd a mynediad at IAP. Dywedodd llawer fod y diffyg dehonglwyr ar hyn o bryd yn cyfyngu ar allu pobl Fyddar i gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain ac felly'n rhwystro eu gallu i gael mynediad at wasanaethau a chefnogaeth. Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr fod pobl Fyddar yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys: Iechyd; Addysg; Gofal Cymdeithasol a Thrafnidiaeth, gyda Iechyd ac Addysg yn brif feysydd lle'r oedd rhwystrau.

**242.** Mae cytundeb sylweddol y dylai'r Bil gynnwys cynigion i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP a'i ffurfiau cyffyrddol, ac y dylai gynnwys tafodieithoedd rhanbarthol. Roedd ychydig dros hanner yn cytuno y dylid defnyddio'r term 'arwyddwyr IAP' yn hytrach na 'defnyddwyr IAP' ac y dylid defnyddio'r term 'arwyddwyr IAP Byddar' wrth gyfeirio at ddefnyddwyr/arwyddwyr IAP sy'n fyddar yn feddygol neu'n awdiolegol. Mae cytundeb sylweddol nad yw'r Gymuned Fyddar ar hyn o bryd yn ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ac y dylai gael llais ffurfiol mewn gwasanaethau y mae'n eu defnyddio.

**243.** O ran pa ddulliau cyfathrebu y dylid eu cynnwys yn y Bil, dywedodd dros hanner y dylai gynnwys IAP, gyda rhai hefyd yn nodi y dylid cynnwys Saesneg a Gefnogir gan Arwyddion (SSE) a Gwasanaethau Cyfnewid Fideo (VRS) hefyd. Mae'r RNID eisiau gweld VRS cenedlaethol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn hygyrch i ddefnyddwyr IAP, yn debyg i Contact Scotland.

---

[186] Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[187] Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

**244.** Roedd cefnogaeth i'r cynnig i sefydlu Comisiynydd IAP, gyda rhai yn dadlau y bydd y rôl yn gosod IAP ar yr un lefel â'r Gymraeg, y byddai'n sicrhau bod anghenion y Gymuned IAP Fyddar yn cael eu diwallu, yn sicrhau bod gwasanaethau yn atebol, yn eirioli ar ran y gymuned ac yn darparu arweiniad i sefydliadau. Cytunodd 92% o'r ymatebwyr (o 119 o ymatebion) y dylai'r Comisiynydd IAP a'r Panel fod yn ddefnyddwyr/arwyddwyr IAP rhugl.

**245.** Fodd bynnag, er gwaetha'r gefnogaeth, mynegodd sawl ymatebydd, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r Gymuned Fyddar (yr RNID[188] a Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar[189]) bryderon am benodi Comisiynydd IAP ac awgrymwyd opsiynau eraill y teimlent y byddent yn gwneud gwell defnydd o adnoddau. Oherwydd pryderon ynghylch rôl Comisiynydd, mae'r Bil bellach yn cynnwys penodi cynghorydd IAP. Archwilir y rhesymau dros wneud y newid hwn ymhellach yn yr adran a ganlyn.

**246.** Roedd cefnogaeth sylweddol ar gyfer y cynnig i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio a chyhoeddi adroddiad. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd cynnwys monitro ac ysgogi gwelliannau, cofnodi cynnydd a nodi arfer da a chynyddu atebolrwydd a thryloywder a chaniatáu gwaith craffu.

## Sut y mae fersiwn derfynol y Bil yn wahanol i'r cynigion cychwynnol a/neu'r Bil drafft

**247.** Wrth ddrafftio'r Bil, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r ymgynghoriad anffurfiol a ffurfiol. Bu trafodaethau parhaus gyda Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil. Mae hyn wedi llywio'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd.

## Newidiadau neu gadarnhad sy'n deillio o'r ymgynghoriad

**248.** Mae ystyriaeth o'r cynigion y tu ôl i'r Bil wedi parhau ers sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen ar 19 Mehefin 2024. O ganlyniad, gwnaed nifer o newidiadau sy'n wahanol i'r Memorandwm Esboniadol cychwynnol.[190]

[188] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[189] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[190] Mark Isherwood AS, Memorandwm Esboniadol: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mai 2024)

## Penodi cynghorydd IAP

**249.** Roedd y Memorandwm Esboniadol cychwynnol yn cynnig sefydlu Comisiynydd IAP gyda'r un pwerau â Chomisiynwyr ieithoedd lleiafrifol eraill fel ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[191], Deddf yr Iaith Aeleg (yr Alban) 2005[192], a Deddf Hunaniaeth ac Iaith (Gogledd Iwerddon) 2022.[193]

**250.** Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol cychwynnol, disgwylid y byddai Comisiynydd IAP yn:

- llunio safonau IAP;
- sefydlu Panel Cynghori IAP;
- llunio adroddiadau bob pum mlynedd yn IAP, Cymraeg a Saesneg ar sefyllfa IAP yn y cyfnod hwnnw;
- darparu arweiniad a phroses i gyrff cyhoeddus hybu a hwyluso IAP yn eu priod barthau; a
- sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion.

**251.** Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig yn yr ymgynghoriad i sefydlu Comisiynydd IAP gyda rhai yn dadlau y bydd y rôl yn gosod IAP ar yr un lefel â'r Gymraeg, y byddai'n sicrhau bod anghenion y gymuned IAP Fyddar yn cael eu diwallu, yn sicrhau bod gwasanaethau yn atebol, yn eirioli ar ran y gymuned ac yn darparu arweiniad i sefydliadau. Wrth wneud sylwadau ar y manteision, dywedodd Cyngor Cymru i Bobl Fyddar:[194]

> *A BSL Commissioner would be a dedicated advocate for the needs and rights of BSL signers ensuring that the Deaf community has a strong voice in decision-making processes. Currently, there is no single person or office focused exclusively on the needs of BSL signers which can result in their concerns being overlooked or inadequately addressed. A BSL Commissioner could act as a champion for their rights, lobbying for more inclusive policies and services.*

[191] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
[192] Deddf yr Aeleg (yr Alban) 2005
[193] Deddf Hunaniaeth ac Iaith (Gogledd Iwerddon) 2022
[194] Cyngor Cymru i Bobl Fyddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

**252.** Fodd bynnag, mynegodd sawl ymatebydd, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r gymuned Fyddar (yr RNID a Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar) bryderon am y gost o benodi Comisiynydd IAP a chynrychiolaeth rôl o'r fath.

**253.** Nid oedd yr RNID[195] yn credu mai Comisiynydd IAP fyddai'r defnydd gorau o adnoddau:

> *While we understand the proposal for establishing a BSL Commissioner, and support the remit of this Commissioner in principle, we don't necessarily believe that a commissioner will be the best use of resource to ensure the Bill is effectively implemented* [...] *we believe resources could be used alternatively to achieve a bigger impact.*

**254.** Rhannodd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar[196] bwynt tebyg, gan ddweud y byddai hynny'n cyflwyno risgiau sylweddol o ran adnoddau. Tynnodd sylw at y dystiolaeth a gasglwyd ganddi drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi ei harwain i amau, pe bai'r Bil yn symud ymlaen gyda rôl y Comisiynydd ar waith, y byddai'n debygol o fethu.

**255.** Er bod cost yn bryder allweddol, gwnaeth rhai'r pwynt y byddai cylch gwaith Comisiynydd IAP yn gyfyngedig i arwyddwyr IAP Byddar ac felly na fyddai'n cynnwys y gymuned Fyddar gyfan a phobl anabl yn fwy cyffredinol. Mae nifer o sefydliadau pobl anabl wedi dadlau dros gael rôl Comisiynydd Pobl Anabl ehangach. Yn 2019, cyflwynodd y sefydliad Pobl Caerdydd yn Gyntaf[197] ddeiseb[198] yn galw ar y Senedd i benodi Comisiynydd Anableddau Dysgu i Gymru. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod sefydlu swydd Comisiynydd Anabledd Dysgu, a bod y deisebwyr wedi derbyn hynny'n flaenorol.

**256.** Mae Anabledd Cymru wedi galw ers tro am Gomisiynydd Pobl Anabl[199] gan ddweud na all gefnogi'r alwad am Gomisiynydd IAP yn llawn heb ystyried anghenion a chydraddoldeb pob person anabl yng Nghymru. Dywedodd ei bod

---

[195] Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID), Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[196] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[197] Mae Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn sefydliad hunan-eiriolaeth a redir gan ac ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae nifer o grwpiau Pobl yn Gyntaf ledled Cymru ac mewn mannau eraill yn y DU.
[198] Senedd Cymru, Penodi Comisiynydd Anabledd Dysgu i Gymru (Gorffennaf 2019)
[199] Anabledd Cymru, Dewch Â'n Hawliau i Ni: Maniffesto Pobl Anabl (2020)

yn credu bod angen trafodaethau ehangach ynghylch rôl comisiynydd wrth amddiffyn hawliau ehangach Pobl Fyddar ac Anabl.

**257.** Roedd gan CLlLC bryderon tebyg hefyd, gan gymharu cynrychiolaeth Comisiynydd Iaith Arwyddion Prydain â Chomisiynwyr eraill:[200]

> *A new BSL Commissioner would cover a maximum of 7,300 people according to the Explanatory Memorandum, which is approximately 1.33 per cent of the number of children and young people that are covered by the Children's Commissioner and at most 0.85 per cent of those covered by the Welsh Language Commissioner.*

**258.** Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a deddfwriaeth debyg yn y DU, mae Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer penodi cynghorydd IAP yn hytrach na Chomisiynydd IAP, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol cychwynnol.[201]

**Rôl y cynghorydd IAP**

**259.** Fel y nodir yn adran 6 o'r Bil, byddai'r cynghorydd IAP yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru a gallai ddarparu:

- gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon;
- gwybodaeth neu gyngor, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru;

**260.** Gan adlewyrchu dewisiadau ymatebwyr yr ymgynghoriad o sicrhau bod y penodiad yn ddefnyddiwr/arwyddwr IAP rhugl, wrth wneud y penodiad, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod y cynghorydd IAP yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio.

**261.** Mae rôl y cynghorydd IAP yn debyg i rôl y Cynghorydd Cenedlaethol a benodwyd o dan adran 3 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.[202] Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru

[200] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[201] Mark Isherwood, AS, Memorandwm Esboniadol: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mai 2024)
[202] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Fel y cynghorydd IAP, mae hon yn rôl statudol a benodir drwy'r broses benodi gyhoeddus. Mae'r cynghorydd cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhoi cyngor ac yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**262.** Er nad oeddent yn cefnogi penodi Comisiynydd, cytunodd CLlLC ynghylch pwysigrwydd penodi eiriolwr dros IAP a chyfeiriodd at y cynghorydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel dewis arall posibl:

> *We do however fully recognise that it is important that BSL is more highly represented and promoted and feel that Special Advisors on BSL would allow this to take place. This would also show consistency where key and important areas of focus are required involving those with specialist knowledge, the Special Advisors for Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) being one example where this is currently seen to be working well, providing advice and sharing their specialist knowledge with Ministers, Members of the Senedd and the wider public sector.*

**263.** Nid yw deddfwriaeth IAP mewn rhannau eraill o'r DU yn cynnwys darpariaethau ar gyfer penodi Comisiynydd na chynghorydd arbennig. Felly, bydd penodi cynghorydd IAP yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'r hyn a nodir yn Neddf Iaith Arwyddion Prydain 2022[203] a Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015.[204] Nid yw rôl cynghorydd wedi'i chynnwys ym Mil Iaith Arwyddion drafft Gogledd Iwerddon ychwaith.[205]

## Panel Cynorthwyo

**264.** Roedd y Memorandwm Esboniadol cychwynnol[206] yn cynnig sefydlu panel cynghori. Byddai'r panel yn cael ei benodi gan Gomisiynydd IAP a byddai'n:

> [...] *cynnwys arwyddwyr BSL o Gymru sy'n deall y problemau a wynebir gan arwyddwyr BSL byddar yng Nghymru ac yn*

[203] Senedd y DU, Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[204] Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015
[205] Bil Iaith Arwyddion (Gogledd Iwerddon)
[206] Mark Isherwood AS, Memorandwm Esboniadol: Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mai 2024)

*benodol, yr amrywiadau rhanbarthol sy'n bodoli yng Nghymru y mae'n rhaid eu cadw. Bydd y Panel hefyd yn gallu rhoi cyngor clir i Gomisiynydd BSL ynghylch materion polisi, a rhoi arweiniad i wasanaethau cyhoeddus Cymru ar sut i ymgysylltu ag arwyddwyr BSL yng Nghymru a sicrhau eu bod yn rhan o'r broses gynllunio a darparu.*

**265.** Dywedodd Sefydliad Neumark[207] y gallai panel cynghori gryfhau rôl y Comisiynydd drwy ddod â phrofiadau byw yn uniongyrchol i lunio polisïau. Amlygodd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar[208] swyddogaeth bwysig panel cynghori a chynigiodd y gallai'r Bil fynd rhagddo heb Gomisiynydd IAP ond ei fod yn dal i gynnwys opsiwn panel cynghori IAP sy'n annibynnol ar y llywodraeth, er mwyn ei alluogi i fod wir yn gyfaill beirniadol wrth ystyried polisi'r llywodraeth.

**266.** Mae'r Bil yn parhau i gynnwys darpariaethau ar gyfer panel i gynorthwyo'r cynghorydd IAP. Yn absenoldeb Comisiynydd IAP, bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i benodi aelodau'r panel. Fel y nodir yn adran 6 o'r Bil, bydd gan y cynghorydd IAP gyfle hefyd i gynghori Gweinidogion Cymru ar benodi aelodau'r panel.

### Rôl paneli cynghori mewn deddfwriaeth IAP arall yn y DU

**267.** Nid yw Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015[209] yn cynnwys penodi panel cynghori. Fodd bynnag, yn 2016 sefydlwyd Grŵp Cynghori Cenedlaethol IAP gan Lywodraeth yr Alban i gefnogi datblygiad y Cynllun Cenedlaethol IAP cyntaf.

**268.** Mae aelodaeth y Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus ac aelodau o'r Gymuned Fyddar. Roedd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu IAP cyntaf yn 2017.[210] Mae Adroddiad Cynnydd IAP 2021[211] yn tynnu sylw at sefydlu grwpiau arbenigol ychwanegol, gan gynnwys grŵp cynghori arbenigol yn 2019 i ddatblygu cynlluniau i hybu'r defnydd o IAP mewn ysgolion. Mae'r Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2023-2029[212] yn datgan y bydd yn sefydlu Grŵp Cynghori ar

---

[207] Sefydliad Neumark, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[208] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[209] Deddf Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) 2015
[210] Llywodraeth yr Alban, British Sign Language (BSL): National Plan 2017 to 2023 (Hydref 2017)
[211] Llywodraeth yr Alban, Scottish Government British Sign Language (BSL) Progress Report 2021 (2021)
[212] Llywodraeth yr Alban, British Sign Language National Plan 2023-2029 (2023)

Weithredu Cynllun Cenedlaethol IAP gyda chynrychiolwyr o'r gymuned IAP i helpu i gyflawni'r 45 cam gweithredu yn y cynllun.

**269.** Nid yw'r darpariaethau yn Neddf Iaith Arwyddion Prydain 2022[213] yn cynnwys penodi cynghorydd. Fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol, roedd enw hir y Bil yn nodi y byddai'r Bil yn darparu ar gyfer Cyngor Iaith Arwyddion Prydain i hybu a chynghori ar y defnydd o IAP. Fodd bynnag, mae'r Nodiadau Esboniadol[214] yn datgan bod cynnwys y Bil wedi'i ddiwygio, gyda chymeradwyaeth yr Aelod sy'n ei noddi, ac y bydd y llywodraeth yn sefydlu bwrdd anstatudol yn lle hynny.

**270.** Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf, sefydlwyd bwrdd Cynghori IAP anstatudol ym mis Mawrth 2023.[215] Mae'n cynnwys defnyddwyr IAP yn bennaf, a'i rôl yw cynghori'r llywodraeth ar faterion o bwys i bobl fyddar ac ar weithredu Deddf IAP.[216] Bydd aelodau'r Bwrdd yn gwasanaethu hyd at dair blynedd. Cawsant eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a'u dewis yn dilyn proses ymgeisio i sicrhau bod y bwrdd yn cynrychioli amrywiaeth y gymuned IAP.

**271.** Mae sefydlu Bwrdd Cynghori IAP mewn seneddau eraill wedi galluogi'r rhai sydd â phrofiad byw o IAP[217] i gydweithio wrth gynghori'r llywodraeth i sicrhau bod ei gwybodaeth, ei chyfathrebiadau a'i gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Mae'r Bwrdd Cynghori wedi cynghori'r llywodraeth ar y canllawiau a nodir yn Neddf IAP, a'i weithrediad i gynrychioli'r gymuned Fyddar orau. Mae hefyd wedi darparu cyngor arbenigol[218] i adrannau Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud ag addysg, mynediad pobl fyddar i chwaraeon a mewnbwn ar gynnwys y Cynllun Gweithredu Anabledd. Mae datblygiadau eraill sydd wedi codi o ganlyniad i'r Ddeddf yn cynnwys ymgyrch sgrinio canser ag arwyddion a chapsiynau gan GIG Lloegr[219] a chanllawiau Gwasanaeth Cyfathrebu Llywodraeth y DU ar gynllunio a llunio cynnwys IAP.[220]

## Crynodeb o'r gefnogaeth i'r Bil

**272.** Mae'r bennod hon yn dangos y gefnogaeth gref ac eang i'r cynigion y tu ôl i'r Bil. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos pwysigrwydd unfrydol bron ar gyfer

[213] Senedd y DU, Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[214] Senedd y DU, Bil Iaith Arwyddion Prydain: Nodiadau Esboniadol
[215] Llywodraeth y DU, BSL users appointed to board advising government on key issues for Deaf (Mawrth 2023)
[216] Llywodraeth y DU, The British Sign Language (BSL) report, 2023 to 2024 (Rhagfyr 2024)
[217] Profiad byw o IAP yw'r prif faen prawf ar gyfer aelodaeth o'r Bwrdd Cynghori.
[218] Llywodraeth y DU, The British Sign Language (BSL) report, 2023 to 2024 (2024)
[219] GIG Lloegr, Don't carry the worry of cancer with you (BSL)
[220] Llywodraeth y DU, Guidance published on delivering British Sign Language content (2023)

sicrhau bod Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hybu a hwyluso IAP, gyda nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r angen i Gymru sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth y DU.

**273.** Mae'r dyfyniad hwn o ymateb Anabledd Cymru i'r Memorandwm Esboniadol drafft/cychwynnol yn dangos pwysigrwydd y Bil hwn:

> *This legislation lays the groundwork for addressing systemic barriers faced by BSL signers in Wales. Importantly, the Bill will create a shift toward creating a Wales that values linguistic diversity and access for all.*

# 7. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

**274.** Mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 2 yn nodi mewn perthynas â’r rhain:

- y person, neu’r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y bwriedir arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a ddilynwyd; hynny yw, “cadarnhaol”, “negyddol”, neu “dim gweithdrefn”, ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir bod y weithdrefn honno yn briodol.

**275.** Bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bo angen, neu os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Caiff union natur yr ymgynghoriad (os o gwbl) ei bennu unwaith y caiff y cynigion eu cwblhau'n derfynol.

Tabl 2: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

| Adran | Pŵer wedi'i roi | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 5(1)(c)**<br>Cynlluniau IAP | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 5(1) o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gorff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun—<br>(a) sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau;<br>(b) sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu dilyn canllawiau a ddyroddir o dan adran 4, neu'n esbonio pam nad yw'n bwriadu gwneud hynny;<br>Mae adran 5(1)(c) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi gwybodaeth arall y mae rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig ei chynnwys yn ei gynllun IAP.<br>Byddai'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen i fanylion a chynnwys cynlluniau IAP newid dros amser i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Felly, mae'n briodol y dylid gwneud hyn drwy reoliadau. | Negyddol | Mae'r brif ddyletswydd ar gorff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun IAP, ynghyd â'r gofynion ar gyfer yr hyn y mae rhaid i'r cynllun hwnnw ei gynnwys, wedi'i nodi ar wyneb y Ddeddf.<br>Ni all rheoliadau o dan adran 5(1)(c) newid y gofynion a nodir yn y Ddeddf.<br>Y rheswm pam yr ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol yw bod disgresiwn Llywodraeth Cymru dros gynnwys y rheoliadau yn gyfyngedig – bydd rhaid i unrhyw "wybodaeth arall" a ragnodir gan y rheoliadau ymwneud ag IAP. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 9(2)<br>Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig" | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 9(2) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid pa gyrff sydd wedi'u cynnwys fel "cyrff cyhoeddus rhestredig" o dan adran 9(1) o'r Ddeddf. Mae'r pŵer i wneud Rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud hyn—<br>(a) drwy ychwanegu awdurdod Cymreig datganoledig,<br>(b) drwy ddileu corff cyhoeddus rhestredig, neu<br>(c) drwy ddiwygio'r disgrifiad o gorff cyhoeddus rhestredig.<br>Mae'n rhesymol disgwyl y gallai fod angen i'r "cyrff cyhoeddus rhestredig" hynny newid dros amser i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Felly, mae'n briodol y dylid gwneud hyn drwy reoliadau. | Cadarnhaol | Mae hwn yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac i newid y "cyrff cyhoeddus rhestredig" sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.<br>Felly, dylid dwyn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i sylw'r Senedd a'u trafod yn briodol gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.<br>Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori hefyd â'r Cynghorydd IAP a phersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. |

# Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai’r rhain yn bodloni’r amcanion polisi. Wrth wneud hynny, mae’n ystyried y risgiau, y costau a’r manteision cysylltiedig.

Dalier sylw: Mae rhannau eraill o’r Memorandwm Esboniadol wedi’u diweddaru i adlewyrchu’r Bil sydd bellach yn Ddeddf, ond mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwyddo draw yn cyfeirio at Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel ‘y Bil’. Y rheswm dros hyn yw bod y dadansoddiad o’r costau a’r manteision wedi’i ddefnyddio at ddiben helpu i graffu ar y Bil yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Adolygwyd yr Asesiad hwn ddiwethaf ar ôl cytuno ar nifer o welliannau Cyfnod 2 ond nid ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau sylweddol.

**276.** Mae'r broses o ddatblygu Biliau Aelod yn y Senedd yn golygu cael eu dethol mewn Balot, a chael cytundeb y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil. Mae Biliau Aelod yn wahanol i Filiau Cyhoeddus eraill, gan fod yr Aelod a ddewiswyd wedi’i gyfyngu gan y broses a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Gan fod y broses honno yn ei chyfanrwydd yn ymwneud â datblygu Bil yn unol â’r wybodaeth cyn y balot, nid oes opsiwn ar gael i’r Aelod a ddewiswyd gyflawni'r amcanion polisi mewn ffordd arall. Felly, dim ond dau opsiwn y mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn eu cynnwys:

- Gwneud dim - parhau â pholisïau IAP Llywodraeth Cymru;
- Cyflwyno Bil.

**277.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn ystyried y posibiliadau o ran canlyniadau anfwriadol ac yn cynnwys ystyriaethau o ran cydraddoldeb. Lluniwyd y costau a’r manteision gan ddefnyddio’r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

**278.** Mae’r wybodaeth hon wedi'i pharatoi drwy drafodaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr llywodraeth leol a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriadau i geisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae’r safbwyntiau hyn wedi’u hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**279.** Mae'r costau a'r manteision wedi cael eu hasesu dros gyfnod o ddeng mlynedd. Defnyddiwyd cyfradd disgownt ganolog Trysorlys EF o 3.5% drwy gydol y dadansoddiad hwn i gyfrifo gwerth presennol yr opsiwn a ffefrir.

# 8. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**280.** Mae'r tablau isod yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Diben y tablau yw cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Tabl 3: Cyfanswm cost yr opsiwn a ffefrir (£)

| Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) | | |
|---|---|---|
| Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2: cyflwyno Bil i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru. | | |
| Cyfnod: Cyflwyniad | Cyfnod gwerthuso: 10 mlynedd o weithredu'r Bil | Blwyddyn sail brisiau: 2025-26 |
| Cyfanswm y gost:<br>Gwerth presennol:<br>Ystod: 3,759,800 i 4,140,600 | Cyfanswm y Manteision<br>Gwerth presennol:<br>Heb ei fesur | Gwerth Presennol Net:<br>Ystod: £2,813,000 i £3,145,000 |

Tabl 4: Crynodeb o gostau cyffredinol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (dros gyfnod o 10 mlynedd) (£)

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Llywodraeth Cymru | | | | | | | | | | | |
| Cynghorydd | 127,400 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 1,131,800 |
| Panel Cynorthwyo | 45,900 | 30,200 | 30,200 | 20,100 | 20,100 | 20,100 | 20,100 | 20,100 | 20,100 | 20,100 | 247,000 |
| Llunio'r Strategaeth IAP Genedlaethol gyntaf a chanllawiau | 41,000 | 65,100 | | | | | | | | | 106,100 |
| Adroddiad ar Strategaeth | | | | 5,500 | 21,800 | | 5,500 | 21,800 | | 5,500 | 60,100 |
| Strategaeth IAP wedi'i diweddaru | | | | | | | 20,500 | 44,100 | | | 64,600 |
| Cyfanswm | 214,300 | 206,900 | 141,800 | 137,200 | 153,500 | 131,700 | 157,700 | 197,600 | 131,700 | 137,200 | 1,609,600 |
| | | | | | | | | | | | |
| Costau Cyrff Cyhoeddus Rhestredig | | | | | | | | | | | |
| Cynllun IAP – ystod uwch | | 458,800 | 633,900 | | | | | | | | 1,092,700 |
| Cynllun IAP – ystod is | | 305,900 | 406,000 | | | | | | | | 711,900 |
| Adrodd ar Gynllun IAP | | | | 363,200 | | | | | | 363,200 | 726,400 |
| Adolygu / diweddaru Cynllun IAP | | | | | | | | 305,900 | 406,000 | | 711,900 |

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cyrff Cyhoeddus Rhestredig – uchel | | 458,800 | 633,900 | 363,200 | | | | 305,900 | 406,000 | 363,200 | 2,531,000 |
| Cyfanswm Cyrff Cyhoeddus Rhestredig – isel | | 305,900 | 406,000 | 363,200 | | | | 305,900 | 406,000 | 363,200 | 2,150,200 |
| | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm – uchel | 214,300 | 665,700 | 775,700 | 500,400 | 153,500 | 131,700 | 157,700 | 503,500 | 537,700 | 500,400 | 4,140,600 |
| Cyfanswm – isel | 214,300 | 512,800 | 547,800 | 500,400 | 153,500 | 131,700 | 157,700 | 503,500 | 537,700 | 500,400 | 3,759,800 |

## Costau ac anfanteision heb eu meintioli

**281.** Fel yr amlinellwyd ym mhennod 4 o’r Memorandwm Esboniadol hwn, nid yw manylion yr hyn a fydd yn y Strategaeth IAP Genedlaethol, y canllawiau cysylltiedig a’r cynlluniau IAP wedi’u cynnwys ar wyneb y Bil ei hun. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar gynnwys y Strategaeth IAP Genedlaethol a’r canllawiau. Bydd rhaid i bob un o’r cyrff cyhoeddus rhestredig benderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun. Bydd gan bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig y ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion eu hunain, boed hynny o fewn ardal ddiffiniedig eu hawdurdod lleol neu eu bwrdd iechyd, neu’n fwy cenedlaethol ar gyfer y cyrff cyhoeddus rhestredig hynny sydd â rôl genedlaethol.

**282.** Y strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP fydd y prif ddogfennau a fydd yn pennu sut y mae IAP yn cael ei hybu a’i hwyluso yng Nghymru. Heb wybod manylion llawn yr hyn a fydd yn y dogfennau allweddol hynny, rhaid cyfrif y costau a briodolir i'w gweithredu fel rhai heb eu meintioli.

## Manteision

**283.** Mae manteision y Bil wedi'u nodi'n fanylach drwy gydol y Memorandwm Esboniadol, yn benodol ym Mhennod 3, sy'n nodi pwrpas ac effaith fwriadedig y Bil.

**284.** Mae'r gwaith ymchwil y cyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol hwn a'r cyfraniadau gan bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad i gyd yn cydnabod y rhan bwysig y mae IAP yn ei chwarae ym mywydau pobl Fyddar. Ac eto, yn rhy aml, nid yw pobl Fyddar yn gallu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus hanfodol am nad ydynt yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf, sef IAP.

**285.** Mae hyn yn golygu na allant arfer eu hawliau, ac mae hefyd yn golygu eu bod o dan anfantais aruthrol, boed hynny yn y ffordd y maent yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, eu cyrhaeddiad addysgol, eu cyfleoedd cyflogaeth neu eu gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

**286.** Bydd y Bil yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy gyflwyno gofyniad cyfreithiol penodol i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru, a fydd yn sicrhau mwy o degwch i arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru. Mae’r gwaith ymgynghori ar y cynigion sy’n sail i’r Bil yn dangos cefnogaeth gref iddynt a chytundeb bod angen y ddeddfwriaeth hon.

**287.** Felly, bydd y Bil yn arwain at fanteision sylweddol i’r gymuned Fyddar ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac ar draws pob rhan o Gymru. Fodd bynnag,

fel y nodir uchod, gan nad yw manylion a chynnwys y strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP yn hysbys ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl asesu effaith y Bil yn llawn a beth fydd ei fanteision llawn.

## Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

**288.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i lywio gan sgyrsiau ffurfiol ac amrywiaeth o drafodaethau anffurfiol gyda grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Gwnaed tybiaethau ychwanegol yn dilyn cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a hefyd o ddulliau a thybiaethau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn asesiadau effaith diweddar. Drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir tybiaethau ynghylch sut y cyfrifwyd costau.

# 9. Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau â pholisïau IAP Llywodraeth Cymru

Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Nid yw'n bosibl meintoli'r gwariant presennol o ran gweinyddiaeth fewnol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu, gweithredu ac asesu polisïau presennol mewn perthynas ag IAP. Yn yr un modd, nid yw'n bosibl amcangyfrif y gwariant mewnol cyfredol gan unrhyw un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig ar eu polisïau mewn perthynas ag IAP.

**289.** Mae galw mawr wedi bod am yr angen i wella mynediad at bob gwasanaeth cyhoeddus i bobl Fyddar ers blynyddoedd lawer. Ystyrir bod y polisïau presennol sydd ar waith ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas ag IAP yn annigonol, ac nad ydynt yn gwneud digon i gael gwared ar y rhwystrau y mae pobl Fyddar yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd a gofal cymdeithasol, addysg neu drafnidiaeth.

**290.** Mae'r gwaith ymgynghori ar y cynigion sy'n sail i'r Bil yn dangos cefnogaeth gref iddynt a chytundeb bod angen deddfwriaeth i helpu i fynd i'r afael â'r diffygion y mae pobl Fyddar yn eu hwynebu. Mae Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch pam y mae angen y Bil a manteision y Bil hwnnw. Fel y nodwyd yn gynharach, mae angen y Bil am dri phrif reswm:

- Mae seneddau eraill yn y DU wedi gosod cynseiliau ar gyfer rhoi dyletswyddau ar y llywodraeth a chyrff rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd y Bil yn sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â Senedd y DU a Senedd yr Alban. Heb y Bil hwn, bydd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau statudol llawer gwannach, gan roi arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill yn y DU.

- Cydnabod anghenion ieithyddol cymuned IAP a'i hunaniaeth a'i threftadaeth ddiwylliannol. Er bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod unigolion rhag gwahaniaethu, bydd y Bil hwn yn sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o IAP fel iaith yn ei rhinwedd ei hun.

- Ar hyn o bryd, mae arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau wrth geisio defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, bydd y Bil yn sicrhau bod llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**291.** Prif nod y Bil, felly, yw hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. Mae'r Bil yn gwneud hynny drwy osod dyletswyddau amrywiol newydd ar Weinidogion Cymru ac ar gyrff cyhoeddus penodol.

**292.** Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cynnwys gofynion ar gyfer:

- Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio'r ffordd y maent hwy eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a'r ffordd y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud hynny;

- Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;

- Y cyrff cyhoeddus penodol rhestredig yn y Bil i lunio cynlluniau IAP sy'n disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;

- Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o dan ddarpariaethau'r Bil;

- Gweinidogion Cymru i benodi rhywun yn gynghorydd IAP iddynt, ynghyd â phanel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd IAP.

## Camau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag IAP

### Cynllun Hawliau Pobl Anabl

**293.** Fel y nodir ym mharagraffau 131 i 136 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, ynghylch y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, cynhaliodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain archwiliad o ddarpariaeth IAP gan Lywodraeth Cymru yn erbyn fformat Siarter IAP. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, yn enwedig ei Gweithgor Mynediad at Wasanaethau, yn ystyried y canfyddiadau.

**294.** Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Hawliau Pobl Anabl drafft.[221] Mae'r cynllun yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu arwyddwyr IAP ac yn nodi ymrwymiad i "hybu defnyddio'r iaith yng Nghymru, a gwybodaeth am yr iaith ac arbenigedd ynddi". Mae'r Cynllun yn ategu pwrpas y Bil sef hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

### Grŵp Rhanddeiliaid IAP

**295.** Yn dilyn y ddadl yn y Senedd ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig, ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP[222] a fydd yn datblygu argymhellion allweddol i lywio gwaith Llywodraeth Cymru o lunio map llwybrau IAP.

**296.** Bwriad y 'map llwybrau' yw nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso IAP a gwella canlyniadau i gymuned arwyddo IAP fyddar Cymru. Bydd y grŵp yn cynghori ar flaenoriaethau IAP, a bydd yn ystyried ble mae rhwystrau iaith, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau mynediad cyfartal at wybodaeth a gwasanaethau i arwyddwyr IAP byddar ar draws ystod eang o bolisïau ar draws y llywodraeth. Bydd map llwybrau IAP yn gorwedd ochr yn ochr â chynllun hawliau pobl anabl, gan gydnabod IAP gyda'i hunaniaeth ddiwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol unigryw ei hun.

**297.** Nid yw canlyniad llawn gwaith Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, na chanlyniad gwaith Grŵp Rhanddeiliaid IAP, yn hysbys eto. Felly, nid yw'n bosibl dweud ar hyn o bryd pa effaith fydd gan y gwaith hwn ar y gymuned Fyddar yng Nghymru.

[221] Llywodraeth Cymru, Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft: 2025 i 2035 (Mai 2025)
[222] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Iaith Arwyddion Prydain – Diweddariad Polisi (Tachwedd 2024)

## Crynodeb

**298.** Mae’n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith i ddatblygu ‘map llwybrau’ a fydd yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso IAP a gwella canlyniadau i gymuned arwyddo IAP fyddar Cymru. Bydd map llwybrau IAP yn gorwedd ochr yn ochr â chynllun hawliau pobl anabl, gan gydnabod IAP gyda'i hunaniaeth ddiwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol unigryw ei hun.

**299.** Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'n glir pa ganlyniadau a gyflawnir o'r naill gam neu'r llall o'r camau gweithredu hyn.

**300.** Byddai’r opsiwn ‘gwneud dim’ yn arwain at yr effeithiau negyddol a ganlyn:

- Bydd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau statudol llawer gwannach, gan roi arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill yn y DU;
- Dibyniaeth barhaus ar bolisïau cyfredol nad ydynt, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod datblygiad y Bil, yn diwallu anghenion pobl Fyddar yn ddigonol;
- Heb strategaeth IAP genedlaethol, byddai diffyg dull cydlynol a strwythuredig o hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru;
- Ni fyddai unrhyw ddeiliad swydd statudol (h.y. y cynghorydd IAP) i roi cyngor uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ar arfer eu swyddogaethau.

# 10. Opsiwn 2: cyflwyno Bil

**301.** Nodir prif ddibenion y Bil a pham mae ei angen yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol, a cheir crynodeb ohonynt yn Opsiwn 1 uchod. Bydd y Bil IAP yn sefydlu fframwaith y gellir rheoli dull cydlynol a strwythuredig o hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru yn effeithiol oddi tano.

**302.** O dan y Bil, Llywodraeth Cymru fydd yn datblygu Strategaeth IAP Genedlaethol gyda mewnbwn gan gynghorydd IAP a phanel cynorthwyo, a fydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer cynlluniau IAP lleol i'w datblygu gan y cyrff cyhoeddus rhestredig. Nid yw manylion y strategaeth IAP a'r cynlluniau IAP wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Yn hytrach, Gweinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig fydd yn penderfynu ar eu cynnwys. Bydd sut y cânt eu cwblhau yn effeithio ar sut y caiff polisi IAP ei weithredu ar draws cyrff cyhoeddus a'r costau a'r arbedion cysylltiedig yn sgil hynny.

**303.** Er ein bod yn gwybod, yn gyffredinol, mai nod y strategaeth a'r cynlluniau IAP yw hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer swyddogaethau'r cyrff, nid yw'n bosibl mesur costau gweithredu'r strategaeth na'r cynlluniau IAP heb gael syniad clir o gynnwys y dogfennau hynny.

**304.** Yn gyffredinol, mae costau'r Bil yn ymwneud â chostau gweinyddol Llywodraeth Cymru. Bydd yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn cael eu pennu gan faint o fewnbwn ychwanegol sydd ei angen ar ben gwaith polisi a chynllunio Llywodraeth Cymru hyd at y pwynt y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Amcangyfrifwyd y costau hyn yn dilyn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ac ar ôl cymryd cyngor ganddynt. Mae'r cyfrifiadau wedi'u talgrynnu i'r cant o bunnau agosaf.

**305.** Mae costau staff Llywodraeth Cymru wedi'u seilio ar y costau gros cyfartalog diweddaraf ar gyfer bandiau cyflog staff yn ystod 2023-24, fel y nodir yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, gan ddefnyddio blwyddyn 52 wythnos ac wythnos waith o bum niwrnod. Ystyrir bod yr wythnos waith safonol yn 37 awr yr wythnos yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau cyfartalog staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau cyflogi ychwanegol, fel cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol.

**306.** Mae costau staff llywodraeth leol yn seiliedig ar raddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25, gyda chyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau wedi'u hychwanegu. Gwnaed

tybiaeth y bydd cyflog staff sy'n gweithio ar ddyletswyddau gweinyddol mewn byrddau iechyd lleol yn debyg i'r rhai sy'n gweithio ar yr un tasgau mewn llywodraeth leol.

**307.** Mae'r holl gostau a buddion a fesurwyd yn seiliedig ar wybodaeth a data sydd ar gael i'r Aelod sy'n gyfrifol yn y cyfnod cyn cyhoeddi'r ddogfen hon.

**308.** Nid yw'n bosibl amcangyfrif yr adnoddau staffio presennol sydd eu hangen i weinyddu polisi IAP Llywodraeth Cymru er mwyn amcangyfrif costau'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n bosibl cyfrifo sut y gellid ailddyrannu'r adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd nac, felly, unrhyw arbedion gweinyddol i Lywodraeth Cymru a fyddai'n deillio o'r Bil hwn.

## Cynghorydd IAP

**309.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person yn gynghorydd IAP iddynt. Wrth benodi'r cynghorydd IAP, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u bodloni bod y person a benodir i'r rôl honno yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio. Mae'n gwbl hanfodol, er mwyn gallu ymgymryd â rôl fel cynghorydd IAP, fod y person hwnnw yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r gymuned Fyddar.

**310.** Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â phenodi Cynghorydd IAP. Mae'r costau'n ymwneud yn bennaf â chyflog y Cynghorydd IAP ond bydd costau trosiannol hefyd yn gysylltiedig â recriwtio i'r swydd.

**311.** Fel amcangyfrif gorau, rydym wedi defnyddio costau ymarfer recriwtio tebyg mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru: y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ('y Bil Trais a Cham-drin Domestig').[223] Roedd y Bil hwn yn cynnwys y gofyniad i benodi Cynghorydd Gweinidogol, ac amcangyfrifwyd mai £11,000 fyddai'r gost recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys cost hysbysebu'r swydd yn y wasg leol a chenedlaethol, penodi Asesydd Annibynnol i oruchwylio'r broses, sefydlu panel dethol, darparu cefnogaeth weinyddol drwy gydol y broses a threuliau ymgeiswyr.

**312.** Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u bodloni bod y person a benodir yn gynghorydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio. O ystyried y gofyniad hwn, bydd y broses recriwtio yn cynnwys cyfieithydd IAP, gyda'r costau cysylltiedig yn cynnwys gwasanaethau IAP am ddau ddiwrnod. Mae'r

[223] Pasiwyd y Bil Trais a Cham-drin Domestig wedi hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd ym mis Mawrth 2015. Mae'r costau yn y Memorandwm Esboniadol hwn yn seiliedig ar y rhai a nodir ar gyfer y Bil Trais a Cham-drin Domestig fel y'i cyflwynwyd.

cyfraddau dyddiol a ddefnyddir yn seiliedig ar ddyfynbrisiau, a ddarparwyd i dîm Bil yr Aelod, am ddarparu gwasanaethau IAP (£315 am ddiwrnod cyfan a £195 am hanner diwrnod, ynghyd â TAW). Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau recriwtio, sy'n gostau untro neu drosiannol, yw £15,800.

**313.** Mae Llywodraeth Cymru am ddenu ymgeiswyr sydd â'r profiad a'r arbenigedd i roi cyngor gwybodus i Weinidogion Cymru i'w galluogi i osod yr agenda a datblygu polisi yn y maes hwn. Bydd angen i'r Cynghorydd IAP weithio'n hyderus gyda Gweinidogion ac uwch-swyddogion ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Mabwysiadwyd dull tebyg i'r amcangyfrifon o'r costau ar gyfer y Bil Trais a Cham-drin Domestig. Fel gyda'r rôl hon, nid swydd gwasanaeth sifil oedd y Cynghorydd Gweinidogol a oedd wedi'i gynnwys yn y Bil Trais a Cham-drin Domestig, ond mae angen i gyflog y swydd adlewyrchu gofynion y rôl. Gosododd gyflog y Cynghorydd Gweinidogol ym Mand Gweithredol 1 (Gradd 6) graddfa gyflog Llywodraeth Cymru, gyda chostau ychwanegol (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol, pensiwn, costau TG a chostau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau a dyletswyddau).

**314.** Rhagwelir y lleolir rôl y Cynghorydd IAP yn un o adeiladau Llywodraeth Cymru, ac felly ni fydd angen unrhyw gyfleusterau swyddfa ychwanegol, ac mae'r gefnogaeth weinyddol a ddarperir gan staff Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrifon o'r costau ar gyfer gofynion eraill y Bil drafft. Felly, ni fydd angen unrhyw adnoddau pellach.

**315.** Mae amcangyfrifon y Bil Trais a Cham-drin Domestig wedi'u huwchraddio yn ôl chwyddiant rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2025 i gyfrifo'r costau a nodir yn Nhabl 5.

Tabl 5: Cost y Cynghorydd IAP fesul blwyddyn (£)

| Cynghorydd | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 | 111,600 |
| Recriwtio | 15,800 | | | | |
| **Cyfanswm** | **127,400** | **111,600** | **111,600** | **111,600** | **111,600** |

**316.** Tybir y bydd y costau cylchol yn parhau am flynyddoedd 6 i 10, fel yn y tablau crynhoi cyffredinol. Nid yw'r Bil yn pennu tymor swydd ar gyfer y Cynghorydd IAP.

## Panel cynorthwyo IAP

**317.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi pobl i fod yn aelodau o banel i gynorthwyo'r cynghorydd IAP.

**318.** Bydd aelodau'r panel yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol. Mae'r Atodlen hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff Gweinidogion Cymru dalu'r cynghorydd ac aelodau'r panel ac yn rhoi'r disgresiwn iddynt ddarparu cyfleusterau i'r cynghorydd os ydynt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol, ac i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

**319.** Llywodraeth Cymru a'r cynghorydd IAP fydd yn penderfynu ar faint y panel cynorthwyo IAP. Fodd bynnag, mae gan fwrdd cynghori nodweddiadol a benodir yn gyhoeddus, y bydd strwythur y panel hwn yn cyfateb yn agos iddo, chwech i wyth aelod. Fel enghraifft arall, mae Grŵp Cynghori ar Weithredu IAP Llywodraeth yr Alban yn rhestru chwe sefydliad, tra bod gan Fwrdd Cynghori IAP y DU 17 o aelodau. Nid yw'r naill na'r llall o'r grwpiau hyn yn cael eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol, fel yn achos y Bil hwn.

**320.** Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio grwpiau IAP, sydd naill ai eisoes yn bodoli neu ar y gweill, i ffurfio aelodaeth y panel cynorthwyo IAP. Bydd hyn yn helpu i leihau costau sefydlu'r panel. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y byddai Llywodraeth Cymru, yn ystod 2025, yn sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid IAP. Bwriad y grŵp rhanddeiliaid hwn yw datblygu argymhellion allweddol i lywio gwaith Llywodraeth Cymru i gynhyrchu map llwybrau polisi IAP.

**321.** Mae costau recriwtio aelodau'r panel cynorthwyo IAP wedi'u cynyddu o gymharu â'r broses ar gyfer y Cynghorydd IAP. Er y bydd y costau yr un fath o ran cynhyrchu deunyddiau a chyhoeddusrwydd, bydd costau prosesu ychwanegol yn sgil y ffaith y bydd nifer o benodeion.

**322.** O ran costau cefnogi'r panel cynorthwyo IAP, ystyriwyd y costau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil Trais a Cham-drin Domestig. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac roedd yr aelodau'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Felly, nid oedd unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â chynnal y Grŵp. Roedd costau ysgrifenyddol blynyddol ychwanegol i gefnogi'r Bwrdd, sef £1,200, wedi'u cynnwys. Nid yw Grŵp Gorchwyl a Gorffen IAP Llywodraeth Cymru yn barhaol ac nid yw manylion y grŵp rhanddeiliaid IAP arfaethedig ar gael eto,

felly nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau cyfredol, sef costau’r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Felly, nid yw costau cyfredol cefnogi grwpiau rhanddeiliaid IAP Llywodraeth Cymru wedi'u tynnu i ffwrdd o amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**323.** Tybir y bydd y panel cynorthwyo IAP, fel arfer, yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf, rydym wedi tybio y bydd yn cyfarfod dair gwaith gan y bydd yn cymryd amser i benodi'r Cynghorydd IAP cyn recriwtio Aelodau i'r panel cynorthwyo IAP. Ym mlynyddoedd dau a thri, bydd y panel cynorthwyo IAP yn cyfarfod yn amlach, a thybir y bydd hynny'n digwydd chwe gwaith y flwyddyn, gan adlewyrchu ei lwyth gwaith disgwyliedig dros y cyfnod hwnnw.

**324.** Yn ogystal â'r tybiaethau ynghylch nifer y cyfarfodydd, mae'r amcangyfrifon o’r costau’n adlewyrchu tybiaethau eraill ynghylch costau'r panel cynorthwyo IAP. Tybir y bydd wyth aelod o’r grŵp (ar gyfradd ddyddiol o £112 i'r cadeirydd a £92 i weddill y grŵp, yn unol â chanllawiau Gweithio gyda Chyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, gyda mewnbwn o 2 ddiwrnod fesul cyfarfod i gynnwys gwaith paratoi). Tybiwyd y byddai cyfarfodydd yn debygol o fod yn hybrid, ac mai £50 fyddai’r treuliau cyfartalog fesul person ar gyfer pob cyfarfod. Bydd angen gwasanaethau IAP ar gyfer pob cyfarfod, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn cyfateb i bedwar hanner diwrnod, sef dau arwyddwr IAP a dau balanteipydd, ynghyd ag un diwrnod i ddarparu deunyddiau yn IAP. O ran cymorth gweinyddol, tybiwyd y byddai angen 10 diwrnod o amser staff ar raddfa Swyddog Gweithredol ac un diwrnod ar raddfa 7 ar gyfer pob cyfarfod, a Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am hynny. Tybir mai costau cyfle fydd y rhain.

Tabl 6: Cost y panel cynorthwyo IAP (£)

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Cynorthwyo | 8,600 | 17,300 | 17,300 | 11,500 | 11,500 |
| Costau Recriwtio | 30,900 | | | | |
| Amser Staff | 6,400 | 12,900 | 12,900 | 8,600 | 8,600 |
| **Cyfanswm** | **45,900** | **30,200** | **30,200** | **20,100** | **20,100** |

**325.** Tybir y bydd costau sefydlog yn parhau ar yr un lefel ag ym mlwyddyn 5 ar gyfer blynyddoedd 6 i 10, fel y dangosir yn y tablau crynhoi cyffredinol. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chylchdroi aelodau'r panel cynorthwyo IAP gan fod hyn yn cael ei ystyried yn fusnes fel arfer.

## Datblygu'r Strategaeth Genedlaethol a'r canllawiau cysylltiedig

**326.** Mae adran 3 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol. Mae'r strategaeth honno'n gwneud dau brif beth:

- Yn gyntaf, rhaid i'r strategaeth IAP ddisgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau.
- Yn ail, rhaid i'r strategaeth IAP ddisgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau. Mae adran 9 o'r Bil yn rhestru'r cyrff cyhoeddus hynny (y cyfeirir atynt yn y Bil fel "cyrff cyhoeddus rhestredig").

**327.** Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth IAP genedlaethol gyntaf o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y mae'r Ddeddf hon yn dod i rym. Cyn cyhoeddi'r strategaeth IAP, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP yn gyntaf, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**328.** Rhaid adolygu'r strategaeth IAP o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 6 blynedd o'r dyddiad y cafodd y strategaeth ei chyhoeddi gyntaf, er y gellir ei hadolygu ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod hwnnw. Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn unrhyw adolygiad, yn dymuno diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt hefyd gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ohoni.

**329.** Ochr yn ochr â'r strategaeth IAP a lunnir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, mae adran 4 o'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus rhestredig ar sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau. Fel yn achos y strategaeth IAP, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar fanylion y canllawiau.

**330.** Bydd y Strategaeth yn adeiladu ar waith sydd ar y gweill, fel y gwaith a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 i lywio datblygiad "map llwybrau" IAP Llywodraeth Cymru. Er ei bod yn debygol yn ymarferol y bydd yn tynnu ar waith Grŵp Rhanddeiliaid IAP, nid yw'n hysbys i ba raddau y bydd hyn yn wir. Nid yw'r costau sy'n ymwneud â'r Grŵp Rhanddeiliaid IAP yn hysbys ychwaith. Felly, nid yw'r amcangyfrifon yn tybio mai dyma'r achos ac maent yn adlewyrchu amser staff i ymgynghori a datblygu Strategaeth Genedlaethol a chanllawiau cysylltiedig yn ystod y 18 mis cyntaf.

**331.** Bydd Llywodraeth Cymru yn elwa ar gyngor gan y cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo IAP. O ran yr amser gweinyddol, rydym wedi ystyried y mewnbwn ychwanegol a fydd yn ofynnol gan staff gradd uwch o ystyried cymhlethdodau trefnu, paratoi a dadansoddi ymgynghoriadau yn y maes hwn.

**332.** Yn dilyn cyfarfodydd â rhanddeiliaid ac o ystyried y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn tybio ac yn cynnwys amser gweinyddol i lunio canllawiau ochr yn ochr â'r strategaeth IAP genedlaethol. Bydd hyn o gymorth o ran deall y strategaeth a'r gofynion ar sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n dod o dan y Bil.

**333.** Yn gyffredinol, mae’r costau yn ymwneud â chostau gweinyddol Llywodraeth Cymru. Bydd yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn cael eu pennu gan faint o fewnbwn ychwanegol sydd ei angen ar ben gwaith polisi a chynllunio Llywodraeth Cymru hyd at y pwynt y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Amcangyfrifwyd y costau hyn gan ddefnyddio cyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru i addasu dulliau mewn deddfwriaeth berthnasol.

**334.** Er mwyn sicrhau'r amcangyfrif gorau posibl ar gyfer y costau gweinyddol, rhoddwyd ystyriaeth i gostau llunio strategaeth genedlaethol fel y'u nodir mewn Biliau a gyflwynwyd yng Nghymru a'r Alban. Roedd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cynnwys £11,100 o gostau gweinyddol i lunio strategaeth genedlaethol, ac roedd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cynnwys £37,200 i lunio canllawiau statudol ac atodol.[224] Amcangyfrifodd Bil Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) mai’r costau gweinyddol i Lywodraeth yr Alban yn sgil llunio, ymgynghori a chyhoeddi Cynllun Cenedlaethol cychwynnol fyddai rhwng £40,000 a £80,000. Amcangyfrifodd y Bil Bwyd (Cymru) mai cost darparu strategaeth genedlaethol fyddai £41,920.

**335.** Mae enghreifftiau lle mae costau cynhyrchu canllawiau wedi'u nodi mewn asesiadau effaith, sydd hefyd wedi'u defnyddio i lywio'r amcangyfrifon hyn. Amcangyfrifwyd yn y Bil Bwyd (Cymru) mai £64,350 fyddai’r costau cysylltiedig. Roedd y Bil hwnnw yn cynnwys cwmpas ehangach i gynhyrchu ac arwain ar gynghori ar sut i lunio polisi, gosod nodau bwyd, darparu canllawiau a deunyddiau hyfforddi.

[224] Pasiwyd y Bil Trais a Cham-drin Domestig a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol wedyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru / y Senedd. Mae'r costau yn y Memorandwm Esboniadol hwn yn seiliedig ar y rhai a nodir ar gyfer y Biliau hynny fel y'u cyflwynwyd.

**336.** Mae'r costau'n ymwneud ag amser staff Llywodraeth Cymru, y tybir y byddant yn rhan o'r costau cyfle. Gan ystyried yr amcangyfrifon uchod a oedd yn cyd-fynd â deddfwriaeth flaenorol a chan ystyried gofynion y Bil hwn ac yn dilyn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru, mae'r rhain yn cynnwys cost dau ddiwrnod o waith gan Ddirprwy Gyfarwyddwr i gymeradwyo'r Strategaeth a'r canllawiau, 80 diwrnod o wasanaeth gan weithiwr sifil Gradd 7, 60 diwrnod o waith gan uwch-swyddog polisi ar radd Uwch-swyddog Gweithredol a 160 diwrnod o waith gan Swyddog Gweithredol Uwch. Mae cyngor gan y Cynghorydd IAP wedi'i gynnwys ac wedi'i nodi ar wahân.

**337.** Mae’r costau ymgynghori wedi'u cymryd o'r Bil Trais a Cham-drin Domestig, a oedd yn cynnwys £10,050. Mae hyn wedi cael ei uwchraddio yn ôl chwyddiant. Er y disgwylir cael llai o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn nag ar gyfer y Bil Trais a Cham-drin Domestig, rydym yn asesu bod y gost amcangyfrifedig yn rhesymol ar gyfer y Bil hwn. Y rheswm dros hyn yw cymhlethdodau posibl dadansoddi ymatebion yn IAP. Hefyd, mae costau ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer gwasanaethau IAP, gyda chost dau arwyddwr IAP ac un cofnodwr am hanner diwrnod wedi'u cynnwys ar gyfer digwyddiad ymgynghori, dwy set o ddeunyddiau IAP cyn yr ymgynghoriad, yn seiliedig ar ddwy ddogfen o tua 3,000 o eiriau, un ar gyfer y strategaeth ac un arall ar gyfer y canllawiau. Mae pob allbwn 3,000 o eiriau yn cyfateb i un diwrnod o gyfieithu IAP, un diwrnod o ffilmio ‘chromakey’, un diwrnod o olygu a dwy ran o dair o ddiwrnod ar gyfer is-deitlau Cymraeg a Saesneg.

**338.** Mae costau cyhoeddi yn seiliedig ar gost debyg a gafodd ei chynnwys yn y Bil Bwyd (Cymru) ar gyfer strategaeth genedlaethol (Tabl 7.1), sef £1,000 fesul dogfen a gyhoeddir, wedi'i huwchraddio yn ôl chwyddiant. Mae cost cyfieithu dwy ddogfen o tua 4,500 o eiriau yr un wedi'i chyfrifo fel tua £70 fesul 1,000 o eiriau. Nid yw TAW wedi'i gynnwys ar gyfer y gost hon oherwydd tybir y bydd yn gost cyfle, ac y bydd y gwaith yn cael ei wneud gan staff yn Llywodraeth Cymru. Byddai'n arfer da cynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r Strategaeth, tua 2,000 o eiriau. Cost cyhoeddi fyddai tua £500 yn ychwanegol ynghyd â chyfieithu.

**339.** Byddai'r Strategaeth a'r canllawiau'n cael eu darparu yn IAP. Mae costau wedi'u cynnwys yn seiliedig ar dybiaethau cost ar gyfer allbynnau IAP fel y'u defnyddir mewn mannau eraill. Byddai angen cyfieithu pob dogfen 4,500 o eiriau i IAP, diwrnod a hanner, ffilmio ‘chromakey’, diwrnod a hanner, golygu, diwrnod a hanner, is-deitlau Cymraeg a Saesneg, un diwrnod. Byddai fersiwn hawdd ei darllen o'r strategaeth yn gofyn am gyfieithu i IAP, un diwrnod, ffilmio ‘chromakey’, un diwrnod, golygu, un diwrnod, is-deitlau Cymraeg a Saesneg, hanner diwrnod.

Tabl 7: Costau cynhyrchu'r Strategaeth IAP Genedlaethol a'r canllawiau (£)

| | Cost CALl | Mewnbwn Amser - Dyddiau | Cost |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 124,020 | 2 | 1,100 |
| Cynghorydd IAP | - | - | - |
| Gradd 7 | 80,085 | 80 | 29,100 |
| Uwch-swyddog Polisi | 62,156 | 60 | 17,000 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 49,243 | 160 | 35,800 |
| Cyfieithu | | | 800 |
| Cyhoeddi | | | 2,600 |
| Ymgynghoriad | | | 14,000 |
| Allbwn IAP | | | 5,700 |
| Cyfanswm | | | 106,100 |

## Trefniadau adrodd Llywodraeth Cymru

**340.** Bydd rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad i asesu'r cynnydd a wneir o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o leiaf unwaith bob 3 blynedd ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi gyntaf. Wrth lunio'r adroddiad hwn, tybir y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Cynghorydd IAP ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.

**341.** O ran yr amser gweinyddol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad, rydym wedi ystyried y mewnbwn ychwanegol gan staff gradd uwch, sy'n adlewyrchu cymhlethdodau IAP o ran trefnu, llunio a dadansoddi ymgynghoriadau yn y maes hwn.

**342.** Ar gyfer ffynonellau eraill o gostau gweinyddol, rhoddwyd ystyriaeth i amcangyfrifon o ran gweithgarwch cymharol. Yn ôl y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael, amcangyfrifwyd mai £22,000 fyddai cost prosesu a dadansoddi adroddiadau o dan y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Yn ôl Bil IAP Llywodraeth yr Alban, amcangyfrifwyd mai rhwng £40,000 a £60,000

fyddai costau datblygu a chyhoeddi adolygiad perfformiad. Mae hyn yn cynnwys cost gweithgarwch monitro, cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad, y mae ei gwmpas yn cynnwys tair gwaith a hanner yn fwy o gyrff rhestredig (116), o gymharu â'r 34 a restrir yn y Bil drafft hwn. Ni chafwyd amcangyfrif ar wahân yn y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ar gyfer dyletswyddau adrodd.

**343.** Bydd yr amser staff amcangyfrifedig y bydd ei angen ar gyfer adrodd yn cyfateb i gostau cyfle i Lywodraeth Cymru. Gan ystyried yr amcangyfrifon uchod a oedd yn cyd-fynd â deddfwriaeth flaenorol a chan ystyried gofynion y Bil hwn ac yn dilyn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru, bydd hyn yn cynnwys cost un diwrnod o waith gan Ddirprwy Gyfarwyddwr i gymeradwyo'r adroddiad, 20 diwrnod o wasanaeth gan weithiwr sifil Gradd 7, 20 diwrnod o waith gan uwch-swyddog polisi ar radd Uwch-swyddog Gweithredol a 40 diwrnod o waith gan Swyddog Gweithredol Uwch. Mae cyngor gan y Cynghorydd IAP wedi'i gostio ar wahân.

**344.** Mae costau cyhoeddi yn seiliedig ar gost debyg a gafodd ei chynnwys yn y Bil Bwyd (Cymru) ar gyfer strategaeth genedlaethol (Tabl 7.1), sef £1,000 wedi'i huwchraddio yn ôl chwyddiant. Mae costau cyfieithu yn seiliedig ar gyfieithu dogfen o tua 6,000 o eiriau am tua £70 fesul 1,000 o eiriau. Ni ychwanegir TAW gan y byddai disgwyl i hyn gael ei wneud gan staff Llywodraeth Cymru. Mae'r tybiaethau o ran cost ar gyfer allbynnau IAP yn cyfateb i'r hyn a ddefnyddir mewn mannau eraill. Byddai angen cyfieithu dogfen 6,000 i IAP, dau ddiwrnod, ffilmio 'chromakey', dau ddiwrnod, golygu, dau ddiwrnod, is-deitlau Cymraeg a Saesneg, diwrnod a hanner, costau'n cynnwys TAW.

Tabl 8: Cost adrodd ar IAP i Lywodraeth Cymru (£) – i'w wneud bob tair blynedd

| | Cost CALl | Mewnbwn Amser - Dyddiau | Cost |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 124,020 | 1 | 600 |
| Cynghorydd IAP | - | - | - |
| Gradd 7 | 80,085 | 20 | 7,300 |
| Uwch-swyddog Polisi | 62,156 | 20 | 5,700 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 49,243 | 40 | 9,000 |
| Cyfieithu | | | 500 |
| Cyhoeddi | | | 1,300 |

| | Cost CALl | Mewnbwn Amser - Dyddiau | Cost |
|---|---|---|---|
| Allbwn IAP | | | 2,900 |
| Cyfanswm | | | 27,300 |

**345.** Mae dadl y byddai faint o adnoddau a ddefnyddir i adrodd ar gynlluniau yn lleihau yn y blynyddoedd dilynol, gan y byddai gweithdrefn safonol wedi'i sefydlu ar gyfer adrodd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cymryd data o wahanol ffynonellau oherwydd efallai y bydd adroddiadau gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys drwy fecanweithiau adrodd presennol. Felly, tybir y bydd costau ar gyfer yr ail gylch adrodd yn parhau ar yr un gyfradd ag yn y cylch adrodd cyntaf.

## Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig

**346.** Mae adran 5 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun IAP. Rhaid i'r cynlluniau IAP hynny:

- ddisgrifio sut y mae'r corff yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau;
- disgrifio sut y mae'r corff hwnnw'n bwriadu dilyn y canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 o'r Bil; a
- chynnwys unrhyw wybodaeth arall y caiff Gweinidogion Cymru ei nodi mewn rheoliadau.

**347.** Mae'r 34 corff cyhoeddus rhestredig yn cynnwys y 22 awdurdod lleol, 7 Bwrdd Iechyd Lleol, 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig (Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)).

**348.** Fel gyda'r Strategaeth IAP Genedlaethol, nid yw manylion yr hyn a ddylai fod yn y cynlluniau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Mater i bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig fydd penderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun, a'r unig ofyniad yw bod rhaid iddo gynnwys y manylion a nodir uchod. Y cyrff cyhoeddus rhestredig eu hunain fydd â'r ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion, boed hynny o fewn ardal ddiffiniedig eu hawdurdod lleol neu eu bwrdd iechyd, neu'n fwy cenedlaethol ar gyfer y cyrff cyhoeddus rhestredig hynny sydd â rôl genedlaethol.

**349.** Er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun IAP, nid yw'r Bil yn atal cyrff cyhoeddus rhag cydweithio i lunio eu cynlluniau. Mae yna lawer o feysydd lle gwyddom fod cyrff cyhoeddus yn

cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. Pe bai'n cael ei ystyried yn briodol, gellid mabwysiadu'r dull hwnnw wrth lunio'r cynlluniau IAP.

**350.** Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau IAP a lunnir gan y cyrff cyhoeddus rhestredig o fewn 12 mis i'r diwrnod y cyhoeddir y Strategaeth IAP Genedlaethol. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig hefyd adolygu eu cynllun os cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru neu os bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r Strategaeth IAP Genedlaethol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo corff cyhoeddus rhestredig i ddiwygio ei gynllun, rhaid nodi'r rhesymau dros roi'r cyfarwyddyd hwnnw. Os bydd y corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu diwygio ei gynllun yn dilyn adolygiad, rhaid iddo gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**351.** Cyn cyhoeddi ei gynllun neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohono, rhaid i'r corff cyhoeddus rhestredig ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Rhaid i'r corff cyhoeddus rhestredig hefyd anfon unrhyw gynllun IAP y mae wedi'i lunio a'i gyhoeddi at Weinidogion Cymru. Fel yn achos y strategaeth a'r canllawiau IAP, rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig hefyd sicrhau bod eu cynlluniau IAP ar gael yn IAP.

**352.** Bydd cost cynhyrchu cynlluniau awdurdodau cyhoeddus yn cynnwys amser staff i ddatblygu ac ymgynghori ar gynllun drafft, yn ogystal â chyhoeddi a dosbarthu'r cynllun terfynol. Bydd costau cyhoeddi yn amrywio yn dibynnu ar y math o gyhoeddiad a ddewisir. Bach iawn yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi ar-lein. Mae gofyniad i gyhoeddi cynlluniau ar fformat IAP.

**353.** Bydd y costau i gyrff cyhoeddus rhestredig unigol gynhyrchu a chyhoeddi cynllun hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu a'u math o sefydliad. Y bwriad yw y bydd awdurdodau cyhoeddus rhestredig yn elwa ar gydweithio o ran cynllunio ac ymgynghori ar gynlluniau. Bydd y canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru yn bwysig o ran helpu i hwyluso'r cynllunio gwell hwn. O ystyried nifer gyfyngedig y cyrff cynrychioliadol a nifer yr ymgynghoriadau a fyddai'n digwydd ar yr un pryd ar gynlluniau, byddai'n aneffeithlon ac yn ddryslyd i randdeiliaid pe na bai awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn cydweithio, yn enwedig lle maent yn gwasanaethu'r un ardaloedd a phoblogaethau.

**354.** Rhoddir ystod costau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus rhestredig, gan neilltuo adnoddau amser i staff ar sail graddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25. Tybiwyd y bydd gan sefydliadau'r GIG yr un mewnbwn adnoddau ac y byddant yn

defnyddio staff ar raddfeydd cyflog cyfatebol. Mae'r ffigur cost uchel yn tybio y bydd angen 20 diwrnod o aelod staff pwynt 48, 40 diwrnod o bwynt 40 a 40 diwrnod o bwynt 25 ar bob sefydliad. Mae'r tybiaethau hyn wedi'u cyfrifo er mwyn cysondeb â'r amcangyfrifon a ddarperir ym Mil Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) a gofynion adrodd yn y Bil Bwyd (Cymru). Tybiwyd bod pob corff rhestredig yn cynhyrchu cynllun a fersiwn IAP.

**355.** Mae costau ymgynghori yn cynnwys cyfieithu deunyddiau i IAP, ac yn ogystal â hyn mae costau IAP o hanner diwrnod ar gyfer dau arwyddwr IAP ac un cofnodwr, a gyfrifir i fod yn £3,259 fesul sefydliad rhestredig. Costau cyhoeddi yw £500 fesul sefydliad rhestredig, wedi'u huwchraddio yn ôl chwyddiant. Mae'r amcangyfrifon yn tybio mai tua 2,000 o eiriau o hyd fydd y cynlluniau ac y bydd angen eu cyfieithu i'r Gymraeg ac i IAP. Mae'r olaf yn gofyn am un diwrnod o gyfieithu IAP, un diwrnod o ffilmio ‘chromakey’, hanner diwrnod o olygu a hanner diwrnod o is-deitlau Cymraeg a Saesneg. Fel enghraifft, tua 2,000 o eiriau oedd cynnwys Cynllun Lleol IAP Cyngor Swydd Aberdeen 2018-24.

**356.** Mae'r ystod uchel o gostau yn tybio bod y costau hyn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus rhestredig. Mae ystod is o gostau wedi'i chynnwys, lle mae costau staff yn caniatáu mwy o amrywiad o ran maint y corff, yn gysylltiedig â phrofiad ym Mil Iaith Arwyddion Prydain (yr Alban) a chydag awdurdodau cyhoeddus yn cydweithio ar eu hymgynghoriad, sy'n golygu bod 11 o ddigwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal, yn hytrach na 34. Dim ond ar y gost o ran amser staff y mae hyn yn effeithio gan y bydd gofyn i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi ei gynllun ei hun, er y gallent fod wedi cydweithio ar y gwaith ymgynghori.

Tabl 9: Cost cynlluniau IAP gan gyrff cyhoeddus rhestredig (£)

| Cyrff Cyhoeddus Rhestredig | Costau staff | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Cyfieithu | IAP | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | 917,500 | 110,800 | 18,000 | 4,800 | 41,600 | 1,092,700 |
| Ystod Is | 611,700 | 35,800 | 18,000 | 4,800 | 41,600 | 711,900 |

**357.** Mae’n ofynnol i gyrff rhestredig adolygu cynlluniau o fewn 12 mis i gyhoeddi unrhyw strategaeth IAP genedlaethol ddiwygiedig gan Weinidogion Cymru. Amcangyfrifir y bydd costau diwygio cynlluniau ar gyfer cyrff rhestredig sy'n penderfynu diweddaru eu cynlluniau yn dilyn yr adolygiad yr un fath â'r ystod is a amcangyfrifwyd yn flaenorol yn yr adran hon. Tybir y bydd y costau hyn yn gostwng yn ystod blynyddoedd 8 a 9.

**358.** Nid yw cost gweithredu'r cynlluniau wedi'i chynnwys yn yr asesiad effaith hwn. Bydd hyn yn dibynnu ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn y strategaeth IAP genedlaethol, a fydd yn cael ei chynhyrchu gan Weinidogion Cymru, gan adeiladu ar gynlluniau a darpariaeth gyfredol gyda chyngor gan y cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo IAP, ac wedi'i lywio gan ymgynghoriad cyhoeddus.

## Adrodd ar gynlluniau cyrff rhestredig

**359.** Mae'n ofynnol i gyrff rhestredig lunio a chyhoeddi adroddiad sy'n disgrifio'r hyn y maent wedi'i wneud i weithredu eu cynlluniau a pham nad ydynt o bosibl wedi gweithredu elfennau o'u cynlluniau.

**360.** Tybiwyd y bydd hyn yn cymryd 11 diwrnod i aelod o staff ar bwynt 48 o raddfeydd y Cyd-gyngor Cenedlaethol, 11 diwrnod ar bwynt 40 ac 11 diwrnod ar bwynt 25. Yn seiliedig ar enghraifft o adroddiad awdurdod lleol mawr yn yr Alban, mae'r amcangyfrifon o'r costau IAP wedi'u seilio ar adroddiad o hyd at 2,000 o eiriau. Tybiwyd y bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefannau'r cyrff rhestredig.

Tabl 10: Cost adrodd ar gynlluniau IAP i gyrff cyhoeddus rhestredig

| Cyrff Cyhoeddus Rhestredig | Costau staff |
|---|---:|
| Blwyddyn 4 a thu hwnt | 316,800 |
| Costau cyhoeddi IAP | 46,400 |
| Cyfanswm | 363,200 |

## Manteision Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

**361.** Nid yw'n bosibl mesur manteision y Bil oherwydd bydd y rhain yn dibynnu ar gynnwys y strategaeth IAP genedlaethol a'r cynlluniau IAP – ynghyd â sut y cânt eu gweithredu ledled Cymru. Fodd bynnag, bydd manteision ymarferol y Bil yn sylweddol. Nodir y manteision yn fanylach ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol.

# 11. Asesiadau Effaith Penodol

## A) Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder (Rheol Sefydlog 26.6 (xii))

**362.** Lluniwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder hwn yn unol ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 26.6(xii).

**363.** Nid yw Deddf 2006 na'r Rheolau Sefydlog yn nodi'r hyn y mae rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ei gynnwys, na'i fformat, dim ond ei bod yn ofyniad bod Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn cael ei gynnal. Wrth ystyried manylion yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Ddeddf hon, rwyf wedi ystyried yn fanwl ganllawiau profion effaith cyfiawnder y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ynghyd â'r ffurflen brawf berthnasol. Rwyf hefyd wedi ystyried canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.

**364.** Er bod y ddwy set o ganllawiau wedi'u hanelu'n bennaf at Adrannau'r Llywodraeth, maent yn gyfeiriad da o ran sut i fynd i'r afael â'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Ddeddf hon.

**365.** Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn nodi dau gwestiwn allweddol y mae rhaid eu hystyried wrth gadarnhau a oes rhaid gwneud Prawf Effaith ar Gyfiawnder llawn. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi:

> *"Do I need to complete a JIT?*
>
> *A JIT needs to be completed for all new policy proposals that could potentially have an impact on any aspect of the justice system. Even if the impacts are expected to be minimal, this must be supported by evidence and agreed between MoJ and the policy-owning department via the JIT process.*
>
> *The key questions that policy-makers should ask themselves are:*
>
> *· Is it possible that the policy will increase or decrease the volume of cases going through the courts or tribunals? and/or*
>
> *· Will the policy change the way that cases are dealt with by the justice system?*

> *If the answer to either question is yes, there will be a justice impact however small the change in volume or process might be.”*

**366.** Rwyf wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion a nodir yn Neddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar y system gyfiawnder, gan gynnwys ar:

a. y llysoedd (troseddol a sifil);

b. tribiwnlysoedd heb eu datganoli;

c. tribiwnlysoedd datganoledig;

d. cymorth cyfreithiol;

e. y farnwriaeth;

f. cyrff erlyn; ac

g. carchardai, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a’r gwasanaeth prawf.

**367.** Nid yw Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026 yn creu unrhyw droseddau, sancsiynau na chosbau newydd. Rwy'n fodlon na fydd yn cael effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. ‘Na’ clir yw’r ateb i'r ddau gwestiwn allweddol a nodir yng nghanllawiau’r Llywodraeth.

## B) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Cyflwyniad

**368.** Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ystyried effaith Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar blant yng Nghymru a’u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.[225]

**369.** Mae wedi’i lywio gan Fframwaith y Ffordd Gywir: Asesiadau o’r Effaith ar Hawliau Plant Comisiynydd Plant Cymru[226] a thempled Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiadau o’r effaith ar hawliau plant: canllawiau i staff.[227]

[225] Unicef, UN Convention on the Rights of the Child
[226] Comisiynydd Plant Cymru, Y Ffordd Gywir: Cwestiynau Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru
[227] Llywodraeth Cymru, Asesiadau o’r effaith ar hawliau plant: canllawiau i staff Llywodraeth Cymru

**370.** Wrth lunio'r Ddeddf, ystyriwyd hawliau plant o ran yr hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio'i gyflawni a sut y bydd yn effeithio ar blant, ac erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o ran y ffordd y caiff ei roi ar waith.

## Crynodeb o effaith y Ddeddf ar hawliau plant

**371.** I grynhoi, mae'r Ddeddf hon yn rhoi effaith bellach i hawliau plant yng Nghymru a'u hawlogaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr hawliau a'r hawlogaethau hynny.

**372.** Drwy gefnogi'r ddeddfwriaeth hon, byddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau statudol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[228] a'i dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth y mae'n ei wneud.

**373.** Ystyriwyd yr effaith ar blant a phobl ifanc Byddar sy'n arwyddwyr IAP a, phan nodwyd ei bod yn angenrheidiol, addaswyd y cynigion hyn er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl heb achosi niwed i unrhyw grwpiau penodol. Ystyriwyd y risgiau posibl a'r canlyniadau anfwriadol i blant a phobl ifanc, ac mae hynny wedi dylanwadu ar gynnwys y Ddeddf ei hun ac ar ystyriaethau o ran sut y caiff ei weithredu.

## Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud a sut y mae hyn yn ymwneud â phlant?

**374.** Nod y Ddeddf yw hybu IAP ar draws gwasanaethau cyhoeddus a hybu'r defnydd ohoni. Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i blant Byddar a phlant oedolion Byddar, gan wella eu gallu i gael mynediad at hawliau, addysg a'r gallu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ar sail gyfartal â'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

**375.** Er bod y Ddeddf yn ymwneud yn bennaf â hybu iaith arwyddion a'r defnydd ohoni, mae ganddo oblygiadau i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn yr adrannau a ganlyn.

## Sut yr ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc ynghylch y cynigion sy'n sail i'r Ddeddf?

**376.** Fel y trafodir isod, mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi hawl i blant i fynegi eu barn, eu teimladau a'u

[228] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried o ddifrif. Y prif grŵp y bwriedir iddynt elwa o'r Ddeddf yw arwyddwyr IAP Byddar, felly ceisiodd yr ymgynghoriad ymgysylltu â'r gymuned Fyddar yn fwy cyffredinol, yn hytrach na grwpiau penodol o arwyddwyr IAP fel plant. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc Byddar, gydag ymatebion gan Gomisiynydd Plant Cymru,[229] y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar[230] a Sefydliad Neumark[231] ac ymatebion unigol gan y rhai sydd â phrofiad bywyd o IAP. Cafwyd ymatebion hefyd gan ddarparwyr addysg gan gynnwys Tîm Addysg Plant Byddar Cyngor Abertawe,[232] Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru[233] ac NASUWT Cymru (Undeb yr Athrawon).[234] Mae crynodeb o'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi.[235] Rhaid nodi hefyd bod sefydliadau fel Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a'r RNID yn cynrychioli anghenion yr holl arwyddwyr IAP, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

**377.** Cynhaliwyd pum cyfarfod hefyd gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o IAP, gan gynnwys rhieni a'u plant. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y crynodeb o'r gwaith ymgysylltu.[236]

**378.** Cafodd y Ddeddf ddrafft,[237] a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2025, ei lywio gan ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad bywyd. Mae barn sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc Byddar wedi llywio ystyriaethau drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion a'r Ddeddf ei hun.

[229] Comisiynydd Plant Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[230] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[231] Sefydliad Neumark, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[232] Tîm Addysg Plant Byddar Cyngor Abertawe, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[233] Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[234] NASUWT Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[235] Mark Isherwood AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) arfaethedig (Mawrth 2025)
[236] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)
[237] Bil Drafft Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026

## Sut y mae'r Ddeddf yn rhoi effaith i erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn?

**379.** Mae darpariaethau’r Ddeddf yn cefnogi nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn ac yn rhoi effaith iddynt.

**Erthygl 2 (dim gwahaniaethu): Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau gymryd pob mesur priodol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag pob ffurf ar gamwahaniaethu neu gosbi ar sail statws, gweithgareddau, barnau datganedig, neu gredoau rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, neu aelodau teulu'r plentyn.**

**380.** Mae'r erthygl yn sicrhau bod pob hawl yn gymwys ar gyfer pob plentyn heb wahaniaethu. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi fframwaith sy'n cynnig amddiffyniad rhag gwahaniaethu. Fodd bynnag, mae diffyg Deddf IAP bwrpasol yng Nghymru yn golygu y gallai plant Byddar sy'n arwyddwyr IAP wynebu gwahaniaethu o hyd oherwydd cefnogaeth anghyson ledled Cymru. At hynny, o'u cymharu â phlant Byddar sy'n arwyddwyr IAP yn Lloegr a'r Alban, lle mae deddfwriaeth i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, gall plant Byddar yng Nghymru fod o dan anfantais.

**381.** Er na all y Ddeddf ynddii ei hun ddatrys hyn i gyd, mae'n hyrwyddo buddiannau plant Byddar. Drwy hybu a hwyluso’r defnydd o IAP, bydd y Ddeddf yn cefnogi hawliau plant Byddar. Bydd yn sicrhau bod rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus nodi beth maent yn mynd i'w wneud i fynd i'r afael ag anghenion arwyddwyr IAP Byddar. Mae'r Ddeddf yn cefnogi peidio â gwahaniaethu drwy sicrhau nad yw plant Byddar ac arwyddwyr IAP yn cael eu hallgáu o wasanaethau cyhoeddus neu’n methu â chael gwybodaeth oherwydd rhwystrau iaith. Mae’n hybu cynhwysiant a chydraddoldeb i blant Byddar sy'n defnyddio IAP fel eu hiaith gyntaf neu eu dewis iaith.

**Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn): Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn un o’r prif flaenoriaethau ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.**

**382.** Gellir ystyried bod darpariaethau'r Ddeddf yn gweithredu er lles pennaf plant Byddar drwy hybu a hwyluso’r defnydd o IAP. Mae mynediad at gyfathrebu yn iaith naturiol plentyn yn hanfodol ar gyfer ei ddatblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol. Gall y Ddeddf helpu i sicrhau nad yw plant sy'n dibynnu ar IAP yn profi amddifadedd ieithyddol a all effeithio'n negyddol ar eu datblygiad a'u canlyniadau gydol oes.

**383.** Tynnodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd sylw at lawer o'r rhwystrau y mae plant a'u teuluoedd yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at IAP a'r effaith negyddol y mae hynny'n ei chael ar eu mynediad at wasanaethau ac o ganlyniad ar ganlyniadau bywyd o ran iechyd, addysg a chyflogaeth.

**384.** Bydd gofyniad y Ddeddf ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun ac adrodd ar gynnydd yn arwain at fwy o ffocws ar anghenion plant sy'n arwyddwyr IAP. Yng Nghynllun Cenedlaethol IAP yr Alban 2023 – 2029[238] mae'r maes blaenoriaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cwmpasu 12 o'r 45 o nodau ar draws y cynllun.

**Erthygl 12 (parchu barn y plentyn): Mae gan bob plentyn hawl i leisio'i farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried o ddifrif.**

**385.** Gan mai IAP yw iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw, mae'n gyfrwng y gallant gyfathrebu'n effeithiol drwyddo a chymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd nod y Ddeddf, sef hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, yn grymuso arwyddwyr IAP Byddar i fynegi eu barn yn fwy effeithiol ac felly gymryd rhan fwy ystyrlon mewn bywyd cyhoeddus. Gall hefyd helpu i hybu ymdeimlad o hunaniaeth Fyddar a balchder yn yr iaith, a allai roi hyder i blant sy'n arwyddwyr IAP rannu eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau â'r cyrff y bydd gofyn iddynt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

**386.** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae Comisiynydd Plant Cymru[239] yn nodi y byddai'r Ddeddf yn cadarnhau hawliau plant Byddar i gael cyfle i rannu eu barn. At hynny, dywedodd y dylid ystyried sut y gellir cynrychioli plant a phobl ifanc a sut y gellid rhoi llais iddynt. Dywedodd un ymatebydd unigol ei bod yn bwysig hybu anghenion teuluoedd drwy gynnwys rhieni plant byddar. Byddai'r Ddeddf yn arwain at sefydlu cynghorydd IAP a phanel a all adlewyrchu lleisiau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

**Erthygl 13 (rhyddid mynegiant): Rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei farn a chael gafael ar bob math o wybodaeth.**

**387.** Mae IAP wedi'i hintegreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru ac yn cael ei haddysgu fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r integreiddio hwn yn caniatáu i ddysgwyr Byddar a thrwm eu

[238] Llywodraeth yr Alban, BSL National Plan 2023 – 2029 (Tachwedd 2023)
[239] Comisiynydd Plant Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

clyw ddatblygu IAP fel iaith gyntaf neu ail iaith, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sy'n clywed ddysgu IAP fel trydedd iaith neu iaith ddilynol.

**388.** Mae plant Byddar yng Nghymru yn aml yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at wybodaeth oherwydd darpariaeth IAP annigonol mewn gwasanaethau cyhoeddus (gweler ymgynghori ac ymgysylltu). Gall hyn gael ei achosi gan sawl ffactor, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth o anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar a diffyg dehonglwyr a chyfieithwyr IAP.

**389.** Drwy'r ddyletswydd i hybu a hwyluso’r defnydd o IAP, mae'r Ddeddf yn gwella hawl plant i fynegi eu hunain yn eu hiaith eu hunain ac mewn ffordd sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion arwyddwyr IAP. Dylai hyn arwain at greu sianeli cyfathrebu rhwng plant Byddar a'u teuluoedd a darparwyr gwasanaethau fel sydd wedi digwydd mewn deddfwriaeth mewn seneddau eraill.

**Erthygl 23 (hawliau plant ag anableddau): Mae gan blentyn ag anabledd hawl i fwynhau bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyhyd ag y bo modd, annibyniaeth, ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth yn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.**

**390.** Nid yw rhai arwyddwyr IAP Byddar yn ystyried bod ganddynt anabledd, ond yn hytrach maent yn ystyried eu hunain fel aelodau o leiafrif ieithyddol a diwylliannol. Gellir ystyried bod person Byddar sy'n defnyddio IAP yn anabl oherwydd nad yw'n gallu cael mynediad at amgylcheddau sy'n annog cyfathrebu lle nad oes dehonglwyr IAP ar gael, er gwaethaf gallu naturiol yr unigolyn i gyfathrebu drwy IAP.

**391.** Y bwriad y tu ôl i'r Ddeddf yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hybu a hwyluso’r defnydd o IAP, a thrwy wneud hynny, yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen am iaith hygyrch ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

**Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd): Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod hawl y plentyn i fwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd ac i gael cyfleusterau ar gyfer trin afiechyd ac adfer i iechyd. Sicrhau bod rhieni a phlant, yn wybodus, yn gallu cael mynediad at addysg ynghylch iechyd a maeth plant, ac yn cael cymorth i ddefnyddio gwybodaeth sylfaenol am y materion hynny [...] Datblygu gofal iechyd ataliol, llunio canllawiau i rieni a datblygu addysg a gwasanaethau ynghylch cynllunio teulu.**

**392.** Ar hyn o bryd, mae arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran cael mynediad at iechyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg systemau cyfathrebu effeithiol ac opsiynau archebu a gwasanaethau dehongli anghyson. Tynnwyd sylw at y rhwystrau iechyd y mae arwyddwyr IAP yn eu hwynebu gan dros hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyffredinol.

**393.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig hwyluso'r defnydd o IAP. Gallai hyn fod drwy fynd i'r afael â'r prinder o ddehonglwyr IAP yn gyffredinol ond gallai hefyd gynnwys sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i gael mynediad at ddehongli a chyfieithu IAP. Pan wneir gwelliannau yn y defnydd o IAP, gallai hyn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar sut y mae plant a'u rhieni'n cael mynediad at wasanaethau iechyd.

**Erthygl 28 (hawl i addysg): Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn.**

**394.** Mae bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol yn effeithio'n anghymesur ar blant Byddar. Mae ystadegau'n dangos bod dysgwyr byddar yn 2019 10.7% yn llai tebygol o gyflawni graddau A*-C ym mhynciau craidd Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gyda'i gilydd na'u cyfoedion sy'n clywed.[240] Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am gymorth ac adnoddau wedi'u targedu i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg.

**395.** Mae prinder Athrawon Plant Byddar yng Nghymru yn effeithio ar ansawdd addysg plant B/byddar. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, bu gostyngiad yn nifer yr Athrawon Plant Byddar ac mae pryderon ynghylch dyfodol y gweithlu o ystyried y niferoedd sy'n cyrraedd oedran ymddeol.

[240] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, note on Welsh Government figures on educational attainment data in 2019 (Cymru) (Awst 2019)

**396.** Nid yw'r Ddeddf yn deddfu ar ddarpariaeth addysgol. Fodd bynnag, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer hybu a hwyluso IAP, bydd y Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o IAP mewn ysgolion.

**Erthygl 29 (nodau addysg): Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog y plentyn i barchu hawliau dynol, yn ogystal â pharchu ei rieni, ei hunaniaeth ddiwylliannol, ei iaith a'i werthoedd ei hun a rhai pobl eraill.**

**397.** Mae'r Ddeddf yn symbol arwyddocaol, gan gydnabod hunaniaeth ddiwylliannol arwyddwyr IAP Byddar ac anfon neges bwysig at arwyddwyr IAP bod eu hiaith yn cael ei gwerthfawrogi a bod eu hawliau i fynediad ieithyddol yn cael eu cydnabod. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr addysg o IAP ac yn cynyddu hyder arwyddwyr IAP i fynegi eu hunaniaeth ddiwylliannol, eu hiaith a'u gwerthoedd.

**398.** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mynegodd Comisiynydd Plant Cymru[241] bryder nad yw hawliau Erthygl 28 a 29 yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Roedd hi o'r farn y byddai'r Ddeddf yn cynnig cyfleoedd i wella cyrhaeddiad addysgol dysgwyr Byddar a gwella eu mynediad at hawliau sylfaenol fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## A allai'r Ddeddf gael unrhyw effeithiau negyddol posibl ar blant a sut y gellir lliniaru'r rhain?

**399.** Y bwriad yw y bydd y Ddeddf IAP yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n arwyddwyr IAP Byddar, y bydd eu hanghenion ieithyddol yn cael eu cydnabod o ganlyniad i'r Ddeddf, ac y byddant yn cael eu hymyleiddio llai ac yn wynebu llai o rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau.

**400.** Mae cyfyngiadau i'r Ddeddf IAP. Gan ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar hybu a hwyluso IAP mewn gwasanaethau cyhoeddus, nid yw'n creu dyletswyddau penodol y mae modd eu gorfodi ar gyrff cyhoeddus i ddarparu IAP. Er enghraifft, nid yw'r Ddeddf yn gwarantu darpariaeth IAP mewn ysgolion, felly nid yw mynediad at addysg yn iaith gyntaf plentyn wedi'i warantu o ganlyniad i'r Ddeddf hon. Heb y rhwymedigaethau hyn a chefnogaeth gyson gan wasanaethau dehongli a chyfieithu, gall plant a phobl ifanc sy'n arwyddwyr IAP wynebu rhwystrau o hyd wrth gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd,

[241] Comisiynydd Plant Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

addysg a gofal cymdeithasol. Heb gyllid priodol, hyfforddiant staff, na monitro, efallai na fydd gwelliannau'n digwydd ar gyfer plant.

**401.** Fodd bynnag, mae darpariaethau'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso IAP, cyhoeddi strategaeth genedlaethol a chanllawiau ac adrodd ar gynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i adrodd ar yr hyn y maent wedi'i wneud i weithredu eu cynllun ac, os nad ydynt wedi gweithredu rhywbeth, i egluro pam nad ydynt wedi gwneud hynny. Felly, bydd ystyried materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu IAP yn sicr o fod yn un o flaenoriaethau pwysicaf Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig hynny.

## A allai'r Ddeddf effeithio ar rai plant yn fwy nag eraill?

**402.** Prif amcan y Ddeddf hon yw hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar anghenion arwyddwyr IAP Byddar ac felly bydd yr effaith fwyaf uniongyrchol ar blant Byddar sy'n defnyddio IAP fel eu hiaith gyntaf. Y plant hyn fydd yn elwa fwyaf o gynnydd mewn mesurau i hybu a hwyluso IAP.

**403.** Gan fod y Ddeddf yn ymwneud yn benodol ag anghenion plant sy'n arwyddwyr IAP, gallai hyn adael plant B/byddar eraill sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu eraill dan anfantais. Tynnwyd sylw at y mater hwn gan un unigolyn[242] a oedd yn gwrthwynebu nodau'r Ddeddf ar y sail nad yw'n gynhwysol a'i fod yn 'hepgor' y rhai sydd ag amhariadau ar y clyw.

**404.** Nid yw'r Ddeddf yn cwmpasu plant anabl a'r rhai ag anghenion cymhleth ychwanegol, a'r rhai sy'n defnyddio cymysgedd o IAP, Makaton neu dulliau cyfathrebu eraill. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau i wella mathau eraill o gyfathrebu.

**405.** Er bod ffocws y Ddeddf ar hybu a hwyluso IAP, bydd y Ddeddf yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn meddwl am anghenion y gymuned F/fyddar yn ehangach. Bydd penodi Cynghorydd IAP a phanel yn helpu i greu lle ar gyfer eiriolaeth dros yr holl blant Byddar, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu eraill.

[242] Mervyn James, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)

## C) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Cyflwyniad

**406.** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i gael gwared ar anfanteision y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Mae'r ddyletswydd hon yn sicrhau bod gan unigolion anabl fynediad cyfartal at wasanaethau, cyflogaeth a swyddogaethau cyhoeddus. Gall methu â gwneud yr addasiadau hyn gael ei ystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon.

**407.** Fel rhan o ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan Lywodraeth Cymru 7 Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol,[243] sef:

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1: Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.
- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus.
- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.
- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4: Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb.
- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5: Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain.
- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6: Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg.

[243] Llywodraeth Cymru, Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-28 (Mawrth 2024)

- Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7: Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

**408.** Wrth lunio'r Ddeddf, ystyriwyd yr amcanion cydraddoldeb cenedlaethol o ran yr hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio'i gyflawni a sut y bydd yn effeithio ar nodweddion gwarchodedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y Ddeddf IAP yn canolbwyntio ar hybu a hwyluso IAP ac mai'r bwriad yw y bydd cynhyrchu cynlluniau IAP yn codi proffil yr iaith ac, yn sgil hynny, ei defnydd wrth ddarparu gwasanaethau. Nid yw'r Ddeddf yn mynd mor bell â gosod gofyniad statudol penodol ar awdurdodau i ddarparu dehonglwyr neu wasanaethau cyfieithu IAP, ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig hynny ddarparu gwasanaethau penodol i arwyddwyr IAP Byddar.

**409.** Ystyriwyd yr effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a, phan nodwyd bod hynny'n angenrheidiol, addaswyd y cynigion hyn er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl heb achosi niwed i unrhyw grwpiau penodol. Ystyriwyd y risgiau posibl a'r canlyniadau anfwriadol i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, ac mae hynny wedi dylanwadu ar gynnwys y Ddeddf ei hun ac ar ystyriaethau o ran sut y caiff ei weithredu.

**410.** Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") i ystyried sut y mae eu polisïau'n effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig berthnasol. Mae anabledd yn un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae gweithredu'r Ddeddf IAP yn llwyddiannus yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac o fewn yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

### Pobl anabl

**411.** Wrth lunio'r Ddeddf, ystyriwyd hawliau pobl anabl o ran yr hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio'i gyflawni a sut y bydd yn effeithio ar bobl anabl, ac erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl o ran y ffordd y caiff ei roi ar waith. Er nad yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i wneud hynny.

**412.** Nod y Ddeddf yw hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Bydd goblygiadau sylweddol i arwyddwyr IAP yn sgil hyn, a bydd yn

gwella eu gallu i gael mynediad at wasanaethau gan gynnwys addysg ac iechyd a chymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn eu hiaith eu hunain.

**413.** I grynhoi, mae'r Ddeddf hon yn rhoi effaith bellach i hawliau pobl anabl yng Nghymru a'u hawlogaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl mewn perthynas ag Erthygl 21 (cydnabod a hybu'r defnydd o iaith arwyddion) ac Erthygl 30 (cydnabod hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol pobl Fyddar) ac yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr hawliau a’r hawlogaethau hynny.

## Effaith ar grwpiau oedran gwahanol

**414.** Nod y Ddeddf yw gwella mynediad at ddarpariaeth IAP i bob arwyddwr IAP. Bydd hyn yn creu effaith gadarnhaol ar arwyddwyr IAP o bob oed.

## Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)

**415.** Bydd y Ddeddf yn hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ym maes gofal iechyd. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl draws sy'n arwyddwyr IAP. Gallai mynediad haws at wybodaeth a chyngor helpu i sicrhau bod arwyddwyr IAP traws yn cael gwell gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt ac yn fwy hyderus wrth gael mynediad at Wasanaethau Hunaniaeth Rhywedd.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

**416.** Bydd y Ddeddf yn hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ym maes gofal iechyd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr arwyddwyr IAP sy'n defnyddio gwasanaethau beichiogrwydd a mamolaeth.

## Hil (gan gynnwys grwpiau ethnig lleiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

**417.** Mae’r Ddeddf yn hybu a hwyluso’r defnydd o IAP. O ystyried nad yw iaith arwyddion yn rhyngwladol, gallai olygu na fydd y Ddeddf hon yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion iaith y rhai sy’n siarad iaith arwyddion wahanol. Fodd bynnag, bydd yn arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o anghenion pawb sy'n arwyddwyr a gallai gael effaith gadarnhaol ar grwpiau ethnig lleiafrifol, mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n defnyddio iaith arwyddion.

## Crefydd, cred a diffyg cred

**418.** Nod y Ddeddf yw creu effaith gadarnhaol ar bob arwyddwr IAP ac mae'n gynhwysol o bawb beth bynnag fo'u crefydd, cred neu ddiffyg cred, felly nid oes unrhyw effeithiau canfyddedig yn sgil hyn.

## Rhyw/rhywedd

**419.** Er bod y Ddeddf yn seiliedig ar iaith yn hytrach na rhywedd, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bob rhywedd.

## Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)

**420.** Nod y Ddeddf yw creu effaith gadarnhaol ar bob arwyddwr IAP a sicrhau ei fod yn cynnwys pawb beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, gallai arwain at effaith gadarnhaol ar arwyddwyr IAP Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol sydd wedi'u grymuso gan y Ddeddf i geisio cymorth trwy wasanaethau cyhoeddus.

## Priodas a phartneriaeth sifil

**421.** Nid yw'r Ddeddf yn mynd i'r afael â statws partneriaeth ac nid oes unrhyw effeithiau canfyddedig yn sgil hyn.

## Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed

**422.** Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'i gwblhau.

## Aelwydydd incwm isel

**423.** Yng Nghymru, mae cyfraddau cyflogaeth pobl anabl 16 i 64 oed 31 pwynt canran yn is na phobl nad ydynt yn anabl (2023 i 2024).[244] Ni all llawer o bobl anabl sydd eisiau gwaith gael mynediad ato; mae rhwystrau'n cynnwys diffyg gweithleoedd hygyrch a chefnogaeth pan fyddant mewn gwaith, sy'n eu hatal rhag ennill cyflog teg a chael boddhad yn eu swydd. Er gwaethaf y gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae llawer o gyflogwyr yn dal i fethu â deall y darpariaethau angenrheidiol sydd eu hangen i gefnogi pobl anabl i gael cyflogaeth.

**424.** Tynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylw at y rhwystrau y mae pobl Fyddar yn eu hwynebu yn y gweithle. Cyfeiriodd rhai at faterion yn ymwneud â'r amser y mae'n ei gymryd i gael cymorth drwy'r cynllun 'Mynediad at Waith'

[244] Llywodraeth Cymru, Cynllun Hawliau Pobl Anabl Drafft: 2025 i 2035 (Mai 2025)

(cynllun ledled y DU sy'n darparu adnoddau er mwyn galluogi pobl i weithio). Tynnodd Anabledd Cymru sylw at anhygyrchedd gweithleoedd ar gyfer arwyddwyr IAP. Eglurodd fod llawer yn y gymuned Fyddar eisiau gweithio ond yn wynebu rhwystrau gan alw am well addysg ymhlith cyflogwyr, polisïau cryfach, arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus, ac ymdrechion cydweithredol.[245] Mynegodd llawer o gyfranogwyr rwystredigaeth am nad oeddent yn gallu ymuno â'r gweithlu oherwydd rhwystrau systemig.[246]

**425.** Mae'r Ddeddf IAP yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig yn hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arwyddwyr IAP o ran cael mynediad at ofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill fel trafnidiaeth. Gallai mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn gael effaith sylweddol ar ganlyniadau arwyddwyr IAP, gan gynnwys eu cyfleoedd cyflogaeth. Gallai hefyd gael effaith gadarnhaol ar y cyrff cyhoeddus rhestredig hynny a allai, o ganlyniad i'r Ddeddf, geisio mynd i'r afael â rhwystrau cyflogaeth sy'n bodoli i bobl Fyddar yn eu sefydliadau eu hunain.

## D) Yr Effaith ar y Gymraeg

### Diben y Ddeddf

**426.** Nod Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yw hybu'r defnydd o IAP yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny drwy osod dyletswyddau amrywiol newydd ar Weinidogion Cymru ac ar gyrff cyhoeddus penodol.

**427.** Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan y Ddeddf, hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, bydd yn ofynnol iddynt lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio'r ffordd y maent hwy eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a'r ffordd y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol (a elwir yn gyrff cyhoeddus rhestredig) i wneud hynny. Bydd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus rhestredig hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol a restrir yn y Ddeddf lunio cynlluniau sy'n disgrifio'r ffordd y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

[245] Anabledd Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025) (Saesneg yn unig)
[246] Mark Isherwood AS, Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Mawrth 2025)

**428.** Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir wrth hybu IAP o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

**429.** Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi rhywun yn gynghorydd IAP iddynt, ynghyd â phanel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd.

**Sylwadau cyffredinol**

**430.** Yn sgil yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar y cynigion, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar Ddeddf ddrafft, ni chyfeiriodd unrhyw un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy at unrhyw ffordd y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac ar addysg Gymraeg na dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

**431.** Er efallai nad yw darpariaethau'r Ddeddf yn effeithio'n uniongyrchol ar bolisïau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg, gallai cyflwyno Deddf sy'n ymwneud ag iaith gydnabyddedig arall yng Nghymru arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol.

**432.** Fel y nodwyd uchod, mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol, a dyroddi canllawiau i 'gyrff cyhoeddus rhestredig' penodedig ynghylch sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ei gwaith ar y Gymraeg.

**433.** Mae gan Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig yn y Ddeddf ddyletswyddau statudol o ran y Gymraeg hefyd.

**434.** Er nad yw'r cynigion a nodir yn y Ddeddf yn cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sicrhawyd bod yr holl ohebiaeth a chyhoeddusrwydd yn ymwneud â chyflwyno'r Ddeddf yn cyd-fynd â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd.

## E) Asesiadau effaith eraill

**435.** Bydd amcanion polisi'r Ddeddf yn effeithio'n uniongyrchol ar sawl agwedd ar fywyd. Trafodir manteision a goblygiadau hyn yn fanwl ym mhrif gorff y Memorandwm Esboniadol.

**436.** Trafodir yr effaith benodol ar wahanol feysydd yn Rhan 1, Pennod 3: Diben y Ddeddf a'r effaith y bwriedir iddi ei chael; a Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau ar feysydd sy'n cynnwys iechyd a llesiant, a'r manteision i'r meysydd hynny.

# 12. Nodiadau Esboniadol

**Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)**

**Cyflwyniad**

**437.** Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn wedi eu llunio er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ("y Ddeddf").

**438.** Dylid darllen y Nodiadau ar y cyd â'r Ddeddf. Nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, ac ni fwriedir iddynt fod felly. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

**Crynodeb a Chefndir**

**439.** Iaith Arwyddion Prydain ("IAP") yw iaith gyntaf neu ddewis iaith llawer o arwyddwyr IAP byddar yn y DU. Yn debyg i'r Gymraeg a'r Saesneg, mae gan IAP ei gramadeg, ei geirfa a'i strwythur ieithyddol ei hun. Mae'n cynnwys ffurf weledol ar IAP, a ffurf gyffyrddol a ddefnyddir gan rai pobl ddallfyddar. Nod y Ddeddf yw hybu'r defnydd o IAP yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud hynny drwy osod dyletswyddau newydd amrywiol ar Weinidogion Cymru ac ar gyrff cyhoeddus penodol.

**440.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac, er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio strategaeth IAP genedlaethol sy'n disgrifio sut y maent eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a sut y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud hynny. Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus hynny ynghylch hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd benodi rhywun yn gynghorydd IAP iddynt, ynghyd â phanel o bobl i gynorthwyo'r cynghorydd.

**441.** Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol a restrir yn y Ddeddf lunio cynlluniau sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

**442.** Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus rhestredig adrodd ar y cynnydd a wnaed.

**443.** Mae 12 o adrannau ac un Atodlen i'r Ddeddf.

## SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Adran 1 – Iaith Arwyddion Prydain

**444.** O ganlyniad i adran 1, mae cyfeiriadau at “IAP” yn y Ddeddf yn gyfeiriadau at ffurfiau gweledol a chyffyrddol Iaith Arwyddion Prydain, ac eithrio’r canlynol:

a. darpariaethau amrywiol sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau gael eu rhoi ar gael yn IAP,

b. gofynion yr Atodlen o ran sgiliau a phrofiad y cynghorydd IAP.

**445.** O ganlyniad i’r eithriadau hyn:

a. pan fo’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfen gael ei rhoi ar gael yn IAP, mae hyn yn golygu’r ffurf weledol yn unig (am fod natur IAP gyffyrddol yn golygu na ellir ei chyhoeddi), a

b. nid yw ond yn ofynnol i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod y person a benodir yn gynghorydd IAP (gweler paragraff 25 isod) yn gallu cyfathrebu’n effeithiol yn ffurf weledol IAP ac yn ei defnyddio, a bod ganddo brofiad personol o’r ffurf honno (felly, er y caiff Gweinidogion Cymru benodi rhywun y mae ei sgiliau cyfathrebu a’i brofiad yn ymwneud â’r ffurf gyffyrddol hefyd, ni fydd hynny’n hanfodol).

### Adran 2 – Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu IAP

**446.** Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso’r defnydd o IAP.

### Adran 3 – Strategaeth IAP genedlaethol

**447.** Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth genedlaethol er mwyn cyflawni eu dyletswydd i hybu a hwyluso’r defnydd o IAP.

**448.** Rhaid i’r strategaeth ddisgrifio, yn gyntaf, sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu hybu a hwyluso’r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau eu hunain (is-adran (2)(a)(i)) ac, yn ail, sut y maent yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i wneud yr un peth (is-adran (2)(a)(ii)). Mae adran 9 yn rhestru’r cyrff cyhoeddus hynny (y cyfeirir atynt yn y Nodiadau Esboniadol hyn fel “cyrff cyhoeddus rhestredig”).

**449.** O ganlyniad i is-adran (2)(b), rhaid i'r strategaeth IAP gynnwys targedau i gynyddu neu gynnal:

a. niferoedd y cyfieithwyr a'r dehonglwyr IAP sydd ar gael at ddiben arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, a swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus rhestredig, a

b. niferoedd y personau sydd ar gael at ddiben addysgu ac asesu'r cyfieithwyr a'r dehonglwyr hynny.

**450.** Mae is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth nodi pa wybodaeth ynghylch y defnydd o IAP yng Nghymru a gafwyd ac a ystyriwyd at ddiben llunio'r strategaeth IAP.

**451.** Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym (is-adran (3)(a)), a'i hadolygu o leiaf unwaith bob chwe blynedd (is-adran (3)(b)). Rhaid gosod y strategaeth (gan gynnwys unrhyw fersiynau diwygiedig ohoni) gerbron Senedd Cymru (is-adran (4)(a)) a rhaid ei rhoi ar gael yn IAP (is-adran (4)(b)).

**452.** Mae is-adrannau (5) a (6) yn nodi sut, a phryd, y mae rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys personau penodol yn y broses o lunio'r strategaeth.

### Adran 4 – Canllawiau IAP

**453.** Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus rhestredig ynghylch sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau.

**454.** Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth IAP (is-adran (2)(a)) a chânt ddyroddi canllawiau diwygiedig ar unrhyw adeg (is-adran (2)(b)).

**455.** Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau (is-adran (3)(a)) a sicrhau eu bod ar gael yn IAP (is-adran (3)(b)).

**456.** Mae is-adran (4) yn nodi â phwy y mae rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn dyroddi'r canllawiau.

### Adran 5 – Cynlluniau IAP

**457.** Mae adran 5(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynlluniau sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau a sut y maent yn bwriadu dilyn y

canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r cynlluniau hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y caiff Gweinidogion Cymru ei rhagnodi drwy reoliadau (is-adran (1)(c)).

**458.** Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi eu cynlluniau o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r strategaeth IAP genedlaethol gael ei chyhoeddi.

**459.** Rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig adolygu ei gynllun os yw'n cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru (is-adran (3)(a)) neu os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r strategaeth IAP genedlaethol (is-adran (3)(b)). Ac os yw corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu diwygio ei gynllun yn dilyn adolygiad, rhaid iddo gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig (is-adran (5)).

**460.** Mae is-adrannau (6) a (7) yn nodi sut, a phryd, y mae rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig gynnwys personau penodol yn y broses o lunio'r cynlluniau.

**461.** Rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig sicrhau bod eu cynlluniau'n cael eu rhoi ar gael yn IAP a'u hanfon at Weinidogion Cymru (is-adran (8))

**Adran 6 – Y cynghorydd IAP**

**462.** Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi cynghorydd IAP ac aelodau panel i gynorthwyo'r cynghorydd.

**463.** Caiff y cynghorydd ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynghylch swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf (a rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo gan Weinidogion Cymru). A, chyhyd â bod Gweinidogion Cymru yn cytuno i hyn, caiff y cynghorydd hefyd ddarparu gwybodaeth neu gyngor i unrhyw berson arall mewn perthynas â hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru.

**464.** Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol hefyd:

a. cynnwys y cynghorydd wrth lunio'r strategaeth IAP genedlaethol (gweler adran 3(5)(a));

b. ymgynghori â'r cynghorydd cyn dyroddi canllawiau IAP (gweler adran 4(4)(a));

c. ymgynghori â'r cynghorydd ynghylch adroddiadau cynnydd Gweinidogion Cymru (gweler adran 8(6)(a)); a

d. ymgynghori â'r cynghorydd cyn gwneud rheoliadau sy'n newid pa gyrff sy'n "cyrff cyhoeddus rhestredig" (ac sydd felly â dyletswyddau wedi eu rhoi arnynt gan y Ddeddf hon) (gweler adran 9(3)(a)).

**465.** Mae is-adran (7) yn cyflwyno Atodlen sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch y cynghorydd IAP a'r panel, gan gynnwys:

a. gofyniad bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y person a benodir yn gynghorydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP a bod ganddo ddealltwriaeth bersonol briodol o brofiadau arwyddwyr IAP (a gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn ceisio cyngor arwyddwr IAP yn hyn o beth);

b. darpariaethau ynghylch y cyfleusterau y gellir eu rhoi ar gael i'r cynghorydd, ac ynghylch cydnabyddiaeth ariannol y cynghorydd ac aelodau'r panel.

**Adran 7 – Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig**

**466.** Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi adroddiadau sy'n manylu ar yr hyn y maent wedi ei wneud i weithredu eu cynlluniau IAP (gweler adran 5) ac, os nad ydynt wedi gweithredu rhywbeth, sy'n esbonio pam nad ydynt wedi gwneud hynny.

**467.** Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r corff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi ei gynllun o dan adran 5; rhaid eu rhoi ar gael yn IAP a rhaid eu hanfon at Weinidogion Cymru (is-adran (2)).

**Adran 8 – Adroddiadau gan Weinidogion Cymru**

**468.** Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yn unol â'r Ddeddf (is-adran (1)). Bydd hyn yn cynnwys asesu'r hyn y mae Gweinidogion Cymru wedi ei wneud yn unol â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf a hefyd y cynnydd a wnaed yn unol â'r Ddeddf yn fwy cyffredinol.

**469.** Rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad o'r ystyriaeth y mae Gweinidogion Cymru wedi ei rhoi ynghylch a ddylid newid pa gyrff sy'n "cyrff cyhoeddus rhestredig" at ddibenion y Ddeddf (is-adran (5)).

**470.** At ddiben llunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru gael gwybodaeth briodol ynghylch y defnydd o IAP yng Nghymru yn ddigon rheolaidd i'w galluogi i asesu cynnydd (is-adran (2)), a chânt ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth iddynt (is-adran (4)).

**471.** Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi (is-adran (3)(a)). Rhaid iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru (is-adran (3)(b)) a chael ei roi ar gael yn IAP (is-adran (3)(c)).

**472.** Mae is-adran (6) yn nodi'r personau y mae rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â hwy wrth lunio'r adroddiad.

### Adran 9 – Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig"

**473.** Mae is-adran (1) yn nodi'r "cyrff cyhoeddus rhestredig" y mae dyletswyddau amrywiol a ddisgrifir yn y Nodiadau Esboniadol hyn yn gymwys iddynt. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid pa gyrff sydd ar y rhestr hon (is-adran (2)) a rhaid iddynt ymgynghori â phersonau perthnasol (is-adran (3)) cyn gwneud unrhyw newidiadau.

### Adran 10 – Rheoliadau

**474.** Mae adran 10 yn nodi sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf (o dan adrannau 5(1)(c) a 9(2)) i gael eu harfer a'r weithdrefn berthnasol gan Senedd Cymru sydd i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny. Ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 5(1)(c), gweithdrefn annilysu'r Senedd fydd y weithdrefn berthnasol (sy'n golygu bod yr offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau yn dod yn gyfraith pan gaiff ei wneud ond gall Senedd Cymru ei annilysu), ac ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 9(2), gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fydd y weithdrefn berthnasol (sy'n golygu na fydd yr offeryn sy'n eu cynnwys ond yn dod yn gyfraith os yw'n cael ei gymeradwyo drwy bleidlais yn Senedd Cymru).

### Adran 11 – Dod i rym

**475.** Mae adran 11 yn darparu y daw'r Ddeddf gyfan i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

### Adran 12 – Enw byr

**476.** Mae adran 12 yn nodi enw byr y Ddeddf, y caniateir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

### Yr Atodlen – Y cynghorydd IAP

**477.** Gweler paragraff 467 o'r Nodiadau Esboniadol hyn.

# 13. Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

**478.** Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfennaeth benodol yn cyd-fynd â Bil. Mae'r Mynegai a ganlyn yn nodi lle mae'r rhain i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol.

Tabl 11: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. | Datganiad yr Aelod | Y flaenddalen |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil. | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 4 hyd at 47 |
| | | Pennod 4 – Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei wneud a pham | Tudalennau 48 hyd at 57 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 79 hyd at 103 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil; ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus | Tudalennau 64 hyd at 75 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio. | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghoriad cyhoeddus | Tudalennau 64 hyd at 75 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. | Ddim yn berthnasol ar gyfer y Ddeddf hon gan iddo gael ei gyhoeddi eisoes ar ffurf ddrafft. | Dd/B |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | Pennod 11 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 121 hyd at 126 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 79 hyd at 103 |
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol.<br>*noder: ni nodwyd unrhyw anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil, ac o'r herwydd nid yw'r | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 4 hyd at 47 |
| | | Pennod 4 – | Tudalennau 48 hyd at 57 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| | Memorandwm Esboniadol yn ymdrin â hwy. | Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei wneud a pham | |
| | | Rhan 2 – Asesiad effaith rheoleiddiol | Tudalennau 79 hyd at 103 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | Pennod 6 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 76 hyd at 78 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Ddeddf hon.<br>Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol i gadarnhau'r safbwynt hwnnw. | Dd/B |
| 26.6(xii) | nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Pennod 10(A)<br>Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder | Tudalennau 104 hyd at 105 |
| 26.6A | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall. | Atodiad: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog | Y Bennod hon |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid oes unrhyw ddarpariaethau sydd yn y Ddeddf yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol. Felly, nid oes angen y tabl tarddiadau a nodir yn Rheol Sefydlog 26.6B. | Dd/B |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf yn cynnig diwygio deddfwriaeth bresennol mewn modd sylweddol. Felly, nid oes angen yr atodlen a nodir yn Rheol Sefydlog 26.6C. | Dd/B |